

# Cyngor Sir Fynwy
# Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011 - 2021
# Adroddiad Monitro Blynyddol

Cyfnod Monitro 1af Ebrill 2016 – 31ain Mawrth 2017

# Cyngor Sir Fynwy
# Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011 - 2021

## Adroddiad Monitro Blynyddol

### Cyfnod Monitro 1af Ebrill 2016 – 31ain Mawrth 2017

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Y Gyfarwyddiaeth Fenter**

**Cyngor Sir Fynwy**

**Neuadd y Sir**

**Brynbuga**

**NP15 1GA**

**Ffôn: 01633 644644**

**E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk**

# Tudalen Gynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| **2.** | Cyflwyniad | 8 |
| **3.** | Gwybodaeth Gyd-destunol | 12 |
| **4.** | Proses Fonitro'r CDLI | 18 |
| **5.** | Monitro'r CDLI – Dadansoddi Polisi | 21 |
| **6.** | Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd | 91 |
| **7.** | Casgliadau ac Argymhellion | 110 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Fel rhan o'r broses cynllun datblygu statudol mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

1.2 Mae'r AMB yn darparu'r sail ar gyfer monitro effeithioldeb y CDLl ac yn y pen draw yn penderfynu a oes angen unrhyw newidiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y cyflawnir nodau ac amcanion strategaeth y CDLl ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor asesu'r effaith y mae'r Cynllun yn ei gael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac mae'n dynodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.

1.3 Dyma'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLl Sir Fynwy ac fe'i seilir ar y cyfnod 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017.

## Canlyniadau Allweddol y Drydedd Broses Monitro Blynyddol 2016-2017

**Gwybodaeth Gyd-destunol**

1.4 Cynhwysir yn Adran 3 grynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â'r tueddiadau cyffredinol economaidd. Tra gallai rhai o'r newidiadau hyn a ddynodwyd gael goblygiadau ar gyfer y CDLl yn y dyfodol, nid yw unrhyw rai o'r newidiadau a ddynodwyd hyd yn hyn yn awgrymu'r angen am adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol yn digwydd dros y tymor hwy a bydd yr AMBau dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a rhoddi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

**Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad o'r Polisi**

1.5 Mae Adran 5 o'r AMB yn darparu asesiad o'r modd mae polisïau strategol a pholisïau ategol cysylltiedig y Cynllun yn gweithio yn erbyn y targedau monitro allweddol a'r canlyniadau a ddynodwyd ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLl yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i roddi arfarniad gwybodus ar gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/fonitro'r canlyniadau a'r polisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg gweledol o effeithioldeb y polisïau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn seiliedig ar y graddau goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad.

| | |
|---|---|
| Targedau / canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni | **52** |
| Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi | **22** |
| Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd a phryderon ynghylch gweithredu'r polisi o ganlyniad | **8** |
| Ni ellir dod i gasgliad o ganlyniad i brinder y data sydd ar gael | **2** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb darged/sbardun asesir canlyniadau'r monitro a chânt eu graddio'n unol â hynny

**Canlyniadau Allweddol yr** AMB

1.6 Mae canlyniadau'r broses fonitro'n dangos bod nifer o dargedau'r dangosyddion a'r canlyniadau monitro'n cael eu cyflawni (gradd goleuadau traffig gwyrdd), sy'n dangos bod polisïau perthnasol y Cynllun yn gweithio fel y'u bwriadwyd. Yn benodol dros gyfnod y monitro hwn:

- Parheir i wneud cynnydd tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.

- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 484 o unedau preswyl y mae 93(19.2%) ohonynt ar gyfer tai fforddiadwy.

- Derbyniodd pedwar o'r safleoedd tai a neilltuwyd yn y CDLl ganiatâd cynllunio:
    - Y Felin Bapur Gynt, Sudbrook (SAH7) 212 o anheddau yn cynnwys 20 o unedau fforddiadwy;
    - Coed Glas, Y Fenni (SAH9) 51 o anheddau yn cynnwys 18 o unedau fforddiadwy;
    - Prif Safle Pentref ym Mhenallt (SAH11xii) 10 annedd yn cynnwys 6 annedd fforddiadwy a 4 annedd y farchnad gyffredinol;
    - Prif Safle Pentref yn Shirenewton (SAH11xiv(b)) 5 annedd yn cynnwys 3 annedd fforddiadwy a 2 annedd y farchnad gyffredinol

  Gwnaed cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â thri safle tai strategol arall

- Cyfarfyddir yn gyffredinol â'r targedau polisi tai a amlinellir ym Mholisi S4 mewn perthynas â chaniatadau cynllunio a roddwyd yn y prif drefi a'r prif bentrefi.

- Mae cyfanswm o 40.76 hectar o dir cyflogaeth ar gael gan y Sir, sy'n dangos y cynhelir digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r raddfa alw a ddynodwyd. Cymerwyd i fyny 3.21 hectar o dir cyflogaeth a briodolir i ddatblygiadau ar safleoedd busnes a chyflogaeth ddynodedig (SAE1) (Quaypoint Magwyr a Pharc Busnes Westgate

Llan-ffwyst) a safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) (Heol yr Undeb Y Fenni a Bragdy Magwyr).

- Gwnaed cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â chaniatadau cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatadau'n cêl eu rhoddi i ystod o ddefnyddiau cyflogaeth defnydd dosbarth B ar safleoedd busnes a diwydiannol dynodedig (SAE1), safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) a safleoedd na neilltuwyd (yn gwneud cyfanswm o 2.26 hectar). Cymeradwywyd yn ogystal nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter wledig (6).

- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 24 o gyfleusterau twristiaeth, pob un ohonynt yn gysylltiedig â llety i dwristiaid yn amrywio o osod llety i ymwelwyr i lety glampio. Mae'r CCA newydd ar Lety Cynaliadwy i Dwristiaid wedi helpu i egluro'n cefnogaeth gyffredinol i'r sector pwysig hwn o'n heconomi.

- Mae'r cyfraddau gwacter yn ein hardaloedd siopa canolog ym mhob un o drefi a chanolfannau lleol y Sir yn dal yn is na chyfradd Cymru. Mae pob un ar wahân i un (Brynbuga) o ardaloedd siopa canolog y Sir yn dal yn is na chyfradd y DU.

- Mae cyfran defnyddiau manwerthu A1 o fewn Prif Ffryntiadau Siopa'r dref yn gyffredinol yn unol â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Prif Ffryntiadau Siopa.

- Rhoddwyd caniatadau cynllunio i gyfanswm o 4 cyfleuster cymunedol a hamdden.

- Roedd 51.2% (18.6 hectar) o'r datblygiadau a ganiatawyd[1] ar dir llwyd. Mae hyn yn arwyddocaol yn nhermau Sir Fynwy o ystyried y cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddatblygiadau tir llwyd yn y Sir.

- Ni chaniatawyd cynigion ar ardaloedd o ofod agored na neilltuwyd ar gyfer datblygu yn y CDLl.

- Mae digon o dir yn dal ar gael ar gyfer safleoedd posib i reoli gwastraff ac ni fu lleihad yn y banc tir mwynau.

- Ni chollwyd adeiladau rhestredig na safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd datblygiad a allai gael effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Caniatawyd cyfanswm o 5 cynllun yn corffori cynhyrchu ynni ar-y-safle a chwblhawyd 3 chynllun o'r fath, gan gynnwys dau barc haul ffotofoltaig ar raddfa fawr (Shirenewton a Crick).

[1] Mae'n eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeildau amaethyddol.

- Ni chaniatawyd datblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1/C2 nad oeddent wedi cwrdd â phrofion Nodyn Cyngor Technegol 15.

1.7 Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod amrywiol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni ond heb bryderon cyfatebol dros weithredu polisi, fel yr amlinellir yn Adran 5 (gradd goleuadau traffig oren). Mae ymchwiliad pellach wedi penderfynu bod rhesymau y gellir eu cyfiawnhau dros y perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn gynrychioladol o unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r polisi neu'r strategaeth y tro hwn.

1.8 Mae, fodd bynnag, nifer o dargedau dangosyddion polisi allweddol / canlyniadau monitro mewn perthynas â darpariaeth tai nad ydynt yn gwneud cynnydd fel y'u bwriadwyd (gradd goleuadau traffig coch). Mae ymchwiliad pellach wedi penderfynu bod pryderon gyda gweithredu'r agweddau hyn o'r fframwaith polisi. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Cofnodwyd cyfanswm o 238 o anheddau newydd wedi'u cwblhau (y farchnad gyffredinol a fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 439 o anheddau newydd wedi'u cwblhau yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 667 o anheddau wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a ddynodwyd yn y CDLl o 488 o anheddau wedi'u cwblhau y flwyddyn (diffyg o 797 o anheddau wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun).

2. Cofnodwyd cyfanswm o 47 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 80 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 127 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a ddynodwyd yn y CDLl o 96 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau y flwyddyn (diffyg o 161 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun). Mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnydd wrth adeiladu, ond hefyd â phroblemau hyfywedd.

3. Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CAATT) Sir Fynwy ar gyfer cyfnod 2016-17 yn dangos bod gan y Sir gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a bennwyd gan NCT1). Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r cyflenwad tir syrthio'n is na'r targed 5 mlynedd.

4. Cynnydd cyfyngedig a fu gyda chyflenwi safleoedd tai strategol a neilltuwyd. Ac eithrio'r Hen Felin Bapur yn Sudbrook a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyfredol a safle Heol Wonastow lle mae'r adeiladu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae'r safleoedd strategol sy'n weddill eto i dderbyn caniatâd cynllunio, er bod rhai wedi'u cymeradwyo ond yn disgwyl am gwblhau'r cytundebau cyfreithiol. Darperir gwybodaeth ar y cynnydd wrth gyflenwi safleoedd strategol y CDLl yn yr adran dadansoddi polisi ar gyfer Polisi S3.

1.9 Mae hyn yn dangos nad yw polisïau darparu tai allweddol y CDLl yn cael eu cyflenwi fel y bwriadwyd ac o ganlyniad mae'r diffyg dilynol o gyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai yn dal yn fater o bryder. Ffactor sylfaenol arall sy'n cyfrannu at y diffyg hwn yw'r cynnydd arafach na'r disgwyl ar safleoedd adeiladu tai strategol, er bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ddwyn y safleoedd hyn ymlaen ac nid oes tystiolaeth i awgrymu na ellir cyflenwi'r dyraniadau hyn (fel yr amlinellir yn Adran 5). Ta waeth, nid yw'r raddfa gyflenwi arafach nag a ragwelwyd yn awgrymu bod angen dyraniadau safleoedd ychwanegol.

1.10 Mae hyn yn parhau'r duedd a adnabuwyd y flwyddyn ddiwethaf yn yr AMB a'r Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a arweiniodd at yr argymhelliad i gychwyn adolygiad cynnar o'r Cynllun o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso dynodi a dyrannu tir hyfyw ychwanegol y bydd yn bosib ei gyflenwi.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

1.11 Gwnaed cynnydd gyda pharatoi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol i helpu i hwyluso dehongli a gweithredu polisi'r CDLl fel yr amlinellir yn Adran 3. Bydd paratoi a mabwysiadu'r CCA yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf. Lle bydd yn hanfodol, canolbwyntir adnoddau ar arolygu/adolygu'r Cynllun.

**Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)**

1.12 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y CDLl a'r AoG sy'n helpu i ddangos fel mae monitro'r CDLl a'r AoG yn rhyng-gysylltiedig.

1.13 Mae rhai o'r casgliadau mwyaf nodedig sy'n benodol i'r AoG yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Mae 87% o'r prif ddatblygiadau newydd[2] wedi'u lleoli o fewn taith gerdded 10 munud o wasanaeth bws mynych a rheolaidd.
- Cafodd 2 hectar o fannau agored eu creu o ganlyniad i ganiatadau cynllunio.
- Collwyd i ddatblygiad oddeutu 20 o goed yn cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed Coetir o ganlyniad i'r caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl yn y safle a neilltuwyd yng Nghoed Glas, Y Fenni (SAH9).
- Roedd un lleoliad lle'r oedd lefelau gwrthrychol blynyddol uwch o nitrogen deuocsid (Hardwick Hill, Cas-gwent).
- Roedd 8 o'r 20 cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl a safleoedd o dros 10 annedd /1 hectar yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)[3] yn y cynllun.

---

[2] Diffinnir datblygiad mawr fel un sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r datblygiadau canlynol o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar; datblygiad ag adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr i'w greu yn 1000m2 neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; ennill neu weithio mwynau, neu ddefnydd o'r tir ar gyfer gweithio dyddodion mwynau; neu, ddatblygiad gwastraff.

- Fe ailgylchwyd neu fe wrteithiwyd 64.1% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy.
- 0 enghraifft lle mae afonydd ar draws y Sir wedi profi llif haf isel.
- 0 hectar o dir amaethyddol ar Radd 3a neu well wedi'i golli i ddatblygiad mawr.
- Cynnydd o 1.8% yng ngwariant twristiaeth (£190.05 miliwn).

1.14 Mae monitro'r AoG yn darparu datganiad sefyllfa byrdymor ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. O dipyn i beth, caiff ei gymharu â'r ddau AMB blaenorol yn unig, daw tueddiadau datblygol yn fwy amlwg mewn AMBau yn y dyfodol.

**Casgliadau ac Argymhellion**

1.15 Mae AMB 2016-17 yn cynnal y tueddiadau a ddynodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf, hynny yw tra gwnaed cynnydd da wrth weithredu nifer o bolisïau'r Cynllun ac at ei gilydd, mae'r strategaeth yn ymddangos yn gadarn, mae nifer o dargedau darparu tai allweddol heb gael eu diwallu sy'n dangos nad yw'r polisïau hyn yn gweithio fel y'u bwriadwyd. Mae'r diffyg parhaus o gyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai yn dal yn fater o bryder sy'n rhaid mynd i'r afael ag ef os cyfarfyddir â gofynion tai'r Cynllun.

1.16 Mae'r sefyllfa'n dal, felly, y caiff adolygiad cynnar o'r CDLl ei ystyried yn angenrheidiol o ganlyniad i'r diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Am nad oes unrhyw bryderon gyda pholisïau eraill y Cynllun ar hyn o bryd mae'r AMB hefyd yn casglu nad yw'n angenrheidiol adolygu agweddau eraill o'r Cynllun ar hyn o bryd.

1.17 Yn unol â hynny, mae'r AMB yn argymell y canlynol:

1. Parhau ag adolygiad cynnar o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso adnabod/dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai. Bydd hyn yn golygu cynhyrchu Bwrdd Adolygu a fydd yn amlinellu ac yn egluro rhychwant y Cynllun adolygu sy'n ofynnol.

2. Cyflwyno'r trydydd AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017 yn unol â'r gofynion statudol. Cyhoeddi'r AMB ar wefan y Cyngor.

3. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoadau'r AMBau dilynol.

---

[3]SDCau yw'r datrysiadau draenio sy'n darparu dewis amgen na sianelu dŵr wyneb drwy rwydweithiau o bibellau a charthffosydd i gyrsiau dŵr gerllaw. Drwy efelychu systemau draenio naturiol nod SDCau yw lleihau'r llif dŵr wyneb, gwella ansawdd y dŵr a gwella gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SDCau yn cyflawni hyn drwy ostwng graddfa'r llif, cynyddu cynhwyster storio dŵr a lleihau cludiant llygredd i'r amgylchedd dŵr *(Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

1.18 Mae'r trydydd AMB hwn yn cynrychioli rhan gyntaf Adroddiad Adolygu'r CDLl. Yn amodol ar gwblhau'r trafodaethau rheolaidd ynghylch y cynllunio rhanbarthol strategol, mae'r swyddogion yn cynnig cyflwyno'r Adroddiad Adolygiad Drafft i'r Aelodau yn hwyrach yn y flwyddyn galendr hon.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) yn darparu'r sylfaen ar gyfer monitro effeithioldeb y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac yn y pen draw bydd yn penderfynu a oes angen unrhyw adolygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau mae strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael eu cyflawni wedi'u cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor asesu'r effaith mae'r CDLl yn ei gael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac mae'n dynodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

2.2 Mae monitro'n rhan barhaus o'r broses gwneud cynlluniau. Mae'n darparu'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a ffurfio'r cynllun, gweithredu'r cynllun, arfarnu ac adolygu'r cynllun.

### Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

2.3 Dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) gynhyrchu CDLl. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'r CDLl yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n ffurfio'r Sylfaen ar gyfer penderfynu datblygiadau yn y Sir yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

2.4 Dyma'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLl Sir Fynwy ac fe'i seilir ar y cyfnod 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017.

### Yr Angen am Fonitro

**Y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

2.5 Mae'n rhaid i'r Cyngor yn statudol, dan adran 61 o Ddeddf 2004, gadw dan adolygiad yr holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ychwanegol, dan adran 76 o'r Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor gynhyrchu gwybodaeth ar y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn wedi mabwysiadu'r Cynllun. Mae paratoi AMB, felly, yn rhan hanfodol o broses statudol y cynllun datblygu.

2.6 Er mwyn monitro perfformiad y CDLl yn gyson, dylid ystyried cynlluniau yn erbyn set safonol o ddangosyddion a thargedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau a chanllawiau ar gynnwys gofynnol yr AMBau.

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol ) (Cymru) (Diwygio) 2015**

2.7 Diwygiwyd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol ) (Cymru**)** I symleiddio agweddau penodol o weithdrefnau**'**r cynllun datblygu lleol**,** fodd bynnag, nid yw'r rhain yn effeithio proses monitro'r CDLl. Dan Reoliad 37 mae'n ofynnol i'r AMB:

- Ddynodi'r polisïau na chaiff eu gweithredu;
  Ac ar gyfer pob polisi:
- Dynodi'r rhesymau paham nad yw'r polisi'n cael ei weithredu;
- Dynodi'r camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd i alluogi'r polisi i gael ei weithredu;
- Ymchwilio a oes angen adolygu'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.

2.8 Yn ychwanegol, mae angen i'r AMB fonitro dangosyddion craidd dynodedig drwy bennu:

- Cyflenwad tir ar gyfer tai o Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, a;
- Y nifer (os oes rhai) o anheddau fforddiadwy ychwanegol ac anheddau'r farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl.

Mae'r rhain ar gyfer blwyddyn yr AMB ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu gyntaf, ac ar gyfer y cyfnod llawn ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu.

**Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015)**

2.9 Amlinellodd Llawlyfr y CDLl yn 2006 ddangosyddion ychwanegol ar gyfer y CDLl y dylai'r AMB adro0dd arnynt. Cafodd y rhain eu hymgorffori i mewn i fframwaith monitro'r CDLl lle'r oedd hynny'n berthnasol. Cafodd rhai o'r dangosyddion hyn eu haddasu i weddu'n well i amgylchiadau lleol a chafodd rhai'u hanwybyddu fel rhai amherthnasol. Mae llawlyfr diwygiedig y CDLl wedi dileu nifer o ddangosyddion ychwanegol y CDLl a gynhwyswyd yn y Llawlyfr cyntaf. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r dangosyddion wedi'u cynnwys yn fframwaith monitro'r CDLl mabwysiedig, bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r rhain i sicrhau cysondeb. Mae'r llawlyfr diwygiedig yn cynnwys nifer llai o ddangosyddion allbwn craidd ychwanegol mewn perthynas â'r ddarpariaeth dai, cyflogaeth a materion manwerthu. Fodd bynnag, gan nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y fframwaith monitro mabwysiedig nid ystyrir yn briodol eu cynnwys yn ôl-weithredol. Yn hytrach fe roddir ystyriaeth i unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith monitro fel rhan o broses adolygu'r CDLl.

**Fframwaith Monitro CDLl Sir Fynwy**

2.10 Darperir Fframwaith Monitro ym Mhennod Wyth o'r CDLl yn cynnwys cyfres o 50 o ddangosyddion, gyda thargedau a sbardunau cyfatebol ar gyfer gweithredu pellach, mewn perthynas â pholisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng themâu, amcanion, polisïau strategol a pholisïau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â Rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fonitro. Mae'r Fframwaith Monitro'n ffurfio sail yr AMB.

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd 2011)**

2.11 Yn ychwanegol mae'n rhaid i'r CDLl a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewrop. Mae'r Atodiad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (2014) yn dynodi carfan bellach o ddangosyddion (60) gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd ar faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Tra maent yn rhyng-gysylltiedig, caiff y rhain eu gosod ar wahân I Fframwaith Monitro Polisi'r CDLl a chawsant eu defnyddio yn yr AMB i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLl.

2.12 Mae cwblhau'r AMB yn unol â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd)

## Fformat a Chynnwys yr AMB

2.13 Lluniwyd yr AMB i fod yn ddogfen gryno ac yn hylaw y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfleus i gyfeirio at yr holl feysydd polisi strategol.

2.14 Mae strwythur yr AMB fal a ganlyn:

**Adran 1 Crynodeb Gweithredol** – Mae'n darparu crynodeb ysgrifenedig byr o'r canfyddiadau monitro allweddol.

**Adran 2 Cyflwyniad** - Mae'n amlinellu'r angen am yr AMB, ei bwrpas a'i strwythur

**Adran 3 Gwybodaeth Gyd-destunol** - Mae'n darparu trosolwg byr o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol sydd, er ei bod y tu allan i gylch gwaith y Cynllun, gallai effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLl. Darperir gwybodaeth gyd-destunol ar bolisïau penodol yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi.

**Adran 4 Proses Monitro'r CDLl** – Mae'n egluro'r broses a gymerwyd i fonitro. .

**Adran 5 Monitro'r CDLl** – **Dadansoddi Polisi** - Mae'n darparu dadansoddiad manwl o effeithioldeb fframwaith polisi'r CDLl wrth gyflenwi'r nodau/canlyniadau a'r targedau, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer gweithredu pellach.

**Adran 6 Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd** - Mae'n darparu asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn dangosyddion monitro'r AoG.

**Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion**– Mae'n rhoddi trosolwg o ganfyddiadau'r AMB mewn perthynas â'r dadansoddiad a wnaed yn yr adrannau blaenorol a, lle bo'n berthnasol, mae'n darparu argymhellion ar faterion sydd angen ystyriaeth bellach.

**Cyhoeddi –** Caiff yr AMB ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.15 Dylai strwythur bras yr AMB aros yr un o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gwneud y dadansoddi'n hwylus rhwng adroddiadau olynol. Fodd bynnag, o ystyried bod y broses fonitro'n ddibynnol ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy'n tarddu o'r Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newid i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n hen ffasiwn. Felly, gallai'r fframwaith monitro ddatblygu dros gyfnod y Cynllun a defnyddir AMBau fel modd o ddynodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

2.16 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLl bob pedair blynedd. Golyga hyn, o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun yn wreiddiol byddai'n ofynnol i adolygiad llawn gychwyn yn 2018 yn unol â phroses statudol y CDLl. Bydd adolygiad o'r CDLl o flaen yr adolygiad ffurfiol yn digwydd yn unig os bydd casgliadau'r AMB neu amgylchiadau eithriadol eraill (fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4)yn dangos yn wahanol.

## 3 Gwybodaeth Gyd-destunol

3.1 Mae'r adran hon yn darparu crynodeb byr o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posib i'r CDLl lle bynnag y bydd yn briodol. Amlinellir yn ogystal dueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl, ynghyd â chynnydd ar ganllawiau cynllunio atodol allweddol.

3.2 Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLl yn adran berthnasol y dadansoddi polisi y gellir cyfeirio ati'n hawdd ac felly ni chaiff ei hailadrodd yn fanwl yma.

### Newidiadau Deddfwriaethol

3.3 Ni chyflwynid Llywodraeth Cymru unrhyw newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol ynn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

### Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)**

3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn gwaith ar gynhyrchu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd y FfDC yn amlinellu'r fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru, gan ddarparu cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd. Bydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â datblygiad a defnydd tir o bwysigrwydd cenedlaethol y mae'r system gynllunio yn gallu dylanwadu arnynt a'u cyflenwi. Ymgymerodd Llywodraeth Cymru â Galw am Dystiolaeth a Phrosiectau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Caiff unrhyw gynnydd yn y dyfodol ar y FfDC ac unrhyw oblygiadau'n dilyn i'r CDLl eu cofnodi mewn AMBau yn y dyfodol. Disgwylir i'r FfDC gael ei fabwysiadu yn 2022.

### Diwygiadau i'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)**

3.5 Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn Nhachwedd 2016. Roedd y prif newidiadau a gynhwyswyd yn Argraffiad 9 mewn perthynas â'r materion canlynol:

- ***Cyflwyniad (Pennod 1):***
  Cafodd hwn ei ddiweddaru i adlewyrchu cyflwyno'r 'Fframwaith Cynllunio Perfformiad' ac ystyried cyflwyno disgwyliadau polisi apeliadau dilysu.
- ***Cynlluniau Datblygu Lleol (Pennod 2):***

Cafodd hwn ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, gan gynnwys darpariaethau o fewn Deddf Gynllunio (Cymru) 2015.

- ***Rheoli Datblygu (Pennod 3):***
  Symleiddiwyd y cynnwys gweithdrefnol o ganlyniad i gyhoeddi'r Llawlyfr Rheoli Datblygu sy'n cwmpasu'r prosesau hyn. Mae'r bennod ddiwygiedig hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at 'Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol' yn dilyn cyfnod dod i rym y Rheoliadau perthnasol mewn perthynas â'r Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015.
- ***Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (Pennod 4):***
  Cafodd hwn ei ddiweddaru i gynnwys diben statudol y system gynllunio fel y'i cyflwynwyd gan y Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015. Fe fu rhai diwygiadau hefyd er mwyn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn perthynas â Datganiadau Dylunio a Mynediad, yn gysylltiedig â'r Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015.
- ***Amgylchedd Hanesyddol (Pennod 6):***
  Diwygiwyd y bennod hon ar y cyd â Cadw yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.
- ***Datblygiad Manwerthu a Masnachol (Pennod 10):***
  Cafodd y bennod hon ei diweddaru i adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer manwerthu a datblygiad diwydiannol.

**Nodiadau Cyngor Technegol (NCT)**

3.6 Diweddarwyd NCT 4 Manwerthu a Datblygiad Masnachol yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Darperir goblygiadau posib y newidiadau i'r NCT hwn ar gyfer y CDLl yn yr adran berthnasol ar ddadansoddi polisi (Adran 5, Polisi S6).

## Cyd-destun Rhanbarthol

**Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS)**

3.7 Mae'r Ddeddf Gynllunio (Cymru) yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd hyn yn caniatáu materion mwy na materion lleol, megis y galw am dai, ardaloedd chwilio am safleoedd cyflogaeth strategol a seilwaith cefnogi trafnidiaeth, i gael eu hystyried ac i gynllunio ar eu cyfer mewn ffordd integredig. Bydd CDSiau yn mynd i'r afael â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol ac mae'n rhaid iddynt fod mewn cydymffurfiaeth gyffredinol â'r FfDC. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at dair ardal cynllunio strategol posib gan gynnwys De-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Sir Fynwy'n rhan o'r ardal cynllunio strategol, mewn aliniad â chynigion Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cynhaliwyd trafodaethau rhanbarthol ar y dewisiadau ar gyfer datblygu CDS yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Caiff unrhyw gynnydd yn y dyfodol ar y FfDC ac unrhyw oblygiadau'n dilyn i'r CDLl eu cofnodi mewn AMBau yn y dyfodol.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig**

3.8 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'i gwneud i fyny o ardal o Dde-ddwyrain Cymru, yn cynnwys y deg awdurdod lleol, gan gynnwys Sir Fynwy. Mae'r awdurdodau lleol hyn wedi dod at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan, megis diweithdra a chysylltiadau trafnidiaeth gwael, gyda'r bwriad o weithio gyda'i gilydd a gweithio ar y cyd ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae'r awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn datblygu'r Fargen Ddinesig i gyllido prosiectau sy'n amcanu at hybu ysbryd cystadleuol y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd Bargen Ddinesig PRC yn gymorth i hybu twf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i mewn i waith a rhoddi i fusnesau y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu llywodraethu cadarn ar draws yr ardal drwy Gabinet Ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cadarnhaodd Arweinwyr y deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru yn ffurfiol Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar Fawrth 1af 2017. Yn dilyn hyn bydd y Fargen Ddinesig yn cyrraedd cyfnod pontio a chaiff Cynllun Pontio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei greu. Bydd y cynllun hwn yn manylu ar y gweithgareddau allweddol i ymgymryd â hwy, gan gynnwys sefydlu Swyddfa i yrru ymlaen y broses o gyflenwi rhaglen waith y Cabinet Rhanbarthol yn y gobaith y derbynnir cynigion i fuddsoddi. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLl mewn AMBau yn y dyfodol lle bydd hyn yn briodol. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhoddi cyfle pwysig i Sir Fynwy ac i'r rhanbarth.

## Cyd-destun Lleol

**Asesiad a Chynllun Llesiant Sir Fynwy**

3.9 Dan ddarpariaeth y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n rhaid o bob bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn Mai 2018. Gan ddisodli'r Cynllun Integredig Sengl (CIS), bydd y Cynllun yn edrych arf lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pob sir a bydd ganddo gysylltiadau clir â'r CDLl. Cychwynnodd y gwaith ar baratoi Asesiad Llesiant Lleol drafft yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, gyda chyfranogiad eang gan y gymuned ar draws y Sir a chyflwynwyd yr asesiad drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Rhagwelir y bydd yr Asesiad Llesiant Lleol draft yn cael ei gyhoeddi yn ystod rhan gynnar y cyfnod monitro nesaf. Bydd canfyddiadau'r asesiad yn llywio blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant Lleol. Adroddir cynnydd pellach ar baratoi'r Cynllun Llesiant Lleol yn yr AMBau diweddarach i'r graddau y mae'n ymwneud â'r CDLl.

**Sir Fynwy'r Dyfodol**

3.10 Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cychwyn ar brosiect i ail-werthuso anghenion a dyheadau'n cymunedau ac fel y bydd 'Cyngor y Dyfodol' yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau hynny. Bydd y gwaith cyfranogiad cymunedol yn rhedeg ochr yn ochr ac yn rhan annatod o'r Cynllun Llesiant Lleol. Bydd canlyniadau'r cyfranogiad hwn a

thystiolaeth berthnasol arall a gasglwyd ar gyfer yr ymarferiad hwn yn bwysig i unrhyw adolygiad ac arolwg o'r CDLl yn y dyfodol.

**Diweddariad ar Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) Sir Fynwy**

3.11 Cwblhawyd ymgynghoriad ar Atodlen Codi Tâl Drafft ASC yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Cyhoeddwyd yn ogystal ganfyddiadau Adolygiad cenedlaethol ASC yn ystod y cyfnod monitro a argymhellodd newidiadau sylfaenol i'r broses ASC. O ganlyniad, gohiriwyd gweithredu'r ASC yn Sir Fynwy tra disgwylir canlyniad ymateb y Llywodraeth i Adolygiad ASC sydd i'w ddisgwyl yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i ddatblygiad y CIL ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLl mewn AMBau diweddarach lle bo'n briodol.

**Ysgolion yr 21ain ganrif Sir Fynwy**

3.12 Mae'n werth nodi bod dwy o Ysgolion yr 21ain ganrif yn y Sir yn datblygu'n dda, gan adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol allweddol plant yn cael y cychwyn gorau posib mewn bywyd a dim un plentyn yn cael ei adael ar ôl.

## Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

**Gweithgarwch Economaidd**

3.13 Dangosir yn y tablau isod y data gweithgarwch economaidd allweddol ar gyfer Sir Fynwy a Chymru o gronfa ddata 2011 y CDLl hyd at y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r data'n dangos bod dangosyddion diweithdra ac enillion wedi dangos gwelliant dros y cyfnod hwn i'r ddau faes, er bod Sir Fynwy'n perfformio'n well o lawer na Chymru'n gyffredinol. Mae'n werth nodi, mae Sir Fynwy wedi profi gwell perfformiad economaidd mewn perthynas â'r dangosyddion hyn yn ystod y cyfnod monitro cyfredol gyda diweithdra ar ei lefel uchaf ers 2011. Mewn cyferbyniad, syrthiodd cyfran preswylwyr Sir Fynwy a oedd yn economaidd weithgar mewn cyflogaeth dros y cyfnod monitro cyfredol i 76.5% lawr o 78.8% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf y gostyngiad ymylol hwn , mae cyfran y rheiny sy'n economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn y Sir yn dal yn uwch na'r lefelau a gofnodwyd rhwng Ebrill 2011 i Fawrth 2015, ac mae'n dal uwchben ffigur Cymru. Ni chyfrifir newidiadau o'r fath i fod mor arwyddocaol i gael unrhyw oblygiadau i'r CDLl. Caiff y dangosyddion economaidd hyn eu hystyried mewn AMBau diweddarach a chofnodir unrhyw oblygiadau posib.

**Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **73.8%** | **66.7%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **74.2%** | **67.6%** |
| Ebrill 2013- Mawrth 2014 | **73.0%** | **69.5%** |
| Ebrill 2014- Mawrth | **74.5%** | **69.3%** |

| | | |
|---|---|---|
| 2015 | | |
| Ebrill 2015- Mawrth 2016 | **78.8%** | **71.1%** |
| Ebrill 2016- Mawrth 2017 | **76.5%** | **71.4%** |

Source: Nomis (Annual Population Survey, July 1017)

**Economaidd Weithgar – Di-waith**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011- Mawrth 2012 | **5.1%** | **8.4%** |
| Ebrill 2012- Mawrth 2013 | **5.6%** | **8.3%** |
| Ebrill 2013- Mawrth 2014 | **5.1%** | **7.4%** |
| Ebrill 2014- Mawrth 2015 | **4.9%** | **6.8%** |
| Ebrill 2015- Mawrth 2016 | **3.3%** | **5.4%** |
| Ebrill 2016- Mawrth 2017 | **2.9%** | **4.4%** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Gorffennaf 2017)

**Cyflog Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Preswyliaeth)**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| 2011 | **£560.3** | **£455.1** |
| 2012 | **£530.7** | **£454.9** |
| 2013 | **£579.5** | **£475.3** |
| 2014 | **£577.6** | **£479.4** |
| 2015 | **£610.1** | **£484.4** |
| 2016 | **£623.4** | **£498.3** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Gorffennaf 2017)


3.14 Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu bod yr incwm i fenywod economaidd weithgar sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Sir sylweddol is na'r incwm i'r dynion o fewn yr un category. Mae'n annhebygol bod hyn yn rhywbeth y gall y system gynllunio defnydd tir ddylanwadu'n uniongyrchol arno, fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth bellach i hyn fel rhan o brosiect Sir Fynwy'r Dyfodol ac, os yw'n berthnasol, drwy gyfrwng adolygiadau/arolygon y Cynllun yn y dyfodol.

**Prisiau Tai**

3.15 Fel y dangosir yn y graff isod, mae data'r Gofrestrfa Dir yn dangos bod prisiau cyfartalog tai yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol. O ganlyniad, roedd y prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2017 (Ionawr i Fawrth) yn £231,857 sef yn uwch na llinell sylfaen prisiau chwarter 4 2012 (£188,720). Os yw data tueddiadau prisiau cyfartalog tai a gofnodwyd yn fwy na'r sbardun dynodedig am ymchwiliad pellach a osodir mewn perthynas â Pholisi S4, bydd y Cyngor yn

ystyried ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd a lywiodd dargedau polisi tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn yr adran ar ddadansoddi polisi mewn perthynas â Pholisi S4.

3.16 Gallai nifer o gynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys dileu tollau Pont Hafren ar ddiwedd 2018 a chynlluniau ar gyfer Metro De-ddwyrain Cymru, gael effeithiau posib ar brisiau tai yn Sir Fynwy. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw effeithiau o'r fath mewn AMBau diweddarach.



t
ry UK House Price Index (June 2017)

## Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

3.17 Mabwysiadwyd CCA Prif Ffryntiadau Siopa (PFfS) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol.

3.18 Paratowyd CCA drafft ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro hwn, sef Llety Twristiaeth Gynaliadwy ac Addasiadau Gwledig at Ddefnydd Preswyl neu Dwristiaeth (Polisïau H4 a T2). Rhagwelir yr ymgynghorir ar y rhain a'u datblygu drwyddo i'w mabwysiadu yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Mae gwaith ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd yn mynd yn ei flaen. Adroddir cynnydd ar y rhain yn yr AMBau nesaf.

## Crynodeb

3.19 Fel y manylir uchod, mae cynlluniau, polisïau a strategaethau diwygiedig/newydd, yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol wedi ymddangos yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, y gallai rhai ohonynt gael goblygiadau ar gyfer gweithredu'r CDLl yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw unrhyw un o'r newidiadau cyd-destunol a ddynodwyd hyd yn hyn yn awgrymu'r angen am adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd AMBau diweddarach yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio gweithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

# 4 Proses Monitro'r CDLl

## Sut caiff y CDLl ei fonitro?

4.1 Mae Adran 5 yn darparu dadansoddiad manwl o effeithioldeb fframwaith polisi'r CDLl i gyflenwi nodau/canlyniadau a thargedau'r polisi dynodedig, ynghyd ag argymhellion priodol dros weithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destunol arwyddocaol sy'n ymwneud yn benodol â pholisi sydd wedi codi dros y cyfnod monitro a allent effeithio ar weithredu polisi. Wedi'i alinio â fframwaith monitro'r CDLl, rhoddir y dadansoddiad mewn grŵp yn unol â pholisïau strategol y Cynllun ac mae wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Nodau'r Monitro/Canlyniadau** | Mae nod /canlyniad y monitro'n dynodi beth mae pob polisi strategol yn ceisio'i gyflawni. Amlinellir yn ogystal amcanion cefnogol, rheoli datblygu a pholisïau neilltuo safleoedd i ddangos y rhyng-gysylltiadau rhwng y polisïau. |
| **Gwybodaeth Gyd-destunol** | Amlinellir gwybodaeth gyd-destunol arwyddocaol a gyhoeddwyd dros y cyfnod monitro lle bo'n berthnasol i bolisi strategol penodol. Bydd hyn yn galluogi'r AMB i benderfynu a effeithiwyd ar berfformiad polisi gan newidiadau cyd-destunol. Gall y rhain gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, polisïau neu strategaethau ynghyd â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd a allai effeithio ar gyflenwi'r CDLl megis amodau amgylcheddol. Mae unrhyw newidiadau o'r fath yn gorwedd y tu allan i gylch gwaith y CDLl. |
| **Dangosyddion, targedau a sbardunau** | Amlinellir perfformiad y polisi a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro mewn perthynas â'r dangosyddion a'r targedau/sbardunau perthnasol ar gyfer ymchwiliad pellach ar gyfer pob un o'r polisïau strategol.<br><br>Cafodd y targedau a'r sbardunau ar gyfer dangosyddion penodol eu his-rannu i alluogi'r dangosyddion hyn i gael eu monitro'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion mewn perthynas â'r polisïau strategol canlynol:<br>• S1 Strategaeth Ofodol<br>• S3 Strategaeth Safleoedd Tai<br>• S4 Tai Fforddiadwy<br>• S6 Manwerthu<br>• S8/S9 Darpariaeth Safleoedd Menter ac Economi/ Cyflogaeth<br>Mae cyfanswm y targedau a'r sbardunau yn y fframwaith monitro wedi cynyddu ers hynny. |

| | |
|---|---|
| | Lle bo'n berthnasol, darperir dangosyddion data a gofnodwyd mewn AMBau blaenorol yn y tablau. Mae data o'r fath mewn cod lliwiau (h.y. coch, oren, gwyrdd) i alluogi tueddiadau i gael eu hadnabod yn hawdd. |
| **Dadansoddiad** | O ystyried y dangosyddion, targedau perthnasol, sbardunau a chanlyniadau'r monitro, mae'r AMB yn asesu a yw polisïau strategol y Cynllun yn cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd ac a yw amcanion a strategaeth y CDLl yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys dynodi ac ymchwilio unrhyw bolisi sy'n methu â chwrdd â'i dargedau/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbardun. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod polisi'n cyrraedd ei lefel sbardun yn golygu'n awtomatig bod y polisi'n methu. Bydd y dadansoddiad yn ystyried a allai perfformiad o'r fath fod o ganlyniad i amgylchiadau allanol neu a ellid eu cyfiawnhau yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol.<br><br>Mae'r dadansoddiad yn eithrio'r dangosyddion targedau hynny heb geisiadau cynllunio cymwysadwy neu geisiadau a gwblhawyd i'w hasesu ynn ystod y cyfnod monitro. Gwnaeth y rhain gyfanswm o 6 yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. |
| **Argymhellion** | O ystyried y dadansoddiad polisi, darperir yr argymhellion priodol gan gynnwys datganiad o unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Os gwelir bod polisïau'n methu bydd yr AMB yn amlinellu argymhellion clir o'r camau, os oes rhai, sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Bydd ystyried y CDLl yn erbyn y wybodaeth a gasglwyd dros y cyfnod monitro yn caniatáu i'r Cyngor adolygu'r Cynllun os oes angen. |

**Perfformiad Polisi yn ôl Graddfeydd Goleuadau Traffig**

4.2 Fel cymorth gweledol mewn monitro effeithioldeb polisïau strategol y Cynllun a darparu trosolwg cyfeiriadau cyflym o berfformiad polisi, cynhwysir graddfa 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| (green) | Targedau polisi/ canlyniadau monitro* yn cael eu cyflawni |
| (amber) | Nid yw targedau polisi/ canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes pryderon dros weithredu'r polisi |
| (red) | Nid yw targedau polisi/ canlyniadau monitro * yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac o ganlyniad mae pryderon dros weithredu'r polisi |
| (white) | Ni ellir dod i gasgliad o ganlyniad i ddata cyfyngedig |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun asesir y canlyniadau monitro a'u graddio'n unol â hynny

**Dangosyddion Disodli**

4.3 Mewn achosion lle na allai'r Cyngor fonitro dangosydd neu lle cafodd dangosydd ei ddisodli gan ddangosydd arall, darperir eglurhad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a lle bo'n briodol, dynodir dangosydd amgen. Gallai fod achosion yn ogystal lle mae angen diwygio dangosydd, er enghraifft, i wella eglurder y dangosydd neu'i ail-alinio gyda charfanau data perthnasol. Mewn achosion o'r fath, darperir eglurhad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a diwygir y dangosydd fel y bo'n briodol.

**Sbardunau ar gyfer Adolygu'r Cynllun**

4.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLl bob pedair blynedd. Cydnabyddir, fodd bynnag, y gallai'r amgylchiadau eithriadol canlynol orfodi adolygiad cynnar o'r Cynllun:

- Newid arwyddocaol mewn amgylchiadau allanol
- Newid arwyddocaol mewn polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol
- Newid arwyddocaol mewn amgylchiadau lleol e.e. cau safle cyflogaeth arwyddocaol sy'n gwanhau'r economi leol
- Newid arwyddocaol yn y pwysau i ddatblygu neu anghenion a strategaethau buddsoddi'r prif fuddsoddwyr cyhoeddus a phreifat
- Pryderon arwyddocaol o ganlyniadau'r AMB parthed effeithioldeb /gweithredu polisi a chyflenwi safleoedd, gan gynnwys gostyngiad yng nghyflenwad tir ar gyfer tai yn is na 5 mlynedd.

Rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion hyn wrth benderfynu a oes angen adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun.

**Fframwaith Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd**

4.5 Mae Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae'r AoG yn dynodi 17 o amcanion a 61 o ddangosyddion i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLl. Amlinellir hyn yn Adran 6 o'r AMB.

## 5 Strategaeth Ofodol

**Nod y Monitro/Canlyniad:** Datblygiad tai newydd i gael eu dosbarthu yn unol â Strategaeth Ofodol y CDLl

**Polisi Strategol:** S1/S2 Dosbarthiad Gofodol Darpariaeth Tai Newydd

**Amcanion y CDLl a Gefnogir:** 1, 3 & 4

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro

Mae'n werth nodi, bod gwybodaeth ychwanegol ar argaeledd cyfredol tir ar gyfer tai yn Sir Fynwy, gan gynnwys anheddau/caniatadau a'u lleoliad, ar gael yng Nghydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017 (CAATT) y gellir eu cyrchu. Fel gwybodaeth ychwanegol, mae argaeledd cyfredol tir ar gyfer tai Sir Fynwy, gan gynnwys anheddau/caniatadau a'u lleoliad, ar gael yng Nghydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2017, y gellir ei gyrchu drwy gyfrwng y cyswllt canlynol:
http://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2017/08/JHLA-Study-2017.pdf

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016–31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Cyfran y datblygiadau tai newydd a ddarparwyd yn unol â Pholisi S1 y strategaeth ofodol / hierarchaeth aneddiadau a amlinellir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb i'r gofynion a amlinellir yn y Tablau i Bolisi S2: | Mae tai a gwblhawyd yn +/- 10% o'r gofynion a amlinellir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw flwyddyn | **Anheddau a Gwblhawyd** |
| | **a) Y Prif Drefi 41%**<br>*(2014-15: 27%)*<br>*(2015-16: 40.2%)* | | **38.2%** |
| | **b) Aneddiadau Glan Hafren 33%**<br>*(2014-15: 43%)*<br>*(2015-16: 8.1%)* | | **19.3%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 6%)*<br>*(2015-16: 37.2%)* | | **21.4%** |
| | **d) Gwledig Cyffredinol 16%**<br><br>*(2014-15: 24%)*<br>*(2015-16: 14.5%)* | | **21%** |

**Dadansoddiad – Anheddau a Gwblhawyd**

**a) Prif Drefi**

O'r 238 o anheddau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro, roedd 38.2% (91 uned) ym mhrif drefi'r Sir sydd ychydig yn is na'r targed dynodedig o 41%. Roedd y mwyafrif helaeth o'r anheddau hyn a gwblhawyd (85%, 77 uned) yn Nhrefynwy, gyda 38 o anheddau wedi'u cwblhau ar ddau hap-safle mawr ** yn y safle a neilltuwyd yn y CDLl yn Heol Wonastow (SAH4) a18 annedd wedi'u cwblhau ar hap-safleoedd bychain***. Dros y cyfnod monitro roedd cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd yn Y Fenni yn 6 ac yng Nghas-gwent yn 8, pob un ohonynt ar safleoedd bychain. Roedd yr anheddau a gwblhawyd yn bennaf yn anheddau marchnad gyffredinol, gyda 4 annedd fforddiadwy yn cael eu cwblhau yn Nhrefynwy (Clinig Heol Dixton).

Fel y gellid disgwyl, o ystyried i'r safle a neilltuwyd yn y CDLl yn Heol Wonastow, Trefynwy gael caniatâd materion a gedwir yn ôl yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, mae datblygiad ar y safle yn mynd rhagddo gyda llawer o anheddau wedi cofnodi iddynt gael eu cwblhau (21), yn cyfrif am 23% o gyfanswm yr anheddau a gwblhawyd mewn prif drefi. I'r gwrthwyneb, nid yw'r safleoedd a neilltuir yn y CDLl yn Y Fenni a Chas-gwent hyd yn hyn wedi derbyn caniatâd ac am hynny ni chwblhawyd unrhyw anheddau ar y safleoedd hyn dros y cyfnod monitro cyfredol. Fodd bynnag, rhagwelir fel y bydd y safleoedd hyn yn derbyn caniatâd ac yn cael eu datblygu bydd yr anheddau a gwblheir yn Y Fenni a Chas-gwent yn alinio'n fwy clos gyda'r strategaeth ofodol. Amlinellir manylion pellach ar y cynnydd yn y safleoedd hyn yn y dadansoddiad ar safleoedd tai strategol (Polisi S3). Roedd cyfran sylweddol o'r anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn y prif drefi (42%) o ganlyniad i hap-safleoedd mawr. Yn wir, mae'r gyfran gymharol uchel o anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi'n adlewyrchu'r ffaith bod hap-safleoedd wedi cyfrif am bron hanner (49%) yr holl anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn Sir Fynwy dros y cyfnod monitro.

Mae'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro yn debyg i'r rheiny a gofnodwyd y flwyddyn ddiwethaf (40.2%) ac yn cymharu'n fwy ffafriol gyda'r rheiny a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro cyntaf (27%). Eto, mae hyn i gyfrif yn bennaf i nifer uchel o hap-safleoedd y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn hytrach na chynnydd/datblygiad dyraniadau safleoedd strategol, er bod y datblygiad yn Heol Wonastow wedi cychwyn.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem arwyddocaol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi. Tra cydnabyddir y cyfrifai hap-safleoedd am gyfran sylweddol o anheddau a gwblhawyd,

mae'r rhain yn unol â'r strategaeth ofodol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

**b) Aneddiadau Glan Hafren**

Roedd 19.3% (46 uned) o'r anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro mewn aneddiadau yng Nglan Hafren sy'n is na'r targed dynodedig o 33% ar gyfer yr ardal hon. Mae hyn yn dangos bod y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei wireddu. Roedd dros hanner (59%, 27 uned) o'r anheddau a gwblhawyd ar safleoedd hap-safle (y ddau safle'n safleoedd cyn-ysgolion) - un yng Nghil-y-coed (8 uned) ac un yn Rogiet (19 uned)-pob un ohonynt yn anheddau fforddiadwy. Roedd gweddill y tai a gwblhawyd (19 uned) ar safleoedd bychain - 9 wedi'u cwblhau yng Nghil-y-coed, 3 wedi'u cwblhau yn Rogiet, 3 wedi'u cwblhau yn Sudbrook ac 1 wedi'i gwblhau yng Ngwndy. O'r safleoedd bychain hyn a gwblhawyd, roedd 14 yn anheddau marchnad gyffredinol ac roedd 5 yn anheddau fforddiadwy.

Gellid disgwyl graddfa is na'r hyn a ragwelwyd gan fod safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl yn ardal Glan Hafren, sydd yn unol â'r strategaeth ofodol, heb ddatblygu i'r cam cwblhau. Rhagwelir, fel y bydd y safleoedd hyn yn derbyn caniatâd, ac yn cael eu datblygu, bydd cyfran y tai a gwblhawyd yn Aneddiadau Glan Hafren yn alinio'n fwy clos â'r ffigur targed o 33%. Cafodd y safle a neilltuwyd ym Melin Bapur Sudbrook (SAH7) ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ac fe ddisgwylir i'r datblygiad wneud cynnydd yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Fodd bynnag, mae cyflenwi'r safleoedd hyn yn fwy araf na'r disgwyl fel y manylwyd yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).

Mae'r raddfa gwblhau a gofnodwyd yng Nglan Hafren yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn uwch o lawer na'r raddfa a gofnodwyd ar gyfer yr AMB blaenorol, sef 8.1%. Yn ôl tystiolaeth, mae hyn o ganlyniad i gofnodi cwblhau nifer o hap-safleoedd yn ardal Glan Hafren, yn hytrach na datblygiad ar safleoedd a neilltuwyd yn yr ardal. Mae, fodd bynnag, yn is na'r raddfa a gofnodwyd yn yr AMB cyntaf (43%)a oedd o ganlyniad i dai'n cael eu cwblhau ar safleoedd gweddilliol y Cynllun Datblygu Unedol sydd bellach wedi'u hadeiladu.

Ystyrir y dangosydd hwn fel arwydd o broblem dros dro gyda chyflawni strategaeth ofodol y Cynllun gofodol, yn hytrach na phroblem gydag addasrwydd neu effeithioldeb y strategaeth ei hun. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r broblem hon yn ofalus er mwyn penderfynu effeithioldeb strategaeth ofodol y Cynllun dros y cyfnod monitro.

**c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**

Roedd 21.4% (51 uned) o'r holl anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau gwledig eilaidd y Sir. Gan fod hyn +10% yn uwch na'r targed a ddynodwyd, cyrhaeddwyd y ffigur ar gyfer ymchwiliad pellach.

Cyfrifai dau hap-safle mawr yn Llan-ffwyst am yr holl dai y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau - Westgate, 28 annedd a Gavenny Gate (Cyn-Safle Coopers Filter), 23 annedd, pob un ohonynt yn dai marchnad gyffredinol. Ni chofnodwyd i anheddau gael eu cwblhau yn yr aneddiadau gwledig eilaidd eraill, sef Penperlleni, Rhaglan a Brynbuga, dros y cyfnod monitro cyfredol.

Mae'r anheddau a gwblhawyd ar hap-safleoedd wedi arwain at ragori ar y ffigur targed yn

yr aneddiadau gwledig eilaidd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchiad o unrhyw broblem gyda gweithredu neu ddyraniadau strategaeth y CDLl gan i'r safleoedd hyn gael eu cymeradwyo dan fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r gyfran uchel o hap-safleoedd a gwblhawyd yn yr aneddiadau gwledig eilaidd hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y cyfrifai hap-safleoedd am dros hanner (49%) o'r holl anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau dros y cyfnod monitro.

Ymhellach, ni wnaed digon o gynnydd yn y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl yn yr aneddiadau gwledig eilaidd i sicrhau cwblhau safleoedd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Rhagwelir, fel y caiff yr hap-safleoedd a grybwyllwyd yn flaenorol eu hadeiladu a safleoedd a neilltuwyd yn cael eu datblygu yn Rhaglan, Brynbuga a Phenperlleni (cafodd yr olaf ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro blaenorol) bydd cyfran yr anheddau a gwblhawyd yn yr aneddiadau hyn yn alinio'n fwy clos gyda'r ffigur targed.

Roedd y raddfa gwblhau mewn aneddiadau gwledig eilaidd, tra roedd yn is na'r raddfa a gofnodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf (37.2%), yn sylweddol uwch na'r raddfa a gofnodwyd yn yr AMB cyntaf (6%). Yn ôl tystiolaeth, mae'r raddfa gwblhau uwch na'r raddfa darged i'w chyfrif i dai'n cael eu cwblhau ar hap-safleoedd mawr a gymeradwywyd dan y CDU yn gwneud cynnydd da dros y ddau gyfnod monitro diwethaf.

O ystyried yr uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas ag anheddau'n cael eu cwblhau yn yr aneddiadau gwledig eilaidd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro hyn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y CDLl.

**ch) Gwledig Cyffredinol**

Roedd 21.4% (51 uned) o'r holl anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd gwledig cyffredinol y Sir sydd ychydig yn uwch na'r targed (16%). Felly, ni chyrhaeddwyd y sbardun am ymchwiliad pellach.

Fel y gellid disgwyl mewn aneddiadau gwledig cyfrifai safleoedd bychain am y mwyafrif helaeth o'r safleoedd a gwblhawyd (5 annedd), roedd bron tri chwarter ohonynt ar gyfer addasiadau/newid defnydd. O'r rhain, roedd 33 yn anheddau marchnad gyffredinol a 2 yn anheddau fforddiadwy. Cyfrifai'r safle a neilltuwyd yn y prif bentref yn Nhrellech (SAH11xv) am y 15 annedd arall y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau mewn ardaloedd gwledig cyffredinol dros y cyfnod monitro, gyda 6 annedd marchnad gyffredinola 9 annedd fforddiadwy. Fel y datblygir y safleoedd prif bentref eraill a neilltuwyd yn y Cynllun (SAH11), ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer addasiadau bychain a datblygiadau mewnlenwi, rhagwelir y bydd cyfran yr anheddau a gwblhawyd yn yr aneddiadau hyn yn alinio gyda'r ffigur targed o 16% dros y cyfnod monitro.

Mae'r raddfa gwblhau yn ardaloedd gwledig y Sir yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf (14.5%) ac ychydig yn is na'r hyn a gofnodwyd yn yr AMB cyntaf (24%). Yn gyffredinol, fodd bynnag, bu'r raddfa gwblhau mewn ardaloedd gwledig cyffredinol o fewn + / - 10% o'r targed dynodedig ac ni chyfarfuwyd â'r sbardun am ymchwiliad pellach yn ystod unrhyw gyfnod monitro. O ystyried hyn, nid ystyrir bod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas ag anheddau'n cael eu cwblhau yn yr ardaloedd gwledig cyffredinol, fel yr amlinellir ym Mholisi S1 ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn

| |
|---|
| parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| a) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| b) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| c) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| ch) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff anheddau a gwblhawyd a chaniatadau eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithredu'r strategaeth ofodol

**Hap-safleoedd mawr >10 annedd

***Hap-safleoedd bychain >10 annedd

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Cyfran y datblygiadau tai newydd a ddarparwyd yn unol â Pholisi S1 y strategaeth ofodol / hierarchaeth aneddiadau a amlinellir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb i'r gofynion a amlinellir yn y Tablau i Bolisi S2: | Mae tai a gwblhawyd yn +/- 10% o'r gofynion a amlinellir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw flwyddyn | **Anheddau a Ganiatawyd** |
| | **e) Y Prif Drefi 41%**<br><br>*(2014-15: 81%)*<br>*(2015-16: 31%)* | | **30.2%** |
| | **f) Aneddiadau Glan Hafren 33%**<br><br>*(2014-15: 11%)*<br>*(2015-16: 10%)* | | **54.1%** |
| | **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 1%)*<br>*(2015-16: 37%)* | | **5.2%** |
| | **h) Gwledig Cyffredinol 16%**<br><br>*(2014-15: 7%)*<br>*(2015-16: 22%)* | | **10.5%** |

**Dadansoddiad– Caniatadau ar gyfer Anheddau**

Mae caniatadau ar gyfer anheddau yn Sir Fynwy ar y cyfan yn sylweddol uwch na'r rheiny a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (i fyny o 212 i 484). Mae hyn i gyfrif yn bennaf i'r caniatadau a roddwyd ar gyfer y safleoedd a neilltuwyd a gyfrifai gyda'i gilydd dros hanner (54.3%) yr holl ganiatadau a gofnodwyd yn y Sir dros y cyfnod monitro cyfredol. Cyfrifai hap-safleoedd mawr yn Y Fenni a Sudbrook hefyd am nifer sylweddol o ganiatadau, yn gwneud cyfanswm o 116 o anheddau (24% o'r holl ganiatadau).

**d) Y Prif Drefi**

O'r 484 o unedau preswyl a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro, roedd 30.2% (146 o unedau) ym mhrif drefi'r Sir. Gan fod 10.8% yn llai na tharged dynodedig y CDLl (41%), cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.

Cyfrifai tri safle am fwyafrif yr anheddau a ganiatawyd dros y cyfnod monitro, pob un ohonynt yn Y Fenni (121 o unedau). Roedd y rhain yn cynnwys dau hap-safle mawr yn Y

Fenni, yn cyfrif 70 o anheddau(The Hill, 45 o anheddau a Thŷ Mulberry 25 o unedau) a dyraniad y CDLl yng Nghoed Glas Y Fenni (SAH9) yn cyfrif am 51 o unedau pellach. Er i unedau bychain gyfrif am 18 caniatâd cynllunio yn y prif drefi, roeddent yn cyfrif am ddim ond 25 o'r unedau a ganiatawyd – 10 yn Y Fenni, 9 yn Nhrefynwy a 6 yng Nghas-gwent. Noder, roedd 98 (67%) o'r anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro yn anheddau ar gyfer y farchnad gyffredinol ac roedd 48 (33%) ar gyfer tai fforddiadwy, gyda'r holl unedau fforddiadwy a ganiatawyd yn Y Fenni (46 yn gysylltiedig â'r hap-safleoedd mawr a dyraniad y CDLl).

Yn amlwg, cyfrifai Y Fenni am fwyafrif y caniatadau a gofnodwyd i anheddau (90%), gydag ychydig o ganiatadau'n cael eu cofnodi ym mhrif drefi eraill y Sir, Cas-gwent (4%) Threfynwy (6%). Fel y dengys tystiolaeth, mae hyn i gyfrif i'r caniatadau a roddwyd i hap-safleoedd a safle a neilltuwyd yn y CDLl yn y dref.

Parthed dyraniadau'r CDLl, cafodd dyraniad Coed Glas (SAH9) ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro a ychwanegodd yn sylweddol at y caniatadau i anheddau a gofnodwyd yn Y Fenni. Fodd bynnag, ni chafodd dyraniadau eraill y CDLl yn y prif drefi (Fferm Deri Y Fenni, Fairfield Mabey Cas-gwent, Heol Tudor Trefynwy) ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, eto gwneir cynnydd wrth ddatblygu'r safleoedd a neilltuwyd yn Y Fenni a Chas-gwent. Fodd bynnag, fel mae'r safleoedd hyn yn datblygu ac yn cael caniatâd cynllunio rhagwelir y bydd cyfran y caniatadau yn y prif drefi yn cynyddu yn unol â'r targed dynodedig ac felly'n sicrhau gwell aliniad gyda strategaeth ofodol y CDLl. Darperir diweddariad ar ddatblygiad safleoedd a neilltuwyd yn y prif drefi yn y dadansoddiad polisi o safleoedd strategol (Polisi S3).

Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro cyfredol i'w gymharu â'r nifer a gofnodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf a safai ar 31%. Fodd bynnag, mae'r ddau AMB diwethaf yn cyferbynnu â'r AMB cyntaf pan safai cyfanswm canran caniatadau o'r fath ar 81%. Er bod y ffigur hwn yn sylweddol uwch na tharged y CDLl, fe'i priodolid i'r caniatâd amlinellol a roddwyd yn Heol Wonastow Trefynwy a gyfrifai am88% o ganiatadau'r prif drefi.

Yng ngoleuni'r uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau i anheddau a roddwyd yn y prif drefi ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

**dd) Aneddiadau Glan Hafren**

Roedd dros hanner (54.1%, 262 o unedau) y 484 o anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau Glan Hafren. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r targed dynodedig ar gyfer yr ardal hon (33%), sy'n golygu i'r sbardun am ymchwiliad pellach gael ei gyrraedd.

Mae'r gyfradd uchel o ganiatadau a gofnodwyd yn aneddiadau Glan Hafren yn ganlyniad caniatâd llawn i 212 o unedau yn y safle a neilltuwyd yn y CDLl ym Melin Bapur Sudbrook (SAH7) a gyfrifai am fwyafrif y caniatadau (80.9%) yng Nglan Hafren. Dyma'r ail o safleoedd dynodedig y CDLl i gael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun. Cyfrifai hap-safle mawr yn yr Hen Iard Longau, Sudbrook am 46 o'r anheddau ychwanegol a ganiatawyd. Cyfrifai safleoedd bychain am y caniatadau oedd yn weddill yng Nglan Hafren – 2 annedd

yng Nghil-y-coed, 1 annedd ym Mhortskewett ac 1 annedd yng Ngwndy. Q'r anheddau a ganiatawyd yn aneddiadau Glan Hafren, roedd 237 ar gyfer y farchnad dai gyffredinol a 25 ar gyfer anheddau fforddiadwy, gydag 20 o'r unedau fforddiadwy'n gysylltiedig â'r dyraniad strategol ym Melin Bapur Sudbrook.

Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn aneddiadau Glan Hafren yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn sylweddol uwch na'r nifer a gofnodwyd yn AMBau 2014/15 a 2015/16a safai ar 11% a 10%yn y drefn honno. Dynodwyd hyn yn AMB 2015/16 fel mater o bryder gyda gweithredu'r polisi. Yn y cyfnod monitro cyfredol, fodd bynnag, cyfrifai ardal Glan Hafren am y gyfradd uchaf o ganiatadau a gofnodwyd yn y Sir. Fel y dengys tystiolaeth, mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r safle strategol dynodedig ym Melin Bapur Sudbrook yn derbyn caniatâd dros y cyfnod monitro cyfredol - y cyntaf o'r pedwar safle strategol i gael caniatâd yng Nglan Hafren.

Mae 3 dyraniad tai strategol pellach yng Nglan Hafren ac fel y datblygir y rhain a safleoedd dynodedig yn aneddiadau eraill y Sir, disgwylir y bydd cyfradd y caniatadau yn yr aneddiadau hyn yn alinio'n fwy clos gyda'r ffigurau targed. Dylai hyn, ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer hap-safleoedd bychain, sicrhau aliniad gwell gyda'r strategaeth ofodol fel yr amlinellir ym Mholisi S1. Darperir diweddariad ar ddatblygiad safleoedd a neilltuwyd yng Nglan Hafren yn y dadansoddiad polisi o Safleoedd Strategol.

Ystyrir y bydd y ffaith mai ond un o safleoedd dynodedig yr ardal a dderbyniodd ganiatâd yn arwydd o broblem dros dro, yn hytrach na phroblem gydag addasrwydd ac effeithioldeb y strategaeth ei hun. Fel y dengys yn y dadansoddiad o Bolisi S3, nid oes tystiolaeth i awgrymu na ellir cyflenwi'r dyraniadau yng Nglan Hafren, neu fod angen adolygu'u hanghenion dyrannu. Caiff yr oedi wrth eu dwyn ymlaen, fodd bynnag, oblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau monitro eraill ac ystyrir yr angen a, weithredu pellach mewn perthynas â'r dangosyddion penodol hynny.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

**e) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**

Roedd 25 (5.2%) o'r anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau gwledig eilaidd y Sir. Er bid hyn yn llai na'r targed a ddynodwyd yn y CDLl, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ac mae hyn yn caniatáu clustog +/- 10%.

Cyfrifai safleoedd bychain am fwyafrif yr unedau a ganiatawyd - 12 yn Llan-ffwyst, 2 ym Mrynbuga ac 2 yn Rhaglan, pob un ohonynt ar gyfer anheddau'r farchnad gyffredinol. Cyfrifai hap-safle yn Rhaglan am y 10 annedd arall a ganiatawyd a fydd yn darparu 100% o unedau tai fforddiadwy.

Mae'r gyfran ganiatadau is nag a ragwelwyd a gofnodwyd yn yr aneddiadau gwledig eilaidd yn bennaf o ganlyniad i ddatblygiad cyfyngedig gyda dau o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl yn yr aneddiadau hyn. Tra cafodd y safle ym Mhenperlleni ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, ni chafodd y safleoedd a neilltuwyd yn Rhaglan a Brynbuga ganiatâd hyd yn hyn. Rhagwelir, fel bydd y safleoedd hyn yn datblygu a chyfleoedd ar gyfer datblygiadau mewnlenwi / hap-safleoedd yn parhau i ddatblygu, bydd cyfran y caniatadau

| |
|---|
| yn yr aneddiadau hyn yn alinio'n fwy clos gyda'r ffigur targed o 10%.<br><br>Tra mae nifer yr anheddau a ganiatawyd mewn aneddiadau gwledig eilaidd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cymharu'n fwy ffafriol â'r nifer a gofnodwyd yn ystod yr AMB cyntaf (1%). Ystyrir bod yr amrywiad hwn i'w briodoli i'r safle a neilltuwyd ym Mhenperlleni yn cael caniatâd yn ystod cyfnod yr AMB diwethaf, ynghyd â diffyg cynnydd ar safleoedd a neilltuwyd (sydd yn unol â'r strategaeth ofodol) mewn mannau eraill yn y Sir.<br>Yng ngoleuni'r uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau i anheddau a roddwyd yn yr aneddiadau gwledig eilaidd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun. |
| **f) Gwledig Cyffredinol**<br>Roedd 51 (10.5%) o'r anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd gwledig y Sir. Tra mae hyn yn is na tharged dynodedig y CDLl (16%), ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach gan fod hyn o fewn clustog +/- 10%.<br><br>Heb fod yn annisgwyl, cyfrifai safleoedd bychain am fwyafrif y caniatadau a gofnodwyd (51%, 26 o unedau) medwn ystod o aneddiadau gwledig ar hyd a lled Sir Fynwy, Roedd nifer o'r rhain mewn perthynas ag addasiadau i ysguboriau ac roedd pob uned heblaw un ar gyfer y farchnad dai gyffredinol. Bu cynnydd pellach hefyd gyda dyraniadau gwledig y CDLl mewn prif bentrefi yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, gyda chaniatâd wedi'i roddi ar gyfer 10 annedd (6 fforddiadwy, 4 marchnad gyffredinol) yn y safle a neilltuwyd ym Mhenallt (SAH11xii) a 5 annedd (3 fforddiadwy, 2 marchnad gyffredinol) yn un o'r safleoedd a neilltuwyd yn Shirenewtown (SAH11xiv(b)). Cyfrifai safle yn Llanfihangel Rogiet am y 10 annedd sy'n weddill a ganiatawyd fel addasiadau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, pob un ohonynt ar gyfer y farchnad gyffredinol (er bod y caniatâd yn amodol ar gyfraniad tai fforddiadwy oddi-ar-y-safle).<br><br>Mae'r caniatadau a gofnodwyd mewn ardaloedd gwledig yn ystod y cyfnod monitro hwn i'w cymharu â'r rheiny a gofnodwyd yn yr AMB cyntaf (7%) ac yn is na'r rheiny a gofnodwyd yn yr ail AMB (22%). Er gwaethaf yr amrywiadau hyn, mae cyfran y caniatadau a gofnodwyd yn yr ardaloedd gwledig dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod o fewn +/- 10% o'r targed yn golygu na chyrhaeddwyd y sbardun am ymchwiliad pellach sy'n arwydd nad oes pryderon arwyddocaol gyda'r caniatadau a roddwyd mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Rhagwelir y bydd datblygiad holl ddyraniadau safle'r CDLl, gan gynnwys y rheiny o fewn prif bentrefi'r Sir, yn sicrhau bod cyfran y caniatadau mewn aneddiadau gwledig yn adlewyrchu'r targed dynodedig yn fwy clos ac yn sicrhau aliniad gwell gyda'r strategaeth ofodol.<br><br>Mae'n werth nodi, cymeradwywyd tri annedd gweithwyr menter wledig yn ystod y cyfnod monitro[1], pob un ohonynt yn cael eu hystyried i fod yn unol â NCT6 a pholisïau eraill perthnasol y CDLl. |

[1]DC/2016/00486 – annedd gweithiwr y fenter wledig, Cwm Newydd, Rockfield; DC/2014/01467 –annedd gweithiwr y fenter wledig,Fferm Pen y Lan, Cwmcarfan; DC/2015/00459 –cadw annedd gweithiwr ceffylaidd, Stablau Tan Gwyn, Ponthir.

| |
|---|
| Yng ngoleuni'r uchod, nid ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun mewn perthynas â'r caniatadau i anheddau a roddwyd yn yr aneddiadau gwledig eilaidd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| d) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| dd) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| e) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| f) Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff anheddau a gwblhawyd a chaniatadau eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithredu'r strategaeth ofodol

## Darpariaeth Tai

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Darparu 4,500 o unedau preswyl (gan gynnwys 960 o unedau preswyl fforddiadwy) yn y Sir dros gyfnod y cynllun. |
| **Polisi Strategol:** | Darparu S2 o Dai |
| **Amcanion y CDLl a Gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y CDLl a Gefnogir:** | H1-H9, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau ychwanegol marchnad gyffredinol a fforddiadwy a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun* | Hyd at 488 o anheddau i gael eu hadeiladu bob blwyddyn 2013-2021<br><br>*(2014-15: 205)*<br>*(2015-16: 234)* | 10% yn llai neu'n fwy na graddfa adeiladu strategaeth y CDLl am 2 flynedd yn olynol | **238** |
| 2. Dwysedd y tai a ganiateir ar safleoedd dynodedig | Cynnal lleiafswm cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai drwy gydol cyfnod y cynllun<br><br>*(2014-15: 5.0)*<br>*(2015-16: 4.1)* | Llai na chyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai mewn unrhyw 1 flynedd | **4.0** |
| 3. Dwysedd y tai a ganiateir ar safleoedd dynodedig ♦ | Cwrdd â'r dwyseddau targed a amlinellir mewn polisïau neilltuo safleoedd SAH1 i SAH10 | Caniatadau cynllunio wedi'u rhoddi nad ydynt yn cwrdd â'r dwyseddau hyn | **SAH7: 30 dph**<br>**SAH9: 26 dph** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Adolygiad o Astudiaeth o Anghenion a Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr i'w gwblhau o fewn dwy flynedd i fabwysiadu'r CDLl | Os dynodir yr angen am safle(oedd) ychwanegol, ceisio neilltuo safle addas erbyn Gwanwyn 2017 | Heb gwrdd â'r angen dynodedig erbyn Gwanwyn 2017 | **Cymeradwywyd y** safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl **gan Lywodraeth Cymru Ionawr 2017. Safle addas heb ei ddynodi.** |

| |
|---|
| **Dadansoddiad** |
| 1. Adeiladwyd 238 o anheddau marchnad gyffredinol a fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro (191 marchnad gyffredinol a 47 o anheddau fforddiadwy). Roedd 116 (48.7%) o'r anheddau hyn a gwblhawyd ar hap-safleoedd, gan gynnwys cyn-ysgolion cynradd yn Rogiet a Chil-y-coed (Ochr Orllewinol), Westgate (Tir oddi ar Heol Merthyr) a Gavenny Gate yn Llan-ffwyst, Clinig Dixton a Chyn Ysbyty'r Cottage yn Nhrefynwy. Cyfrifai safleoedd bychain (gan gynnwys addasiadau) am nifer arwyddocaol o anheddau a gwblhawyd dros y cyfnod hwn, cyfanswm o 86 (36.1%). Cyfrifai dau safle a neilltuwyd yn y CDLl am y 36o anheddau eraill a gwblhawyd, gyda 21 o anheddau'n cael eu cwblhau ar y safle strategol defnydd cymysg yn Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4) a 15 annedd yn cael eu cwblhau yn y safle prif bentref yn Nhrellech (SAH11xv).<br><br>Mae'r 238 o anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn is na'r targed yn y CDLl o 488 o anheddau wedi'u cwblhau bob blwyddyn rhwng 2013 a 2021. Golyga'r ffigur hwn, ynghyd â'r raddfa gwblhau o 439o anheddau a gofnodwyd yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf (205 wedi'u cwblhau yn 2014/15; 234 wedi'u cwblhau yn 2015/16), i gyfanswm o 677o anheddau gael eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun ac felly cyfarfuwyd â'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn am yr ail flwyddyn yn olynol.<br><br>Mae'r anheddau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn i'w cymharu â'r rheiny a gofnodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf (234) ac maent ychydig yn uwch na'r anheddau a gwblhawyd yn yr AMB cyntaf (205). Mae cymharu ag AMB y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn dangos bod yr anheddau marchnad gyffredinol a gwblhawyd yn uwch yn ystod y cyfnod monitro cyfredol (191 yn 2016/17 o gymharu â 171 yn 2015/16), tra roedd yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd yn is (47 yn 2016/17 o gymharu â 63 yn 2015/16).<br><br>O ystyried mai ychydig o'r safleoedd dynodedig sydd wedi mynd rhagddo i'r cyfnod datblygu, gydag anheddau a gwblhawyd wedi'u cofnodi ar ddau safle dynodedig yn unig yn ystod y cyfnod hwn, gellid disgwyl y raddfa gwblhau sy'n is na'r raddfa darged ddisgwyliedig. At hynny, gan mai hon yw'r drydedd flwyddyn i'r CDLl fod yn weithredol, ni fyddai disgwyl i nifer arwyddocaol o anheddau gael eu cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl o gofio'r amser a gymer i gymryd safleoedd drwodd ar hyd y broses gynllunio. Fodd bynnag, fel mae safleoedd dynodedig yn cael caniatâd, ac yn cael eu datblygu, bydd yr anheddau a gaiff eu cwblhau'n ddiamau yn cynyddu dros weddill cyfnod y Cynllun. O gofio bod 4 yn rhagor o'r safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun wedi cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhagwelir y bydd anheddau'n cael eu cwblhau ar y safleoedd hyn yn ystod cyfnod monitro'r flwyddyn nesaf. Bydd cyflenwi |

| |
|---|
| safleoedd tai strategol y Cynllun yn arbennig yn gwella graddfa'r anheddau a gaiff eu cwblhau yn unol á'r targed dynodedig. Darperir diweddariad ar ddatblygiad safleoedd a neilltuwyd yn y dadansoddiad polisi o safleoedd strategol (Polisi S3).<br><br>Mae nifer o ffactorau economaidd ehangach sy'n effeithio ar gyflenwi tai y tu hwnt i'r system gynllunio. Tra mae dau safle strategol yn unig a gafodd ganiatâd erbyn diwedd y cyfnod monitro, mae cynnydd arwyddocaol yn cael ei wneud i ddwyn ymlaen y safleoedd strategol eraill, fel y dangosir yn y dadansoddiad o Bolisi S3. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y safleoedd strategol eraill a neilltuwyd yn amhosib eu cyflenwi, neu fod angen adolygu'u dyraniad. Lle bydd yn bosib, bydd y Cyngor yn ceisio prysuro cyflenwi'r safleoedd dynodedig presennol. Eto i gyd, ymddengys graddfa gyflenwi araf barhaus y safleoedd hyn y gellir cadarnhau'r angen am ddyraniadau safleoedd ychwanegol drwy adolygiad o'r CDLl a/neu drwy agwedd bragmataidd at benderfynu ceisiadau gwyro fel y dynodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r materion hyn isod mewn perthynas â'r dangosydd cyflenwi tai. |
| 2. Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir Fynwy (CAATT) ar gyfer cyfnod 2016-17 yn dangos bod gan y Sir gyflenwad tir 4.0 mlynedd ar gyfer tai (yn seiliedig ar y dull gweddilliol). Cyfanswm y cyflenwad tir yn gyffredinol yw 2,754 o unedau, yn cynnwys 2,317 o unedau ar safleoedd mawr a 437 o unedau ar safleoedd bychain.<br><br>Fel y dangosir yn y tabl isod, dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r cyflenwad tir syrthio'n is na 5 mlynedd (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a ragnodwyd yn NCT1), ac at ei gilydd fe gyfarfuwyd â'r ffigur ar gyfer y dangosydd hwn.<br><br>Lle mae'r cyflenwad tir yn is na 5 mlynedd, mae NCT1 yn datgan y dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried y rhesymau dros y diffyg ac a ddylid adolygu'r CDLl naill ai'n gyfan neu'n rhannol.<br><br>Y rheswm sylfaenol am y diffyg yn y cyflenwad tir yw i raddfa gyflenwi'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl fod yn arafach nag a ragwelwyd, fel y dangosir yn y dadansoddiad uchod ac mewn perthynas â Pholisi S3. Mae hyn yn awgrymu bod angen neilltuo safleoedd ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Ystyrir mai'r modd mwyaf effeithiol o gyflawni hyn fydd drwy adolygiad/arolwg cynnar o'r CDLl mabwysiedig. Tra cydnabyddir y byddai adolygiad cynnar yn rhagflaenu'r adolygiad 4 blynedd statudol (yn ddyledus yn 2018), o gofio'r pwysigrwydd ynghlwm wrth fater cyflenwad tir ystyrir bod adolygiad cynnar yn angenrheidiol. Byddai hyn o gymorth wrth geisio osgoi 'cynllunio drwy apêl' a datblygiad ad hoc yn dod ymlaen y tu allan i'r system ddatblygu cynllunio a heb fod yn unol â strategaeth y Cynllun.<br><br>Bydd mabwysiadu agwedd bragmataidd at benderfynu datblygiadau preswyl hefyd yn gymorth yn y cyd-destun hwn (fel y cydnabyddir yn NCT1, paragraff 6.2). Hynny yw, lle mae safleoedd yn gwyro o'r CDLl ond sydd fel arall yn dderbyniol ac yn nhermau cynllunio gallai argymhelliad i dderbyn gael ei ystyried.<br><br>Ystyrir gofyniad NCT1 i Awdurdodau Cynllunio Lleol seilio'u cyfrifiadau tir 5 mlynedd ar gyfer tai ar ddull gweddilliol yn ffactor sy'n cyfrannu at y diffyg cyfredol yng nghyflenwad tir yr Awdurdod. Mae'n werth nodi, dan ganllawiau blaenorol NCT1, gellid defnyddio graddfeydd adeiladu'r gorffennol i gyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Yn seiliedig ar raddfeydd adeiladu'r gorffennol dros y deng mlynedd ddiwethaf, byddai gan Sir Fynwy |

gyflenwad tir 11 mlynedd. Tynnwyd yn ôl y dull hwn o gyfrifo yn y NCT1 diwygiedig: gwneir y pwynt yn syml fel modd i ddangos nad yw'r mater hwn yn achos syml o'r CDLl heb gyflenwi, mae'n gyfuniad cymhleth o reolau ynghylch y modd y caiff cyflenwad tir ei fesur a'r ffactorau economaidd allanol sy'n effeithio adeiladu tai a'r farchnad dai. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i mewn i NCT1 a chyflenwad tir ar gyfer tai a chymerodd Sir Fynwy ran fel Awdurdod astudiaeth achos. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn gyda Llywodraeth Cymru a allai argymell newidiadau i'r ffordd mae argaeledd tir ar gyfer tai yn cael ei gyfrifo ar hyn o bryd, fodd bynnag, tan yr amser y gwneir unrhyw newidiadau, mae'r system bresennol yn gymwys.

| **Dyddiad yr Astudiaeth** | **Nifer y Blynyddoedd o Gyflenwad** |
|---|---|
| 1 Ebrill 2011-12 | 4.4 |
| 1 Ebrill 2012-13 | 3.6 |
| 1 Ebrill 2013-14 | 5.2 |
| 1 Ebrill2014-15 | 5.0 |
| 1 Ebrill 2015-16 | 4.1 |
| 1 Ebrill 2016-17 | 4.0 |

3. Cafodd y safleoedd canlynol a neilltuwyd yn y CDLl ** ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro gyda dwyseddau safleoedd fel a ganlyn:

- Hen Felin Bapur Sudbrook (SAH7) 212 o unedau, dwysedd o 30 o anheddau yr hectar.
- Coed Glas, Y Fenni (SAH9) 51 o unedau, dwysedd o 26 o anheddau yr hectar.

Cyrhaeddodd Hen Felin Bapur Sudbrook ddwysedd o 30 o anheddau yr hectar sydd ychydig yn uwch na'r dwysedd targed ar gyfer y safle hwn o 28.8 o anheddau yr hectar, fel yr amlinellir yn y CDLl. Yn gyferbyniol, cofnododd y dyraniad yng Nghoed Glas ddwysedd o 26 o anheddau yr hectar sy'n is na tharged dwysedd y safle o 31.6 o anheddau yr hectar. Ystyriwyd y dwysedd is a gyrhaeddwyd, fodd bynnag, yn dderbyniol o gofio nodweddion penodol y safle, gan gynnwys y nifer uchel o goed gyda gorchmynion diogelu coed ar y safle. Yn unol â hynny, roedd y safle'n elwa o ddatblygiad dwysedd is, ac nid yw hwn yn fater o bryder.

Gan mai cymharol fychan yw'r nifer o ganiatadau a roddwyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl, mae'r casgliadau y daethpwyd atynt mewn perthynas â dwysedd safleoedd yn dal yn rhagarweiniol. Mae ansawdd dyluniad, gwneud-lle a pharchu cyd-destun safle yn bwysicach na glynu'n gaeth at y ffigur dwysedd hwn. Daw effeithioldeb targed dwyseddau'r CDLl yn fwy amlwg fel y datblygir safleoedd dynodedig. Bydd y Cyngor, felly, yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol.

4. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i fonitro anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae wedi paratoi Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i Weinidog Cymru yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Nod yr asesiad yw darparu data a fydd yn adnabod anghenion lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i'r galw a'r dyhead preswyl ehangach. Canfyddiad allweddol yr asesiad yw bod galw amcangyfrifedig heb ei ddiwallu am wyth llain at 2021, yn seiliedig ar orlenwi, meddiannaeth anawdurdodedig a'r tebygrwydd o wrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol.

| |
|---|
| Yn unol â'r fframwaith monitro, gan na chyfarfuwyd â'r angen erbyn Gwanwyn 2017 cyrhaeddwyd y sbardun am ymchwiliad pellach, eto mae'r mater hwn yn mynd rhagddo fel y manylir isod.<br><br>Yng ngoleuni hyn ac fel y cofnodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf, bwriad y Cyngor yw gwneud darpariaeth ar gyfer safle(oedd) i gwrdd â'r angen na ddiwallwyd drwy weithio'n rhagweithiol gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i sefydlu'u ffafriaeth am ddarpariaeth safle (preifat neu Gyngor).Mae canfyddiadau'r broses Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn awgrymu bod dyhead o fewn llawer o gymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr am ddarparu safleoedd preifat yn Sir Fynwy. Lle bydd yn angenrheidiol, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr ac yn eu cefnogi er mwyn dynodi a datblygu safleoedd addas preifat i fynd i'r afael â'r angen dynodedig na ddiwallwyd yn unol â fframwaith polisi'r CDLl. Ystyrir y byddai 'n fwy buddiol ymdrin â darparu'r safleoedd o'r fath drwy fframwaith polisi'r CDLl presennol (Polisi H8). Os na ellir darparu safle(oedd) preifat gellid bod angen dynodi safle cyhoeddus i sipsiwn a theithwyr yn unol â fframwaith polisi'r CDLl.<br><br>Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, bu cynnydd cyfyngedig yn nhermau datblygu argymhellion yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys cydgysylltu gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn perthynas â dynodi/datblygu safleoedd preifat. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r oedi ar ran Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r Asesiad yn chwarter olaf y cyfnod monitro a roddodd ofod cyfyngedig i ddatblygu'r argymhellion o fewn y cyfnod monitro cyfredol. Ymhellach, gan adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, mae Gwasanaeth Strategaeth Dai y Cyngor yn y broses o sefydlu Polisi Llety Sipsiwn a Theithwyr (rhestr aros yn seiliedig ar fandiau (lefelau) angen i helpu wrth ddyrannu lleiniau. Bydd angen i'r polisi hwn fod yn ei le cyn y rhoddir ystyriaeth i ddynodi safleoedd addas.<br><br>Mae'n werth nodi, gwrthodwyd 2 gais cynllunio am lety i Sipsiwn/Teithwyr dros y cyfnod monitro. Mae'r ceisiadau mewn perthynas â safle sipsiwn preifat yn cynnwys 5 llain ychwanegol a datblygiad cysylltiedig ar dir yn Llangeview a safle Sipsiwn preifat yn Llancayo. Ystyriwyd y ddau gais yn wrthwyneb i bolisïau'r CDLl mewn perthynas â datblygu yn y cefn gwlad agored ac ystyriwyd bod yr ymgeiswyr wedi methu â dangos bod amgylchiadau eithriadol hollbwysig a fyddai'n gorbwyso fframwaith polisi'r CDLl. Mae'n debygol yr apelir yn erbyn y ddau benderfyniad gan yr ymgeiswyr ac adroddir ar unrhyw gynnydd ar hyn yn yr AMB nesaf.<br><br>Defnyddir meini prawf yn seiliedig ar bolisi H8 y CDLl I ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer llety Sipsiwn/Teithwyr sy'n codi yn Sir Fynwy. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Cychwyn adolygiad cynnar o'r CDLl. |
| 2. Cychwyn adolygiad cynnar o'r CDLl. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

**Mae'r dangosydd mewn perthynas â safleoedd dynodedig SAH1 – SAH10 yn unig. Felly mae'n eithrio safleoedd Bentrefi dynodedig Prif Bentrefi (SAH11).

♦Diwygiwyd i ddileu cyfeiriad at 'cyfartalog' er eglurhad. Mae'r dangosydd yn ceisio monitro'r dwysedd a gyflawnwyd ar safleoedd dynodedig, yn hytrach na dwysedd cyfartalog.

## Safleoedd Tai Strategol

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Cyflenwi'r safleoedd tai strategol yn unol â pholisi strategol S3 a pholisïau neilltuo safleoedd SAH1-SAH7. |
| **Polisi Strategol:** | S3 o Safleoedd Tai Strategol |
| **Amcanion y CDLl a Gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y CDLl a Gefnogir:** | SAH1-SAH7 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd strategol fel y dynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyraniadau safle SAH1 i SAH7 | Sicrhau /cyflenwi anghenion tai ar y safleoedd strategol allweddol a ddynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau SAH1-SAH7 yn ystod cyfnod y cynllun: | Ni roddir caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014 ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Fferm Deri, Y Fenni | | **0** |
| | b) Heol Crick, Portskewett | | **0** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent | | **0** |
| | ch) Heol Wonastow, Trefynwy | | **(340*)** |
| | d) Fferm Rockfield, Gwndy | | **0** |
| | dd) Tir ar Vinegar Hill, Gwndy | | **0** |
| | e) Hen Felin Bapur, Sudbrook | | **212** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd strategol fel y dynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyraniadau safle SAH1 i SAH7 | Anheddau a gwblhawyd yn unol â'r tafl-lwybr tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol ** | Anheddau a gwblhawyd yn syrthio'n is na 10% o'r targed? ?tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Fferm Deri, Y Fenni *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **Amh** |
| | b) Heol Crick, Portskewett *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **Amh** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **Amh** |
| | ch) Heol Wonastow, Trefynwy *(2015-16 trajectory = 30 completions for 2016-17)* | | **21** |
| | d) Fferm Rockfield, Gwndy *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **Amh** |
| | dd) Tir ar Vinegar Hill, Gwndy *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **Amh** |
| | e) Hen Felin Bapur, Sudbrook *(2015-16 trajectory = 0 completions for 2016-17)* | | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |

**1. Caniatadau ar gyfrer Anheddau**

Parthed safleoedd strategol dynodedig, rhoddwyd caniatâd i'r cais llawn ym Melin Bapur Sudbrook ar gyfer 212 o unedau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r caniatâd hwn, ynghyd â chaniatâd ar gyfer 340 o unedau ar safle Heol Wonastow*, yn golygu bod dau o safleoedd dynodedig y Cynllun wedi derbyn caniatâd ers mabwysiadu'r CDLl. Fodd bynnag, nid oes unrhyw safleoedd strategol ychwanegol wedi derbyn caniatâd cynllunio ac am hynny cyrhaeddwyd y sbardun am ymchwiliad pellach.

O ystyried y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â rhai o'r safleoedd, gan gynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, roedd dyddiad sbardun derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer yr holl safleoedd erbyn 2014 yn afreal. Mae'r methiant i fod wedi cael caniatâd cynllunio ar y pum safle strategol ychwanegol erbyn diwedd y cyfnod monitro cyfredol, fodd bynnag, yn fater o bryder, er bod cynnydd yn cael ei wneud ar ddwyn y safleoedd hyn ymlaen fel yr amlinellir yn fyr isod.

**Fferm Deri, Y Fenni (SAH1):**

Cyflwynodd Cartrefi Persimmon gais llawn ar gyfer 250 o unedau preswyl yn Nhachwedd 2014. Bu cynnydd gyda'r cais yn arafach nag a ragwelwyd o ganlyniad i broblemau arwyddocaol mewn perthynas â hyfywedd y safle (darpariaeth tai fforddiadwy) a thanddaearu llinellau pŵer uwchben. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r cais yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, gyda phroblemau hyfywedd bellach wedi'u datrys, rhagwelwyd y byddai'r cais yn cael ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 232 o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

**Heol Crick, Portskewett (SAH2):**

Neilltuwyd safle ym mherchenogaeth y Cyngor ar gyfer 285 o unedau preswyl ac 1 hectar o dir eisoes â gwasanaethau ar gyfer busnes a datblygiad diwydiannol. Cyflawnwyd ymarfer ymgynghori sylweddol i ystyried amrywiol ddewisiadau ar gyfer y safle yn ystod y cyfnod monitro blaenorol. Gwnaed cynnydd pellach, gan gynnwys cyfarfodydd cyn-ymgeisio, gyda'r cais dros y cyfnod monitro cyfredol a rhagwelwyd y byddai'r cais cynllunio'n cael ei gyflwyno a'i benderfynu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 240o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

**Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3):**

Cyflwynodd y perchennog tir gais amlinellol (DC/2014/01290) ym mis Hydref 2014 ar gyfer hyd at 600 o unedau preswyl (350 i'w cyflenwi o fewn cyfnod y Cynllun), gofod masnachol gan gynnwys swyddfeydd a gweithdai (Dosbarth Defnydd B1) a gofod manwerthu / bwyd a diod ar raddfa fechan (Dosbarthiadau Defnydd A1 ac A3) a mannau agored amlbwrpas gwyrdd a glas. Bu datblygiad gyda'r cais yn arafach nag a ragwelwyd o ganlyniad i amrywiol faterion, gan gynnwys materion ynghylch y briffordd (roedd gan Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad daliad ar y cais am 18 mis). Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r cais yn ystod y cyfnod monitro presennol, gyda materion a fu heb eu datrys bellach wedi'u datrys. Mae'r cais cynllunio ers hynny wedi cael ei gymeradwyo (h.y. yn ystod rhan gynnar y cyfnod monitro nesaf) ac mae'n disgwyl cwblhau'r cytundeb cyfreithiol.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 170o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

**Heol Wonastow , Trefynwy (SAH4):**
Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer hyd at 370 o anheddau a 6.5 hectar o dir cyflogaeth yn Rhagfyr 2014. Cyflwynodd datblygwyr y safle (Barratt/David Wilson a Taylor Wimpey) gais materion a gedwir yn ôl (DC/2015/00392) ar gyfer 340 o unedau y rhoddwyd caniatâd iddo yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, gyda chofnodi cwblhau'r anheddau cyntaf ar y safle yn ystod y cyfnod monitro cyfredol (21 wedi'u cwblhau).

Mae'r safle cyfan wedi'i neilltuo yn y CDLl ar gyfer cyfanswm o 450 o unedau. Mae'r unedau ychwanegol mewn perthynas â'r dynodiad hwn i'w cyflenwi fel estyniad i'r safle yn Fferm Drewen. Ni chyflwynwyd cais ar gyfer yr elfen hon o'r safle hyd yn hyn. Mae'r tir yn y rhan hon o'r safle i bob pwrpas wedi'i gloi tan 2019 pan fydd datblygiad Taylor Wimpey wedi gwneud cynnydd digonol i ganiatáu mynediad drwyddo. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau'n mynd yn eu blaen mewn perthynas â'r posibilrwydd o ddarparu mynediad amgen ar gyfer traffig adeiladu i sicrhau galluogi'r safle i gael ei ddatblygu'n gynt.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 450o unedau o fewn cyfnod y Cynllun.

**Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5):**
Dyma safle ym mherchenogaeth y Cyngor a neilltuwyd ar gyfer 270 o unedau preswyl a 2 hectar o dir â gwasanaeth at ddefnydd busnes a diwydiant. Bu'r cynnydd gyda'r safle yn arafach nag a ragwelwyd o ganlyniad i amrywiol faterion, gan gynnwys archaeoleg. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod monitro cyfredol gyda chais amlinellol (DC/2016/00883) ar gyfer 266 o unedau a 5,575 metr sgwâr o dir cyflogaeth (defnydd B1) a gyflwynwyd i'r Cyngor a'r cais wedi'i ddatblygu'n sylweddol. Mae'r safle eto i'w farchnata. Mae'r cais cynllunio ers hynny wedi cael ei gymeradwyo (h.y. yn ystod rhan gynnar y cyfnod monitro nesaf) ac mae'n disgwyl cwblhau'r cytundeb cyfreithiol.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 190o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

**Tir ar Vinegar Hill, Gwndy (SAH6):**
Dyma safle ar gyfer 225 o unedau preswyl, yn gysylltiedig â safle Fferm Rockfield gerllaw a disgwylid i'r ddau safle ddatblygu gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r datblygwr hyd yn hyn wedi cyflwyno cais a chynnydd cyfyngedig a fu dros y cyfnod monitro cyfredol.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 120o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

**Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7):**
Cyflwynwyd cais cynllunio llawn (DC/2015/01184) gan Ystadau Harrow (cadarnhawyd Redrow fel y datblygwr) yn Hydref 2015 ar gyfer 212 o unedau preswyl (192 o unedau marchnad gyffredinol ac 20 uned fforddiadwy). Bu nifer o broblemau hyfywedd safle yn gysylltiedig â'r cais hwn sy'n golygu bod cynnydd gyda'r cais yn arafach nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys wedyn a chymeradwywyd y cais yn ystod y cyfnod monitro cyfredol (Tachwedd 2016) a dechreuwyd clirio'r safle.

Mae'r CAATT 2016-17 a gytunwyd yn disgwyl i'r safle gyflenwi 150o unedau o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r anheddau cyntaf yn cael eu cwblhau yn 2018/19.

Cydnabyddir, ac eithrio Heol Wonastow, nid yw'r safleoedd strategol a neilltuwyd wedi gwneud cynnydd yn unol â'r targed dynodedig o dderbyn caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014. Cafodd y dynodiad strategol ym Melin Bapur Sudbrook ganiatâd ar gyfer 212 o unedau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, er bod hwn y tu allan i'r targed dynodedig. Ymhellach mae ffigurau tafl-lwybr CAATT 2016-17 a gytunwyd yn dangos diffyg yn ystod cyfnod y cynllun o 640o anheddau o safleoedd strategol. Mae cynnydd cyfyngedig y safleoedd hyn yn golygu y cyfarfuwyd á'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach am y drydedd flwyddyn yn olynol. Fel y nodwyd uchod, mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar geisiadau cynllunio mewn perthynas â nifer o'r safleoedd hyn a nifer ohonynt wedi gwneud camau breision ymlaen. Felly, rhagwelir y bydd nifer o safleoedd strategol, gan gynnwys Fferm Deri, Fairfield Mabey a Fferm Rockfield, yn cael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro nesaf a chofnodir hwy maes o law. Nid oes tystiolaeth i awgrymu ei bod yn amhosib cyflenwi'r safleoedd hyn na bod angen adolygu'u dynodiad. Mae gan yr oedi wrth eu dwyn ymlaen, fodd bynnag, oblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau eraill a chaiff yr angen i weithredu ymhellach ei ystyried mewn perthynas â'r dangosyddion penodol hynny.

O gofio pwysigrwydd cyflenwi'r safleoedd strategol, yn arbennig parthed eu cyfraniad i'r cyflenwad tir 5 mlynedd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'u cynnydd yn ofalus.

Mae gan gyflenwi'r safleoedd strategol oblygiadau amlwg i'r strategaeth ofodol a'r cyflenwi tai (marchnad gyffredinol a fforddiadwy). Fel y nodwyd yn y dadansoddiad o bolisi ar gyfer Polisi S1, S2 a S4, fel bydd y safleoedd hyn yn mynd rhagddynt, rhagwelir y bydd cyflenwi anheddau yn alinio'n fwy clos gyda strategaeth ofodol a thargedau marchnad gyffredinol ac anheddau fforddiadwy'r Cynllun.
y Cynllun

**2. Anheddau a Gwblhawyd**

Yr unig anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol dynodedig ystod y cyfnod monitro peded yn Heol Wonastow, Trefynwy (21 wedi'u cwblhau) sydd i'w ddisgwyl gan i'r safle hwn gael caniatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro diwethaf. Mae'r anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn unol â tafl-lwybr 2015 y CAATT a ragfynegodd gwblhau 30 o anheddau ar y safle yn 2016/17. Tra cafodd y safle strategol ym Melin Bapur Sudbrook ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, dyma safle tir llwyd ag angen gwaith adfer y safle cyn cychwyn datblygu sy'n golygu na ddisgwylir i'r anheddau cyntaf gael eu cwblhau tan y cyfnod monitro nesaf.

Fel y cafwyd tystiolaeth uchod, o ystyried bod cynnydd sylweddol wedi digwydd ar nifer o ganiatáu cynllunio safleoedd strategol rhagwelir y bydd cwblhau anheddau'n alinio gyda thargedau tafl-lwybr tai dynodedig CAATT fel y bydd y safleoedd hyn yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae cymhariaeth â thafl-lwybr CAATT 2015-16 yn dangos na chyfarfuwyd â chwblhau anheddau na'u gwthio nôl ar nifer o'r safleoedd strategol oherwydd yr oedi gyda safleoedd yn dod ymlaen, fel y manylir yn y tabl isod.

**Cymharu Rhestr Safleoedd Strategol CAATT**

| | 2015-16 CAATT | | 2016-17 CAATT | | Newid yn Nifer yr Unedau Y Tu Allan i'r Cyflenwad Tir 5 Mlynedd 2016 -2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | O Fewn y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | Y Tu Allan i'r Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | O Fewn y Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | Y Tu Allan I'r Cyflenwad Tir 5 Mlynedd | |
| **Fferm Deri** | 185 | 65 | 182 | 68 | **3** |
| **Fairfield Mabey** | 200 | 150 | 170 | 180 | **30** |
| **Fferm Rockfield** | 195 | 75 | 190 | 80 | **5** |
| **Vinegar Hill** | 120 | 105 | 120 | 105 | **0** |
| **Heol Wonastow (Taylor Wimpey)** | 155 | 11 | 166 | 0 | -11 |
| **Heol Wonastow (Barratt)** | 160 | 14 | 174 | 0 | -14 |
| **Heol Wonastow (Fferm Drewen)** | 75 | 35 | 110 | 0 | -35 |
| **Heol Crick** | 200 | 85 | 140 | 145 | **60** |
| **Melin Bapur Sudbrook** | 115 | 75 | 150 | 62 | -13 |

Y newidiadau mwyaf arwyddocaol mewn perthynas ô nifer o unedau a symudwyd o'r cyflenwad tir rhwng 2016 a 2017 yw:

- Fairfield Mabey (SAH3) symudwyd 30 o unedau ychwanegol o'r cyflenwad tir, gan arwain at gyfanswm o 180 o unedau y tu allan i'r cyflenwad tir 5 mlynedd. Roedd hwn yn safle dadleuol ym mhroses CAATT 2017 gyda'r Arolygwr yn penderfynu bod graddfa gyflenwi'r ACLl i fod yn optimistig o gofio'r cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r safle. Daeth yr Arolygwr i'r casgliad y dylai cyfanswm o 180 o unedau syrthio y tu allan i'r cyflenwad tir 5 mlynedd.
- Heol Crick (SAH2) symudwyd 60 o unedau ychwanegol o'r cyflenwad tir, gan arwain at gyfanswm o 145 o unedau y tu allan i'r cyflenwad tir 5 mlynedd. Cynghorodd Melin (sy'n gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy i fynd â'r safle rhagddo) fod y graddfeydd cyflenwi a fwriadwyd yn rhy optimistig ac na fyddent yn gallu cyflawni graddfeydd adeiladu o'r fath. Cytunwyd ar y sefyllfa hon yn y cyfarfod a diwygiwyd y graddfeydd cyflenwi'n unol â hynny.

Syrthiodd cyfanswm o 640 o unedau y tu allan i'r cyflenwad tir 5 mlynedd yn y CAATT 2017, o gymharu â 615 o unedau yn y CAATT 2016 .

Mae gan hwn oblygiadau ar gyfer y targedau a'r sbardunau monitro eraill ac ystyriwyd yr angen am unrhyw weithredu pellach mewn perthynas â'r dangosyddion penodol hynny sy'n arwain at yr argymhelliad yn AMB y flwyddyn ddiwethaf i gychwyn adolygiad cynnar o'r Cynllun.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu a yw dyraniadau strategol preswyl y Cynllun yn cael eu cyflenwi'n unol â thargedau'r trajectory?/ tai.

| |
|---|
| |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Heol Wonastow cais materion a gedwir yn ôl (DC/2015/00392) caniatawyd 17.11.2015 ar gyfer hyd at 340 o unedau yn cynnwys 238 o unedau marchnad a 102 o unedau fforddiadwy. Cynhwyswyd y caniatâd amlinellol ar gyfer y safle yn AMB 2014. Y targed yw 450 o unedau, anheddau ychwanegol i gael eu cyflenwi drwy estyniad Fferm Derwen.

**2015-16 Tafl-lwybr am fod hwn yn rhagfynegi'r anheddau a gwblheir ar gyfer cyfnod 2016-17 h.y. y cyfnod monitro cyfredol.

## Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/ /Canlyniad:** | Darparu 960 o unedau anheddau fforddiadwy dros gyfnod y cynllun |
| **Polisi Strategol:** | S4 Tai Fforddiadwy |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | H7, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

**Prisiau Tai**

Amlinellir yr amrywiadau a gofnodwyd ym mhrisiau cyfartalog tai yn y Sir ers 2012 yn Adran 3 –Gwybodaeth Gyd-destunol. Asesir goblygiadau posib y tueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd dros y cyfnod monitro mewn perthynas â dangosydd 5 isod.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun *[1] | Cyflenwi 96 o Anheddau fforddiadwy y flwyddyn 2011-2021 (cyfanswm o 960 dros gyfnod y cynllun) *(2014-15: 17)* *(2015-16: 63)* | 10% yn llai neu'n fwy na graddfa strategaeth adeiledig y CDLl am 2 flynedd yn olynol | **47** |
| 2. Nifer yr anheddau fforddiadwy a sicrhawyd ar safleoedd tai newydd | a) 35% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn y Prif Drefi a'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd a ddynodwyd ym Mholisi S1 *(2014-15: 35%)* *(2015-16: 34%)* | Cyfran y tai fforddiadwy a sicrhawyd ar safleoedd datblygu ym mhob ardal yn syrthio'n is na'r gofynion a amlinellir ym Mholisi S4 | **43%**** |
| | b) 25% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn Aneddiadau Glan Hafren a ddynodir | | **9.7%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ym Mholisi S1<br><br>*(2014-15: 100%)*<br>*(2015-16: N/A)* | | |
| | c) 60% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 3 annedd neu fwy yn y Prif Bentrefi a ddynodwyd ym Mholisi S1<br><br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 60%)* | | **60%/20%*** ** |
| | d) Safleoedd pentref bach gyda chapasiti ar gyfer 4 annedd i wneud darpariaeth i 4 fod yn fforddiadwy a safleoedd â chapasiti ar gyfer 3 annedd i wneud darpariaeth i 2 fod yn fforddiadwy.<br><br>*(2014-15: N/A)*<br>*(2015-16: N/A)* | | **Amh.<br>Dim ceisiadau cymwys)** |
| 3. Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd/adeiladwyd ar Safleoedd Prif Bentrefi fel y dynodwyd ym Mholisi SAH11 | Safleoedd y Prif Bentrefi gyda'i gilydd i gyflenwi 20 annedd fforddiadwy y flwyddyn 2014-2021<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 9 permitted)* | 10% yn llai neu'n fwy na'r raddfa darged adeiladu am 2 flynedd yn olynol | **9 wedi'u caniatáu /9 wedi'u hadeiladu<br>**** ** |
| 4. Nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithrio gwledig | Dim targed<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)* | Dim | **0** |
| 5. Targed canrannol tai fforddiadwy ym Mholisi S4 | Targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Prisiau cyfartalog tai yn cynyddu o 5% uwchben pris sylfaen lefelau cynaliadwy 2012 dros 2 chwarter | **Cyfeirier at y dadansoddiad isod (5)** |
| **Dadansoddiad** | | | |

| | |
|---|---|
| 1. Cwblhawyd cyfanswm o 47 o anheddau fforddiadwy yn ystod y cyfnod monitro, yn cyfrif am 20% o gyfanswm yr anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau. Roedd deuparth y rhain (66%, 31 o unedau) ar hap-safleoedd mawr - 19 o unedau yn hen Ysgol Gynradd Rogiet, 8 uned yn hen Ysgol y West End yng Nghil-y-coed (y ddau safle yn safleoedd tai fforddiadwy 100%) a 4 uned yng Nghlinig Heol Dixton yn Nhrefynwy. Cyfrifai'r safle prif bentref a neilltuwyd yn y CDLl yn Nhrellech (SAH11xv) am 9 annedd fforddiadwy wedi'u cwblhau, gyda safleoedd tai fforddiadwy bychain 100% yn cyfrif am y 7 gweddill a gwblhawyd (Cae Mawr Grove, Cil-y-coed (1), Lôn Werdd, Cil-y-coed (4) a gerllaw Bythynnod Derw, Mynyddbach (2)).<br><br>Tra mae'r ffigur hwn yn is na'r 63 o anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn AMB y flwyddyn ddiwethaf, mae'n sylweddol uwch na'r anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn yr AMB cyntaf a oedd yn cyfateb i 17 o unedau. Roedd y raddfa uwch o anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau y flwyddyn ddiwethaf yn cyd-ddigwydd gyda datblygu'r cynlluniau hap-safleoedd mwy yn Llan-ffwyst.<br><br>Ta waeth, mae'r anheddau fforddiadwy a gwblhawyd yn sylweddol is na'r targed dynodedig yn y CDLl (96 y flwyddyn) gyda chyfanswm o 127 o anheddau fforddiadwy wedi'u cofnodi iddynt gael eu cwblhau dros y tair blynedd ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn seiliedig ar darged y CDLl dylai 288 o anheddau fforddiadwy fod wedi'u cwblhau sydd, yng ngoleuni'r anheddau a gwblhawyd, yn arwain at ddiffyg o 161 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau rhwng 2014-2017.<br><br>Mae cynnydd araf gyda gweithredu nifer o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl, fel yr ystyriwyd uchod mewn perthynas â Pholisïau S2 a S3, wedi arwain at gyfyngu ar y tai marchnad gyffredinol a fforddiadwy a gyflenwir. Gan fod safleoedd a neilltuwyd, gan gynnwys safleoedd prif bentref, yn cael caniatâd, disgwylid i'r anheddau fforddiadwy a gwblhawyd gynyddu yn unol â'r targed. Fel y nodwyd yn flaenorol, cafodd 4 safle a neilltuwyd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol (gydag adeiladu eto i gychwyn) a gyda rhagweld caniatadau pellach ar safleoedd a neilltuwyd dros y cyfnod monitro nesaf bydd yn arwain at gynnydd yn lefel y tai fforddiadwy a gwblheir. Ni does tystiolaeth benodol hyd yn hyn sy'n dangos nad yw Polisi S4 ei hun yn gweithredu'n effeithiol, eto fe fu oedi wrth benderfynu rhai o'r ceisiadau cynllunio, yn arbennig Fferm Deri, oherwydd trafodaethau ynghylch materion hyfywedd yn codi o ofynion Polisi S4. Mae'r materion hyfywedd hyn eu hunain yn effeithio'n uniongyrchol ar y lefelau o dai fforddiadwy a sicrheir, fodd bynnag, mae asesiadau trylwyr yn cael eu cyflawni i sicrhau y gwireddir y cyfraniad mwyaf posib.<br><br>Bwriedir i'r mesurau a argymhellir yn y dadansoddiad o Bolisi S2 uchod gynyddu'r cyflenwad tai, a ddylai fod o fudd i gyflenwi tai fforddiadwy. Nid oes angen gweithredu penodol mewn perthynas â Pholisi S4 ond bydd y Cyngor yn dal i fonitro'n ofalus yr AMBau yn y dyfodol i benderfynu'i effeithioldeb wrth gyflenwi anheddau fforddiadwy. |
| 2. **Aneddiadau Prif Drefi a Gwledig Eilaidd**<br>Roedd cyfran yr anheddau fforddiadwy a ganiatawyd ar safleoedd o 5 neu fwy o unedau ym mhrif drefi ac aneddiadau gwledig eilaidd y Sir yn ystod y cyfnod monitro yn cyfateb i 43% sydd yn uwch na'r targed polisi o 35% yn y CDLl.<br><br>Seilir y canfyddiadau ar gyfanswm o 4 cais, 3 ohonynt yn Y Fenni ac 1 yn Rhaglan. Y cynllun |

mwyaf oedd y safle a neilltuwyd yn y CDLl yng Nghoed Glas, Y Fenni, a gafodd ganiatâd ar gyfer 51 o unedau, 18 (35%) ohonynt yn unedau fforddiadwy. Cyfrifai dau hap-safle mawr yn Y Fenni am 28 o ganiatadau anheddau fforddiadwy - rhoddwyd caniatâd i The Hill, Pen-Y-Pound ar gyfer cyfanswm o 45 o unedau, 12 (27%) ohonynt yn unedau fforddiadwy a chafodd Mulberry House, Pen-Y-Pound ganiatâd ar gyfer 25 o unedau, 16 (64%) ohonynt yn fforddiadwy. Derbyniodd 2 o'r safleoedd hyn yn Y Fenni, felly, y targed tai fforddiadwy o 35%, gyda Mulberry House yn rhagori ar hynny'n eithaf sylweddol. Cyflawnodd The Hill ychydig llai na'r targed tai fforddiadwy o 35% ond roedd hyn i'w gyfiawnhau o gofio natur y safle a'r datblygiad. Yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai swm gohiriedig yn dderbyniol i wneud iawn am y diffyg yn y nifer o unedau fforddiadwy. Cyfrifai cynllun tai fforddiadwy 100% yn Rhaglan am y 19 o ganiatadau ychwanegol ar gyfer anheddau fforddiadwy.

Yn gyferbyniol i AMB y flwyddyn ddiwethaf pan na chynhwysai dau gais ddarpariaeth ar gyfer tai fforddiadwy (ond i'w gyfiawnhau ar sail polisi), yn ystod y cyfnod monitro cyfredol cynhwysai'r holl ganiatadau ar safleoedd o 5 neu fwy o unedau yn y prif drefi a'r aneddiadau gwledig eilaidd ddarpariaeth tai fforddiadwy.

Roedd gweddill y caniatadau a gofnodwyd yn y prif drefi a'r aneddiadau gwledig eilaidd ar gyfer safleoedd â chapasiti i lai na 5 uned ac, felly, yn is na'r trothwy o 35% a amlinellwyd ym Mholisi S4.

Yn amlwg, cyfarfuwyd â'r targed tai fforddiadwy o 35% ar 3 o'r 4 safle a ganiatawyd yn y prif drefi a'r aneddiadau gwledig eilaidd ac roedd cyfiawnhad clir am y gwyriad oddi ar y targed mewn perthynas â'r safle na chyfarfu â gofynion y polisi. Mae hyn yn awgrymu bod Polisi S4 yn gweithredu'n effeithiol wrth alluogi i gyflenwi anheddau fforddiadwy yn y prif drefi a'r aneddiadau gwledig eilaidd, eto seilir hyn ar 4 cais yn unig yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'n ofalus yr AMBau yn y dyfodol i benderfynu'i effeithioldeb wrth gyflenwi anheddau fforddiadwy. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu effeithioldeb y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4 mewn AMBau yn y dyfodol.

**Aneddiadau Glan Hafren**

Caniatawyd dau gais yng Nglan Hafren ar gyfer 5 neu fwy o anheddau dros y cyfnod monitro. Mae'r cyntaf o'r rhain mewn perthynas â'r safle strategol dynodedig ym Melin Bapur Sudbrook (SAH7) ar gyfer 212 o aneddiadau, 20 ohonynt yn unedau fforddiadwy. Mae'r aneddiadau fforddiadwy a gyflenwyd mewn perthynas â'r safle hwn, ar 9.4%, yn is na'r targed polisi o 25% yng Nglan Hafren. Mae, fodd bynnag, gyfiawnhad dros wyriad oddi ar Bolisi S4. Roedd y cynnig yn amodol ar brawf hyfywedd trylwyr a arweiniodd at asesydd annibynnol yn gwirio y byddai'r safle yn hyfyw'n ariannol yn unig gyda'r ddarpariaeth o fwy nag 20 o dai fforddiadwy. Derbyniwyd y safbwynt hwn gan y Cyngor.

Rhoddwyd caniatâd hefyd i safle'r Hen Iard Longau yn Sudbrook dros y cyfnod monitro, sy'n cyfrif am 46 o anheddau, 5 ohonynt yn unedau fforddiadwy. Ar 10.8%, mae'r anheddau fforddiadwy a gyflenwyd mewn perthynas â'r safle hefyd yn is na'r targed dynodedig o 25% yng Nglan Hafren. Fodd bynnag, mae'r gwyriad o'r targed hwn i'w gyfiawnhau. Tra daethpwyd â'r cais yn wreiddiol i'r Pwyllgor Cynllunio yn 2012, yn dilyn darparwyd astudiaeth hyfywedd a ddangosai na ddeuid â hwn ymlaen oni bai bod gofynion yr Adran 106 yn cael eu lleihau, gan gynnwys gostyngiad o 9 uned fforddiadwy i 5 uned. Yn gyffredinol, fe'i hystyriwyd yn hanfodol dwyn y safle ymlaen er mwyn cyfrannu at

| |
|---|
| gyflenwad tai'r Cyngor a darparu 5 uned fforddiadwy. Derbyniwyd y safbwynt gan y Cyngor.<br><br>Ta waeth, mae'r methiant i ddarparu'r lefel o dai fforddiadwy sy'n cydymffurfio â'r polisi (25%) ar y safleoedd hyn, yn benodol ar y safle strategol, ynghyd â chyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nglan Hafren, yn anffodus. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos y cymhlethdodau ynghlwm wrth ddatblygu safleoedd tir llwyd o'r fath. Ystyrir bod angen safleoedd ychwanegol haws eu datblygu yn yr ardal hon os yw targedau tai fforddiadwy i gael eu cyflawni. Bwriedir i'r mesurau a argymhellir yn y dadansoddiad o Bolisi S2 uchod gynyddu'r cyflenwad tai, a fyddai'n fuddiol i gyflenwi tai fforddiadwy.<br><br>Roedd y gweddill o'r caniatadau a gofnodwyd yn aneddiadau Glan Hafren ar gyfer safleoedd â chapasiti o lai na 5 annedd ac, felly, yn syrthio'n is na'r trothwy tai fforddiadwy a amlinellir ym Mholisi S4.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd o'r fath dros y cyfnod monitro nesaf er mwyn asesu gweithredu targedau tai fforddiadwy a ddynodwyd yn S4.<br><br>**Y Prif Bentrefi**<br>Caniatawyd tri chais dros y cyfnod monitro o fewn y Prif Bentrefi ar gyfer safleoedd 3 annedd neu fwy, dau ohonynt mewn perthynas â dyraniadau'r CDLl. Rhoddwyd caniatâd i ddyraniad y CDLl yn Shirenewton SAH11(xiv)(b) ar gyfer 5 annedd, 3 ohonynt yn unedau fforddiadwy. Mae'r cynllun ym Mhenallt SAH11(xii) yn safle mwy ac fe roddwyd caniatâd iddo ar gyfer 10 uned, 6 o'r unedau'n fforddiadwy. Cyflawnodd y ddau ganiatâd ar gyfer safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl y targed o 60% o unedau fforddiadwy. Roedd y cynllun ychwanegol gerllaw Clearview Court, Shirenewton mewn perthynas â chais Materion a Gedwir yn Ôl, y rhoddwyd y caniatâd Amlinellol ar ei gyfer cyn y CDLl ac roedd, felly, ar yr amser hwnnw yn cael ei ystyried yn erbyn polisïau blaenorol y CDU. Cyflawnodd y safle hwn o 7 uned 20% o dai fforddiadwy a oedd yn cyfateb i 1 uned a oedd yn gywir adeg y CDU.<br><br>Tra darparodd un o'r ceisiadau 20% o ddarpariaeth tai fforddiadwy'n unig, dyma oedd y gofyn cywir dan ddarpariaethau'r CDU. Darparodd y ddau gynllun CDLl 60% ac fe ystyrir, felly, y cyfarfuwyd â tharged y CDLl dros y cyfnod monitro, sy'n dangos bod Polisi S4 yn gweithredu'n effeithiol wrth alluogi cyflenwi tai fforddiadwy yn y Prif Bentrefi. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus er mwyn penderfynu effeithioldeb y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4 mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>**Pentrefi Llai**<br>Ni roddwyd caniatadau yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd bychain yn y Pentrefi Llai. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro safleoedd Pentrefi Llai er mwyn penderfynu effeithioldeb y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4. |
| 3. Caniatawyd dau gais dros y cyfnod monitro ar y safleoedd a neilltuwyd ac a ddynodwyd ym Mholisi SAH11, fel y cyfeiriwyd atynt uchod. Roedd y cais cyntaf a ganiatawyd mewn perthynas â'r dyraniad i'r gogledd o'r heol yn Shirenewton (SAH11(xiv)(b)) ar gyfer 5 annedd. Cyflawnodd y caniatâd y targed o 60% o unedau fforddiadwy (3 annedd). Nid oedd un o'r unedau fforddiadwy'n cael ei hadeiladu ar ddiwedd y cyfnod monitro. Roedd gwaith, fodd bynnag, wedi cychwyn ar y 2 uned marchnad. Rhagwelir, felly, y bydd yr unedau fforddiadwy wedi'u cwblhau mewn amser ar gyfer yr AMB nesaf. Rhoddwyd caniatâd |

cynllunio hefyd ym Mhenallt (SAH11(xii)) ar gyfer 10 uned,. Cyflawnodd y caniatâd hwn hefyd y targed o 60% o unedau fforddiadwy (6 annedd). Nid oedd un o'r unedau fforddiadwy'n cael ei hadeiladu ar ddiwedd y cyfnod monitro.

Cwblhawyd y safle gerllaw Ysgol Trellech (SAH11(xv)),y cyfeiriwyd ato yn AMB 2015 – 2016, yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Cyflenwyd cyfanswm o 9 annedd fforddiadwy yn y Prif Bentrefi ar safleoedd SAH11 dros y cyfnod monitro.

Yn ychwanegol at y safleoedd uchod, mae un cais Prif Bentref arall yn Llanishen wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol dros y cyfnod monitro yn amodol ar arwyddo cytundeb cyfreithiol (Adran 106). Mae nifer o Safleoedd Prif Bentref hefyd ar hyn o bryd o fewn y system gynllunio/cyn-ymgeisio a rhagwelir, felly, y bydd y rhain yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Yn ôl tystiolaeth, tra bu peth cynnydd gyda dyraniadau Prif Bentref, ni chyfarfuwyd â'r targed i'r safleoedd hyn gyda'i gilydd gyflenwi 20 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn. Mae'r safleoedd hyn wedi cyflenwi 9 uned fforddiadwy ers mabwysiadu'r CDLl sydd yn sylweddol brin o nod targed y CDLl. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud (gan gynnwys cyfarfodydd cyn-ymgeisio) wrth fynd rhagddo â nifer o'r safleoedd Prif Bentref a gaiff eu cofnodi yn yr AMB nesaf. Ymchwilir i'r diffyg cynnydd ar safleoedd Prif Bentref fel rhan o'r broses hon, gan gynnwys er enghraifft ddisgwyliadau afrealistig perchnogion tir mewn perthynas â gwerthoedd tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddadneilltuo'r safleoedd hynny nad ydynt yn mynd rhagddynt fel y bwriadwyd.

4. Ni chwblhawyd anheddau mewn perthynas â'r cynlluniau eithrio gwledig dros y cyfnod monitro. Mae'r safle adeiladu-eich-cartref-sengl-eich-hun, y cyfeiriwyd ato yn y ddau AMB blaenorol, yn datblygu ymhellach ond nid yw wedi'i gwblhau hyd yn hyn. Ni roddwyd unrhyw ganiatadau ychwanegol ar gyfer cynlluniau eithrio gwledig dros y cyfnod monitro. Bydd y Cyngor, ta waeth, yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn penderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â chynlluniau eithrio gwledig.

5. Mae'r sbardun ar gyfer cynnal profion hyfywedd ychwanegol mewn perthynas â'r targedau tai fforddiadwy a amlinellir ym Mholisi S4 yw cynnydd cyfartalog mewn prisiau tai o 5% neu fwy yn uwch na phrisiau sylfaenol tai yn 2012 a gynhaliwyd dros 2 chwarter.
Fel yr amlinellwyd yn Adran 3, mae data'r Gofrestrfa Dir yn dangos bod prisiau cyfartalog tai yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol, eto bod prisiau cyfartalog wedi syrthio rhwng chwarter diwethaf y cyfnod monitro blaenorol a chwarter cyntaf y cyfnod monitro cyfredol. Ar ôl hynny, roedd y prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2017 (Ionawr i Fawrth) ar £231,857 yn uwch na phris sylfaenol chwarter 4 yn 2012 (£188,720). Er gwaethaf hyn, ni chyfarfuwyd â'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Byddai cynnydd o 5% ym mhris sylfaenol chwarter 4 yn 2012 yn cyfateb i gynnydd o £9,436 a thra mae prisiau cyfartalog tai wedi cynyddu dros gyfnod monitro 2016-17, nid yw prisiau wedi codi i'r graddau hyn yn barhaus dros 2 chwarter. Y cynnydd mwyaf a gofnodwyd dros y cyfnod monitro oedd £5,053 rhwng chwarter 4 2016 a chwarter 1 2017. Felly, fel gyda'r AMBau blaenorol, ni fu newid arwyddocaol mewn prisiau cyfartalog tai i ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd mewn perthynas â Pholisi S4. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r tueddiadau prisiau

| |
|---|
| tai mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn penderfynu unrhyw oblygiadau posib ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithiol.<br><br>Dylid cydnabod hefyd, fodd bynnag, mai dim ond un ffactor yw prisiau tai a allai effeithio ar hyfywedd datblygiad. Byddai costau adeiladu, er enghraifft, hefyd wedi codi dros y cyfnod monitro. Tra na fanylir ar gostau adeiladu fel dangosydd monitro yn y CDLl, cedwir materion hyfywedd cyffredinol dan adolygiad fel y daw gwybodaeth ymlaen achos-wrth-achos ac mewn perthynas ag unrhyw waith hyfywedd strategol mewn perthynas â'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw oblygiadau pellach ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithiol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Ystyried cynnydd safleoedd y Prif Bentrefi fel rhan o broses Adolygu/Arolygu'r CDLl. |
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. N Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion craidd

[1] Dangosydd a Tharged yn seiliedig ar ardal gynllunio Sir Fynwy mewn perthynas â chais Materion a Gedwir yn Ôl a gymeradwywyd yn dilyn cais amlinellol a wnaed cyn mabwysiadu'r CDLl

****Cwblhau SAH11(xv) Tir gerllaw Ysgol Trellech 15 uned (9 uned fforddiadwy/6 marchnad gyffredinol) [DC/2015/00097]

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro /Canlyniad:** | Cadw'r cyfleusterau cymunedol a hamdden presennol a cheisio datblygu cyfleusterau ychwanegol |
| **Polisi Strategol:** | S5 Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1 & 5 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | CRF1, CRF3 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio | Dim targed*<br>*(2014-15: 9)*<br>*(2015-16: 5)* | Dim* | **4** |
| 2. Nifer y cyfleusterau cymunedol / hamdden a gollwyd | Lleihau colli cyfleusterau cymunedol/hamdden<br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 0)* | Colli unrhyw 1 cyfleuster cymunedol / hamdden mewn unrhyw 1 flwyddyn | **6** |

**Dadansoddiad**

1. Cymeradwywyd 4 cais cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro. Roedd un o'r pedwar cais yn ymwneud yn benodol â defnydd hamdden.

Roedd un o'r ceisiadau mewn perthynas ag estyniad defnydd hamdden yng Nghlwb Pêl-droed Goytre. Mae hwn yn darparu dau eisteddle chwaraeon gyda chyfanswm capasiti o 250 o seddau. Mae'n ofynnol i'r ddau eisteddle gydymffurfio â meini prawf Cymdeithas Pêl-droed Cymru er mwyn chwarae ar lefel benodol.

O'r 3 chyfleuster cymunedol a dderbyniodd ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro dim ond un oedd mewn perthynas â chais am newid defnydd. Rhoddwyd caniatâd i addasu annedd i feithrinfa gofal dydd yn Llan-ffwyst. Roedd cais arall mewn perthynas ag estyn Eglwys bresennol ym Melin Fach, tra mae hwn yn ymwneud ag estyniad ar raddfa fechan, bydd yn darparu gofod ychwanegol ynghyd â mynediad i gadair olwyn.

| |
|---|
| Mae’r cais sy’n weddill mewn perthynas â thŷ tafarn ym Mharc Busnes Castlegate, Cil-y-coed. Tra bydd hwn yn cefnogi busnesau lleol mae’n debygol o ddarparu cyfleusterau ychwanegol ar gyfer y gymuned ehangach yn ardal Portskewett a Chil-y-coed.<br><br>Roedd lleihad bychan yn nifer y cyfleusterau cymunedol / hamdden a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro (4 cyfleuster) pan gymerir hwy â’r AMBau blaenorol (5 cyfleuster). Fodd bynnag ar y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, nid oes unrhyw awgrym nad yw polisïau perthnasol y Cynllun yn gweithredu’n effeithiol. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro’r dangosydd hwn mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn penderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â’r mater hwn. |
| 2. Collwyd 6 chyfleuster cymunedol dros y cyfnod monitro. Roedd pum cais mewn perthynas ag ailddatblygu preswyl. Roedd dau gais mewn perthynas â cholli cyfleusterau cymunedol i anheddau sengl, collwyd Siop Grefftau yn Llanellen a meithrinfa yn Portskewett. Parthed cais Llanellen, nodwyd bod siop bob peth gyferbyn sy’n gwerthu bwydydd sylfaenol ac y byddai colli’r siop grefftau wedyn yn unol â CRF1. Collwyd tŷ tafarn hefyd yn Nhyndyrn yn ystod y cyfnod monitro i addasiad i mewn i 2 annedd. Roedd nifer o gyfleusterau eraill eraill yn y pentref yn darparu bwyd a diod, fodd bynnag, felly roedd cydymffurfiaeth â pholisi CRF1, a dangosodd y wybodaeth a gyflwynwyd gyda’r cais fod y busnes yn anhyfyw’n ariannol. Roedd y ddau gais oedd yn weddill mewn perthynas â chynlluniau ailddatblygu preswyl mwy sylweddol yn Y Fenni yn The Hill a Choed Glas. Canolfan Addysg oedd The Hill yn flaenorol, a pheidiodd y defnydd ohoni yn 2009. Dangosodd Coleg Gwent nad oedd angen y safle arnynt mwyach ac felly cafwyd gwared ohono. Cefnogwyd yr egwyddor o ddatblygiad o ganlyniad I’w leoliad o fewn y ffin ddatblygu. Caeodd swyddfeydd blaenorol yr Awdurdod Lleol yng Nghoed Glas yn 2013. Mae’r safle wedi’i neilltuo o fewn y CDLl ar gyfer oddeutu 60 o anheddau. Cefnogwyd, felly, egwyddor datblygu.<br><br>Roedd y cais olaf mewn perthynas â newid defnydd rhan o Dafarn The King of Prussia, Penpergwm, a’i gwrtil i fusnes gwerthu a thrwsio peiriannau amaethyddol. Nodir gan fod y cais yn ymwneud yn unig â’r gyn-ystafell swyddogaethau, gellid ail-ddefnyddio ardaloedd y bar gwreiddiol a’r lolfa fel tafarn/bwyty yn y dyfodol.<br><br>Tra dengys y data a gasglwyd bod nifer o gyfleusterau cymunedol wedi cael eu colli i ddefnyddiau amgen dros y cyfnod monitro ac wedyn fe gyfarfuwyd â’r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn, cyfiawnheir eu colli o fewn cyd0destun a gofynion fframwaith polisi’r CDLl. O ganlyniad bydd y Cyngor yn dal i fonitro cynigion o’r fath mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn penderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â’r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Ni chyfrifwyd yn addas gynnwys targed/sbardun ar gyfer y dangosydd hwn o ystyried , mewn rhai achosion, fod y Cyngor yn edrych i leihau’r nifer o gyfleusterau cymunedol neu ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfleusterau sy’n bodoli eisoes

## Manwerthu

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Cyfeirio datblygiad bwyd newydd a manwerthu heb fod yn swmpus i ganol trefi'r Sir a chanolfannau lleol a cheisio gwella'u bwyiogrwydd, eu helfennau atyniadol a'u hyfywedd. |
| **Polisi Strategol:** | S6 Manwerthu |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1 & 2 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | RET1-RET4 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiynau diwygiedig o Bennod 10 o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cynllunio Technegol 4 (Datblygiadau Manwerthu a Masnachol) yn Nhachwedd 2016.Diweddarwyd y dogfennau i adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol. Mae'r prif feysydd newid yn cynnwys amcanion diwygiedig ar gyfer polisi cynllunio manwerthu, pwyslais cryfach ar yr angen i bolisïau manwerthu gael eu llunio gan strategaeth fanwerthu yn y CDLliau (yn cael eu gwneud yn gyflawn gan brif gynllun a chynlluniau lle er mwyn bod o gymorth wrth gyflenwi'r strategaeth), y gofyn i Gynlluniau Datblygu Lleol amlinellu hierarchaeth o ganolfannau a pholisïau diwygiedig yn tarddu'n lleol i ymdrin â defnyddiau/chanolfannau newydd sy'n profi newid ac agwedd gyson at derminoleg. Fodd bynnag, mae'r polisi sydd angen ystyried canolfannau manwerthu a masnachol yn gyntaf ar gyfer defnyddiau manwerthu a chyflenwol yn dal, yn union fel y deil y gofynion ar gyfer anghenion manwerthu, profion dilyniannol ac asesiadau effaith lle bo'n briodol. Nid yw'r diwygiadau'n arwain at yr angen i wneud addasiadau i bolisïau cyfredol y CDLl, fodd bynnag, caiff y canllawiau diwygiedig eu hystyried mewn unrhyw Adolygiadau/Arolygon y CDLl yn y dyfodol.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Swmp y bwyd newydd a'r datblygiadau manwerthu nwyddau nad ydynt yn swmpus a ganiatawyd mewn canol trefi/ canolfannau lleol fel cyfran o'r holl ddatblygiadau manwerthu a ganiatawyd | 90% o arwynebedd llawr bwyd newydd a manwerthu heb fod yn swmpus i'w lleoli mewn canol trefi/canolfannau lleol<br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 53.2%)* | Caiff mwy na 10% o arwynebedd llawr manwerthu bwyd a nwyddau nad ydynt yn swmpus eu datblygu y tu allan i ganol trefi/ganolfannau lleol mewn unrhyw 1 flwyddyn | **33% o arwynebedd llawr a ganiatawyd mewn canol trefi/canolfannau lleol *** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Canran yr unedau gwag o fewn CSA pob tref a chanolfan leol ** | Dim cynnydd yn nifer yr unedau gwag: | Cyfradd gwacter mewn canol tref/canolfan leol yn cynyddu am 2 flynedd yn olynol | |
| | **a) Y Fenni** *(2014: 5.1%)* *(2015: 5.8%)* | | **8.7%** |
| | **b) Cil-y-coed** *(2014: 9.2%)* *(2015: 7.6%)* | | **10.1%** |
| | **c) Cas-gwent** *(2014: 9.0%)* *(2015: 10%)* | | **7.1%** |
| | **d) Trefynwy** *(2014: 8.3%)* *(2015: 7.9%)* | | **4.9%** |
| | **e) Magwyr** *(2014: 9.1%)* *(2015: 0%)* | | **0%** |
| | **f) Rhaglan** *(2014: 0%)* *(2015: 0%)* | | **0%** |
| | **g) Brynbuga** *(2014: 7.8%)* *(2015: 11.1%)* | | **13.1%** |
| 3. Canran y defnyddiau A1 ym mhrif ffryntiadau siopa'r Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy *** | % y defnyddiau A1 heb fod yn llai na'r trothwyon a ddynodwyd ar gyfer y prif ffryntiadau siopa'r trefi fel y diffiniwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Prif Ffryntiadau Siopa ** | % y ffigurau ar gyfer prif ffryntiad siopa sy'n syrthio'n is na'r trothwy a amlinellir yn y CCA | |
| | **a) Y Fenni** • PSF1 Stryd y Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore & 1 Stryd Nevill ***(Targed 75%)*** *(2014: 76%)* *(2015: 77%)* | | • **76%** |
| | • PSF2 Cibi Walk ***(Targed100%)*** *(2014: 100%)* *(2015: 100%)* | | • **100%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • PSF3 Stryd y Groes (51-60&Neuadd y Drefl) ***(Targed 55%)*** *(2014: 36%)* *(2015: 36%)* | | • **36%** |
| | **b) Cil-y-coed** • PSF4 Heol Casnewydd ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* | | • **65%** |
| | **c) Cas-gwent** • PSF5 Stryd Fawr ***(Targed 75%)*** *(2014: 80%)* *(2015: 80%)* | | • **80%** |
| | • PSF6 Stryd y Santes Fair ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* | | • **65%** |
| | **d) Trefynwy** • PSF7 Stryd Monnow ***(Targed 75%)*** *(2014: 77%)* *(2015: 76%)* | | • **72%** |
| | • PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt & Stryd y Priordy (1-4 ***(Targed 65%)*** *(2014: 57%)* *(2015: 57%)* | | • **62%** |

**Dadansoddiad**

1. Caniatawyd saith cais ar gyfer datblygiadau manwerthu dros y cyfnod monitro, pedwar ohonynt ar gyfer defnydd manwerthu A1 mewn lleoliadau canol tref (un yn Y Fenni [289 metr sgwâr], dau yng Nghas-gwent [cyfanswm o 86 metr sgwâr] ac un yng Nghil-y-coed [143 metr sgwâr]). Roedd y caniatadau eraill ar gyfer lleoliadau y-tu-allan-i'r-canol, yn cynnwys 4 uned manwerthu yn Heol Rockfield, Trefynwy [757 metr sgwâr] a hyd at 4 uned manwerthu ym Mharc Busnes Castlegate, Cil-y-coed [200 metr sgwâr]. Roedd hefyd estyniad i'r gofod manwerthu yng Nghanolfan Arddio Brynbuga [110 metr sgwâr].

Felly, caniatawyd 33% o holl arwynebeddau llawr manwerthu newydd mewn canol

trefi/canolfannau lleol a 67% y tu allan i ganol trefi, sy'n golygu y cyfarfuwyd â'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r gofod llawr manwerthu y-tu-allan-i'r-canol a ganiatawyd mewn perthynas â'r ddau gais yn Heol Rockfield, Trefynwy a Pharc Busnes Castlegate, Cil-y-coed – y ddau ohonynt heb gael eu hystyried yn gwrthdaro â pholisïau manwerthu'r CDLl. Parthed y caniatâd am 4 uned manwerthu yn Heol Rockfield, Trefynwy, ystyriwyd y cynnig yn dderbyniol yn nhermau polisi cynllunio manwerthu. Cafodd y datblygiad arfaethedig ei gyfiawnhau yn y cyd-destun ei fod yn gyfleuster lleol i wasanaethu anghenion preswylwyr Heol Rockfield h.y. o raddfa briodol i weithredu fel cyfleuster lleol a byddai'n darparu rhai o anghenion siopa dydd-i-ddydd y preswylwyr lleol. At hynny, fe'i hystyriwyd yn annhebygol iawn y byddai'r gofod llawr nwyddau cyfleus yn cystadlu gyda'r siopau canol tref. Ystyriwyd y datblygiad, felly, yn briodol o gofio amgylchiadau'r cais.

Yn yr un modd, ystyriwyd y cynnig ar gyfer hyd at bedair uned manwerthu ym Mharc Busnes Castlegate, Cil-y-coed i fod yn dderbyniol yn nhermau polisi cynllunio manwerthu am y rhesymau canlynol. Mae gwir angen yr unedau manwerthu bychain i wasanaethu deiliaid y safle cyflogaeth a'r gweithwyr ar y parc busnes /ystâd ddiwydiannol amgylchynol. Parthed hyfywedd a bywiogrwydd Canol Tref Cil-y-coed, ystyriwyd y byddai'r trosiant yn deillio o'r unedau manwerthu arfaethedig yn symol iawn ac na fyddai'n tynnu oddi ar fasnach swyddogaeth y canol tref gan ei fod yn darparu ar gyfer marchnad wahanol. Mae'r safle arfaethedig mewn lleoliad hygyrch iawn ac yn weddol hygyrch i gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus. Ystyriwyd bod y cynnig, felly, yn cydymffurfio â meini prawf a) i d) Polisi RET4 y CDLl. Mae'r caniatâd yng Nghanolfan Arddio Brynbuga ar gyfer estyniad rhesymol i'r uned yno eisoes ac nid ystyriwyd ei fod yn gwrthdaro â pholisïau manwerthu'r CDLl.

Caiff y datblygiadau y-tu-allan-i'r-dref, felly, eu hystyried yn briodol o gofio amgylchiadau'r ceisiadau ac fe'u cyfiawnheir o fewn cyd-destun fframwaith polisi cynllunio manwerthu'r CDLl.

At hynny, mae'r ffaith bod pedwar caniatâd weddi'u rhoddi ar gyfer defnydd manwerthu A1 o fewn 3 o ganol trefi'r Sir yn welliant ar berfformiad y flwyddyn ddiwethaf pan gofnodwyd ond un caniatâd o'r fath.

Yng ngoleuni'r uchod, ystyrir nad oes unrhyw bryderon gyda gweithredu polisïau manwerthu'r CDLl ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn mewn AMBau yn y dyfodol er mwyn penderfynu effeithioldeb fframwaith polisi'r Cynllun.

2. Roedd cyfraddau gwacter yn ystod y cyfnod monitro ** ym mhob un ond un o ardaloedd siopa canolog (ASC) y Sir yn is na chyfradd wacter y DU (12.2% Rhagfyr 2016, Cwmni Data Lleol).Safai'r gyfradd wacter ym Mrynbuga ar 13.1%, sydd er yn uwch na chyfradd wacter manwerthu'r DU, roedd yn is na chyfradd Cymru o 15.2% (Rhagfyr 2016, Cwmni Data Lleol). Amrywiai'r cyfraddau gwacter manwerthu yng nghanol trefi eraill y Sir o 0% ym Magwyr a Rhaglan i10.1% yng Nghil-y-coed.

Mae cymhariaeth â chyfraddau gwacter y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod 2 ganolfan wedi gweld cwymp mewn cyfraddau gwacter – Cas-gwent (10% i 7.1%) a Threfynwy (7.9% i 4.9%) – tra cynhaliodd Rhaglan ynghyd â Magwyr gyfradd gwacter o 0%, sy'n awgrymu bod y canolfannau hyn yn perfformio'n arbennig o dda. Yn gyferbyniol, cofnododd 3 canolfan gynnydd mewn cyfraddau gwacter ers y cyfnod monitro blaenorol – Y Fenni (5.8% i 8.7%), Cil-y-coed (7.6% i 10.1%) a Brynbuga (11.1% i 13.1%).

| |
|---|
| Gan fod y gyfradd gwacter yng nghanol trefi'r Fenni a Brynbuga wedi codi am 2 flynedd yn olynol cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, bu'r codiadau hyn yn ddigon rhesymol ac nid ydynt yn codi unrhyw bryderon o bwys ynghylch hyfywedd a bywiogrwydd y canolfannau. At hynny, o ystyried bod cyfraddau gwacter yr holl ganolfannau hyn yn y bôn yn isel, a'r mwyafrif yn is na chyfradd manwerthu'r DU, a'r cyfan yn is na chyfradd Cymru gyfan, mae canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy'n gweithio'n effeithiol. Mae newidiadau diweddar i ardrethi busnes, fodd bynnag, yn achos pryder. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro lefelau gwacter mewn AMBau i benderfynu tueddiadau. |
| 3. Mae canran y defnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa'r trefi (PFfS) a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro** yn gyffredinol yn unol â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Prif Ffryntiadau Siopa. Gosodwyd y trothwyon dynodedig mewn dau o'r PFfS ar lefelau uwch na'r lefel bresennol o ddefnyddiau manwerthu nad ydynt yn A1 am fod dyhead o wella'u cynnig manwerthu h.y. PSF3 Stryd y Groes (51-60 &Neuadd y Drefl) Y Fenni a PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr &Stryd Priordy (1-4) Trefynwy. Tra na fu unrhyw newid yng nghyfran y defnyddiau manwerthu o PSF3 Stryd y Groes(51-60 &Neuadd y Dref) Y Fenni ers y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd yng nghyfran y defnyddiau manwerthu A1 o fewn PSF 8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt & Stryd Priordy (1-4) Trefynwy, o 57% i 62%, sy'n dangos bod cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r trothwy dynodedig o 65% o fewn y ffryntiad hwn. Ta waeth, erys yn bwysig y cynhelir safiad polisi cryf ar gynigion am newid defnydd i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai manwerthu yn y ffryntiadau hyn er mwyn gwella'u cynnig manwerthu.<br><br>Mae cymhariaeth â ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf yn dangos i gyfradd defnyddiau A1 o fewn prif ffryntiadau siopa'r trefi wedi aros yn ddigyfnewid ac eithrio'r canlynol:<br>• Cofnododd PFfS1 Stryd y Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore ac 1 Stryd Nevill, Y Fenni newid ymylol, lawr o 1% i 76%. Roedd hyn o ganlyniad i newid defnydd uned wag A1 i uned defnydd A3 yn 43 Stryd Frogmore a ystyriwyd i fod yn cydymffurfio â pholisi[2]. Er gwaethaf hyn, mae cyfradd yr unedau A1 o fewn y ffryntiad hwn yn dal yn uwch na'r trothwy dynodedig o 75%.<br>• Cofnododd PSF7 Stryd Monnow, Trefynwy hefyd leihad yng nghyfradd yr unedau A1dros y cyfnod monitro, lawr 4% i 72%, sy'n ymylol is na'r trothwy dynodedig o 75%. Roedd y lleihad yn nifer yr unedau A1 o fewn y ffryntiad hwn o ganlyniad i newid defnydd tir uned A1 i ddefnyddiau amgen (heb fod yn ddefnyddiau A1). Er gwaethaf hyn, nid ystyrir bod unrhyw bryder gyda gweithredu polisïau manwerthu'r CDLl mewn perthynas â phrif ffryntiadau siopa. Cofnododd Stryd Priordy (1-4) Trefynwy gynnydd yng nghyfradd defnyddiau A1, i fyny 5% i 62% (fel yr amlinellir uchod).<br><br>At ei gilydd, ystyrir bod prif ffryntiadau siopa'r trefi'n hyfyw ac yn fywiog ac yn gweithredu'n dda ac nad oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb fframwaith polisi manwerthu'r Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

[2] DC/2014/00224

| |
|---|
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*7 rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu dros y cyfnod monitro, 4 lleoliad mewn canol trefi a 3 mewn lleoliad allan-o'r-canol.

**Papur Cefndir Manwerthu Sir Fynwy (Mawrth 2017).Bas data Hydref 2016.

***CCA Prif Ffryntiadau Siopa Sir Fynwy, Ebrill 2016,

## Economi a Menter

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth a diogelu tir cyflogaeth y Sir |
| **Polisi Strategol:** | S8 Economi a Menter, S9 Darpariaeth o Safleoedd Cyflogaeth |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 7 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | E1-E3, RE1, SAE1-SAE2 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflenwad/datblygiad tir cyflogaeth net ♦ | Cynnal digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r gyfradd dderbyn ddynodedig o 1.9 hectar y flwyddyn<br>*(2014-15: 46.8ha)*<br>*(2015-16: 41.18ha)* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gwrdd â'r gyfradd dderbyn ddynodedig o 1.9 hectar y flwyddyn | **40.76 hectar** |
| 2. Cyfradd dderbyn tir cyflogaeth ♦ | Cynnal digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r gyfradd dderbyn ddynodedig o 1.9 hectar y flwyddyn<br>*(2014-15: 46.8ha)*<br>*(2015-16: 41.18ha)* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gwrdd â'r gyfradd dderbyn ddynodedig o 1.9 hectar y flwyddyn | **3.21 hectar** |
| 3. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd (yn ôl math) ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd fel y dynodwyd ym Mholisi SAE1♦ | Dim targed penodol N<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 3)* | Diffyg datblygiad ar safleoedd cyflogaeth strategol a ddynodwyd ym Mholisi SAE1 erbyn diwedd 2017 | **Rhoddwyd 2 ganiatâd cynllunio** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yn ôl anheddiad | Dim targed penodol | Dim | |
| | **Prif Drefi**<br>*(2014-15: 9.hectar)*<br>*(2015-16: 0.95ha)* | | **0.52 hectar** |
| | **Aneddiadau Glan Hafren**<br>*(2014-15: 0.39ha)*<br>*(2015-16: 2.83ha)* | | **0.17 hectar** |
| | **Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>*(2014-15: 0.3ha)*<br>*(2015-16: 0.48ha)* | | **0.01 hectar** |
| | **Gwledig Eilaidd**<br>*(2014-15: 0.25ha)*<br>*(2015-16: 0.22ha)* | | **1.14 hectar** |
| 5. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B♦♦) yn ôl sector*/** | Dim targed penodol | Dim | |
| | Gweithgynhyrchu | | **0.07 hectar** |
| | Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur | | **0.42 hectar** |
| | Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu | | **0.82 hectar** |
| | Gweithgareddau eiddo tirol; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cefnogi | | **0.41 hectar** |
| | Gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd | | **0.02 hectar** |
| 6. Swm y tir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth (h.y. heb fod yn ddefnyddiau B1, B2, B8) | Lleihau colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau nad ydynt yn B1, B2, B8<br><br>*(2014-15: 0.08ha)*<br>*(2015-16: 0.56ha)* | Colli unrhyw dir cyflogaeth B1, B2 neu B8 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **0.65 hectar** |
| 7. Cyfradd y gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy | Cynyddu cyfradd y gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy<br>*(2014: 54.5%)*<br>*(2015: 58.3%)* | Dim | **57.9%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. Nifer y bobl yn mewn-gymudo i Sir Fynwy ♦♦♦ | Lleihau lefel y mewn-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,200)*<br>*(2015: 17,800)* | Dim | **20,400** |
| Nifer y bobl yn all-gymudo o Sir Fynwy ♦♦♦ | Lleihau lefel yr all-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,600)*<br>*(2015: 18,700)* | Dim | **18,700** |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Ar hyn o bryd mae 40.76 hectar o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir. Mae’r ffigur hwn yn is nag yn yr AMB blaenorol (41.18 hectar) sy’n cyfrif am y datblygiadau sydd ar hyn o bryd yn mynd rhagddynt ar y dyraniadau SAE1 yn Quaypoint, Magwyr (SAE1b) ar y cyd â Bragdy Magwyr a Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d).<br><br>Mae digon o dir cyflogaeth, felly, wedi cael ei gynnal dros y cyfnod monitro yn darparu’r cyfle i gwrdd â’r gyfradd dderbyn ddynodedig o 1.9 hectar y flwyddyn. Mae Polisïau S8 a S9 yn gweithio’n effeithiol yn y cyswllt hwn. |
| 2. Tra mae digon o dir ar gael ar draws y Sir, roedd cyfradd dderbyn tir cyflogaeth (h.y. datblygiadau a gwblhawyd) yn gyfyngedig i 3.21 hectar dros y cyfnod monitro. Cyfrifir y rhan fwyaf o hyn i gyfradd derbynnir ar safleoedd a neilltuwyd yn Quaypoint, Magwyr (2.54 hectar) a Pharc Busnes Westgate (0.32 hectar). Roedd y gweddill mewn perthynas â safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd (SAE2). Roedd y gyfradd fwyaf o hwn (0.24 hectar) mewn perthynas â chwblhau canolfan ailgylchu fechan / cyfleuster storio yn Heol yr Undeb yn Y Fenni. Ymgymerwyd â datblygiad ychwanegol ym Mragdy Magwyr (0.11 hectar) i helpu gyda’u cynlluniau ehangu.<br><br>Mae’r gyfradd dderbyn yn sylweddol uwch na’r ddau AMB blaenorol (0.38 hectar 2014-2015 ac 1.131 hectar 2015 -2016 yn y drefn honno). Eto mae digon o dir cyflogaeth ar gael, cyfradd fawr ohono yn cael ei leoli ym Magwyr, ar hyd coridor yr M4 yn darparu cyfle arbennig i sicrhau buddsoddiad. Rhagwelir cyfradd dderbyn debyg yn y cyfnod monitro nesaf o ganlyniad i ddatblygiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Heol Wonastow, Trefynwy, Parc Cendl, Cas-gwent a Westgate, Llan-ffwyst.<br><br>Mae’r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach mewn perthynas â chyfanswm y cyflenwad tir yn hytrach na chyfraddau derbyn. Ta waeth, bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro’n ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â thir cyflogaeth. |
| 3. Cafodd dau gais ganiatâd cynllunio ar safleoedd a neilltuwyd a ddynodwyd yn SAE1 yn ystod y cyfnod monitro. Caniatawyd cyfanswm o 0.42 hectar yn yr unig safle oedd ar gael ym Mharc Cendl, Cas-gwent (SAE1i) ar gyfer codi adeilad B1/B8 gyda swyddogaeth masnach manwerthu. Roedd y cais yn wreiddiol mewn perthynas â 9 uned yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 2040 metr sgwâr, ta waeth caniatawyd amrywiad amod hefyd |

| | |
|---|---|
| dros y cyfnod monitro i ganiatáu i unedau 1-5 gael eu defnyddio gan ddeiliad sengl ar gyfer defnydd B1.<br><br>Roedd y cais arall mewn perthynas â datblygu Westgate, Llan-ffwyst ar gyfer Cartref Gofal. Bydd y Cartref Gofal yn cwmpasu cyfanswm arwynebedd o 0.6 hectar a thra nad yw mewn gwirionedd yn ddefnydd cyflogaeth traddodiadol mae posibilrwydd i'r Cartref Gofal ddarparu'r hyn sy'n cyfateb i 76 o swyddi llawn amser.<br><br>Tra bu cynnydd cyfyngedig ar gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol dros y cyfnod monitro bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â chyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol. Yng ngoleuni hyn, y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yw diffyg datblygiad ar safleoedd cyflogaeth strategol a ddynodwyd ym Mholisi SAE1 erbyn diwedd 2017. Felly, rhoddir ystyriaeth arbennig i'r dangosydd hwn yn yr AMB nesaf. |
| 4. Mae'r dangosydd hwn yn ceisio monitro maint yr arwynebedd llawr ar gyfer dosbarthiadau defnydd B yn ôl anheddiad yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd 17 o geisiadau ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, cyfanswm o 2.26 o hectarau. O'r rhain, roedd 7 caniatâd ar safleoedd cyflogaeth wedi'u diogelu (safleoedd SAE2) yn gwneud cyfanswm o 0.23 o hectarau ac roedd 9 caniatâd ar dir heb ei neilltuo i gyflogaeth yn gwneud cyfanswm o 1.61 hectar. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer defnydd B ar safle busnes a diwydiant dynodedig ym Mharc Cendl, Cas-gwent (SAE1i), yn gwneud cyfanswm o 0.42 hectar.<br><br>Cyfrifai ardaloedd gwledig am fwyafrif arwynebedd llawr dosbarth defnydd B a gafodd ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro, yn gwneud cyfanswm o 1.14 hectar. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r caniatâd ar gyfer defnydd B (storio llawr caled) gerllaw'r safle cyflogaeth a ddiogelir ym Mharc Technoleg Mamheilad (SAE2v) a gyfrifai ar 0.81 hectar am y gyfradd eang o arwynebedd llawr a ganiatawyd mewn ardaloedd gwledig. Caniatawyd 0.29 hectar ychwanegol yn St Arvans (newid defnydd B2 i storio/drwsio cerbydau modur) ac 0.01 hectar yng Ngrysmwnt (swyddfa B1 i wasanaethu busnes eisoes wedi'i sefydlu yn y cartref). Roedd hefyd ganiatâd ar gyfer defnydd storio B8 yn anheddiad gwledig eilaidd Brynbuga (Heol Cas-gwent 0.01 hectar).<br><br>Roedd y caniatadau cyflogaeth (dosbarth defnydd B) yn gwneud cyfanswm o 0.94 hectar ym mhrif drefi'r Sir:<br>• 0.77 hectar yng Nghas-gwent yn cynnwys adeilad B1/B8 gyda swyddogaeth masnach manwerthu ym Mharc Cendl SAE1i [0.42 hectar], estyniad o swyddfa B1 yn Ystâd Ddiwydiannol Fferm Newhouse SAE2k [0.052 hectar] a swyddfa adeiladau B1 yn Ystâd Wyelands [0.3 hectar].<br>• Caniatawyd 0.14 hectar yn Y Fenni yn cynnwys newid defnydd B1 yng Ngwesty'r Alarch [0.04 hectar] a newid defnydd B1 yn Nevill Lodge [0.1 hectar].<br>• 0.03 hectar yn Nhrefynwy yn cynnwys newid defnydd B1 yn Stryd y Santes Fair [0.017 hectar] ac estyniad i weithdy B2 yn Ystâd Ddiwydiannol Heol Wonastow SAE2l [0.013 hectar].<br><br>Roedd hefyd nifer o ganiatadau cyflogaeth dosbarth defnydd B yng Nglan Hafren, yn gwneud cyfanswm o 0.17 hectar:<br>• 0.1 hectar yn Ystâd Ddiwydiannol Pont Hafren SAE2p, Cil-y-coed yn cynnwys estyniad i |

weithdy B1 [0.0025 hectar], newid defnydd B2 i weithdai MOT [0.09 hectar] a newid defnydd B2 ardal baratoi bwyd [0.005 hectar].
- 0.07 hectar Ym Mragdy Magwyr SAE2o yn cynnwys estyniad B2 i adeilad potelu [0.02 hectar] ac estyniad B8 i warws [0.05 hectar]).

Er nad oes targed penodol mewn perthynas â'r dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn eiddgar i fonitro'r caniatadau cyflogaeth ar gyfer defnyddiau B yn y Sir. Mae swm yr arwynebedd llawr cyflogaeth a ganiatawyd yn is na'r hyn a gofnodwyd yn yr AMB diwethaf (4.48 hectar a oedd i'w briodoli'n bennaf i'r caniatadau cynllunio a roddwyd ym Mragdy Magwyr SAE1b/ SAE2o, cyfanswm o 2.83 hectar). Ta waeth, mae'r swm cronnol o arwynebedd llawr a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLl wedi gwella ymhellach y swm o dir cyflogaeth yn Sir Fynwy. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn mewn AMBau yn y dyfodol.

Tra mae dangosyddion 4 a 5 yn yr adran hon mewn perthynas â dosbarthiadau defnydd B, mae'n ddefnyddiol nodi i nifer o ganiatadau gael eu rhoddi ar gyfer defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth eraill (h.y. defnyddiau heb fod yn ddefnyddiau B) yn ystod y cyfnod monitro, yn gwneud cyfanswm o 1.52 hectar, sy'n dangos bod amrywiaeth o ddefnyddiau cynhyrchu cyflogaeth eraill yn ymddangos. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleuster gofal yn y safle busnes a diwydiant dynodedig yn Westgate, Llan-ffwyst SAE1d (0.6 hectar), meithrinfa ddydd i blant yn y safle cyflogaeth a ddiogelir (SAE2c) yn Heol yr Undeb, Y Fenni (0.85 hectar), campfa yn y safle cyflogaeth a ddiogelir (SAE2i) yn Heol Bulwark, Cas-gwent (0.06 hectar) a chais sui generis ar gyfer gweithdy stiwdio yn Llanishen (0.01 hectar).

Yn ychwanegol, fel y manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S11 (Economi Ymwelwyr) cymeradwywyd 24 o geisiadau ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt ar gyfer cyfleusterau llety i dwristiaid yn amrywio o osod eiddo ar gyfer gwyliau i lety glampio mewn gwahanol aneddiadau ar draws y Sir. Bydd y rhain yn darparu hwb pellach i'r economi ymwelwyr yn Sir Fynwy.

5. Mae'r dangosydd hwn yn ceisio monitro cyfran yr arwynebedd llawr ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd yn Sir Fynwy yn ôl sector. Cyfrifai defnyddiau B8 am fwyafrif yr arwynebedd llawr o'r fath a ganiatawyd (0.87 hectar), yn cael eu dilyn gan ddefnyddiau B1 (0.55 hectar) a defnyddiau B2(0.42 hectar. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer defnydd B1/B8 gyda swyddogaeth masnach ym Mharc Cendl, Cas-gwent (0.42 hectar). Mae hyn i'w gymharu ag AMB y flwyddyn ddiwethaf pan gyfrifai defnyddiau B8 am fwyafrif yr arwynebedd llawr a ganiatawyd.

Gan droi'n fwy penodol at y sectorau cyflogaeth, yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (DDS) 2007, roedd y caniatadau cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B dros y cyfnod monitro yn y sectorau canlynol**:

- Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (0.82 hectar)
- Masnach gyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur/beiciau modur (0.42 hectar)
- Gweithgareddau eiddo tirol; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cefnogi (0.41 hectar)
- Gweithgynhyrchu (0.07 hectar)
- Gwasanaethau llety a bwyd (0.02 hectar)

| |
|---|
| Dengys y data, tra roedd y sector trafnidiaeth/storio a'r sector gwybodaeth/cyfathrebu yn cyfrif am 2 ganiatâd yn unig, cyfrifai am ychydig dan hanner yr arwynebedd cyflogaeth (45%) a gafodd ganiatâd dros y cyfnod monitro. Gellid disgwyl hyn gan fod defnyddiau trafnidiaeth/storio yn nodweddiadol â gofynion arwynebedd llawr, fel y cafwyd tystiolaeth yn y caniatâd i'r cyfleuster storio ym Mamheilad a gyfrifai am y swmp arwynebedd llawr yn y sector hwn. Gyda'i gilydd cyfrifai'r sectorau masnach gyfanwerthu / fanwerthu; trwsio cerbydau modur/beiciau modur a gweithgareddau eiddo tirol; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a'r gweithgareddau gwasanaeth cefnogi am fwyafrif y caniatadau (4 yr un) a chyfrifent am 45% o'r arwynebedd llawr a ganiatawyd (22.8% a 22.2% yn y drefn honno). Roedd 3 chaniatâd pellach yn y sector gweithgynhyrchu a gyfrifai am 3.8% o'r arwynebedd llawr yn unig a 2 ganiatâd yn y sector gwasanaethau llety / bwyd (1.1% o'r arwynebedd llawr a ganiatawyd).<br><br>Mae hyn yn cyferbynnu ag AMB y flwyddyn ddiwethaf pan gyfrifai'r sector gweithgynhyrchu am fwyafrif y caniatadau cyflogaeth.<br><br>Tra nad oes unrhyw darged penodol mewn perthynas â'r dangosydd hwn mae'r Cyngor yn monitro sectorau cyflogaeth yn y Sir. Bydd hyn o gymorth i benderfynu a yw uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer tyfu'r sectorau economaidd allweddol, gan gynnwys mentrau gwybodaeth dwys / technoleg uwch, yn cael eu cyflawni. Mae cymharu â'r ddau AMB blaenorol yn dangos y bu cynnydd mewn caniatadau ac arwynebedd llawr yn y sectorau masnach gyfanwerthu / fanwerthu; trwsio cerbydau modur/beiciau modur a gweithgareddau eiddo tirol; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a'r gweithgareddau gwasanaeth cefnogi a llai o ganiatadau/arwynebedd llawr yn y sector gweithgynhyrchu.<br><br>Fel y nodwyd uchod, cafodd nifer o ganiatadau gael eu rhoddi ar gyfer defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth eraill (h.y. defnyddiau heb fod yn ddefnyddiau B) yn ystod y cyfnod monitro parthed y sectorau cyflogaeth, ond mae'n bwysig cydnabod bod mwyafrif y rhain yn y sectorau celfyddydau, adloniant a hamdden, caniatadau sectorau gwasanaeth eraill, (3 chaniatâd, 0.92 hectar), gyda chaniatâd pellach yn y sector iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (0.6 hectar). Mae hyn yn dangos bod sectorau eraill sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn ymddangos yn Sir Fynwy. |
| 6. Cymeradwywyd dau gais yn ymwneud â cholli tir cyflogaeth dosbarth defnydd B yn ystod y cyfnod monitro, yn gwneud cyfanswm o 0.65 hectar. Roedd y cais cyntaf mewn perthynas â chyfleuster gofal (Dosbarth Defnydd C2), 0.6 hectar, yn y safle busnes a diwydiant dynodedig yn Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d) a neilltuwyd ar gyfer defnyddiau B1 a B2). Yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad marchnata a gyflwynwyd gyda'r cais, a ddangosai fod rhai ymholiadau wedi'u gwneud am lety defnydd B1/B2 ar y safle a byddai problemau hyfywedd gyda sicrhau defnyddiau B ar y safle, ystyriwyd y byddai colli'r safle o'i ddyraniad dosbarth defnydd B yn cael effaith faterol gyfyngedig ar gyflenwad safleoedd o ansawdd yn Llan-ffwyst/Y Fenni. Ystyriwyd bod y cynnig, felly, yn dderbyniol wedi bodloni meini prawf a) ac c) o Bolisi E1. At hynny, ystyriwyd y byddai'r cynnig yn cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth gyda chreu oddeutu 76 o swyddi FTE. Nodwyd hefyd y byddai'r cartref gofal yn cyfrannu'n gadarnhaol at y diffyg a ddynodwyd mewn darpariaeth mewn cyfleusterau cartref gofal yn Y Fenni a bod defnydd y safle fel cartref gofal yn cyfweddu fwy â'r defnydd preswyl i'r de o'r safle. Gellir ystyried swm y tir |

| |
|---|
| cyflogaeth yn Y Fenni drwy broses Arolygu'r CDL.<br><br>Y cais arall y rhoddwyd caniatâd iddo oedd ar gyfer newid defnydd o garej trwsio masnachol (Dosbarth Defnydd B2) i gampfa (Dosbarth Defnydd D2), 0.05 hectar, ar safle cyflogaeth a ddiogelir yn Heol Bulwark, Cas-gwent (SAE2i). At ei gilydd, ystyriwyd nad yw'r cynnig hwn yn gwrthdaro'n arwyddocaol gydag amcanion Polisi E1. Er bod diffyg adeiladau gwag ar gael yn y safle cyflogaeth hwn a ddiogelir, mae adeiladau gwag ar gael yn ardal Cil-y-coed sydd yn cael ei gwasanaethu i'r un graddau gan y cysylltiadau ffyrdd â safle Bulwark. At hynny, byddai'r cais yn cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth (4 staff llawn amser ac 8 hyfforddwr personol/hyfforddwr stiwdio). O gydbwyso'r ffeithiau, felly, ystyriwyd y cais yn dderbyniol mewn egwyddor.<br><br>O ystyried rhoddi caniatâd i'r ddau gais mewn perthynas â cholli tir cyflogaeth dosbarth defnydd B ar safleoedd a neilltuwyd dros y cyfnod monitro, cyfarfuwyd â'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Fodd bynnag, fel y cafwyd tystiolaeth, mae colli tir cyflogaeth i ddosbarthiadau nad ydynt yn ddefnydd B ar y safleoedd i'w gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r CDLl ac felly nid oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau o'r fath mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 7. Mae Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2016 yn dangos bod 57.9% o breswylwyr y Sir yn gweithio yn yr ardal sy'n ymylol is na'r ffigur o 58.3% ac yn is na chyfartaledd Cymru o 68.5%. Mae, fodd bynnag, yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn AMB 2014 o 54.5% sy'n awgrymu bod peth cynnydd i gwrdd â'r dyhead i gynyddu'r gyfran o'r gweithlu preswyl sy'n gweithio o fewn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysigrwydd i'r ffigurau hyn am fod y data wedi'u seilio ar arolwg sampl fechan ac y dylid, felly, eu trin yn ddarbodus. |
| 8. Yn ôl Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2016, mae gan Sir Fynwy fewnlif net o 1700 o gymudwyr - gyda 20,400 yn cymudo i mewn i'r ardal i weithio a 18,700 yn cymudo allan. Roedd mewn-gymudo arwyddocaol o Gasnewydd (4,000), Torfaen (3,000), Blaenau Gwent (2,900) ac o'r tu allan i Gymru (6,800). Y prif ardaloedd ar gyfer all-gymudo oedd Bryste (3,800), Casnewydd (3,100), Torfaen (2,400) a Chaerdydd (2,300), gyda 6,500 pellach yn cymudo i ardaloedd eraill y tu allan i Gymru. Mae'r gyfran uchel o gymudo i/o ardaloedd y tu allan i Gymru'n adlewyrchu'n glir leoliad Sir Fynwy fel awdurdod ffiniol.<br><br>Ni does dyhead i ostwng lefelau'r mewn-gymudo a'r all0gymudo a gofnodwyd yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Tra mae lefel yr all-gymudo wedi aros yn gyson (18,700) ers y cyfnod monitro diwethaf, mae lefel y mewn-gymudo wedi cynyddu (o 17,800 i 20,400), gan arwain at fewnlif net o gymudwyr. Mae hyn yn cyferbynu â'r data a gofnodwyd yn y ddau AMB blaenorol lle'r oedd all-lif net yn amlwg (400 yn 2014 a 900 yn 2015). Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysigrwydd i'r ffigurau hyn am fod y data wedi'u seilio ar arolwg sampl fechan ac y dylid, felly, eu trin yn ddarbodus.<br><br>Tra gall y Cyngor geisio annog datblygu economaidd a chymeradwyo ceisiadau cynllunio cysylltiedig, caiff patrymau teithio i'r gwaith eu dylanwadu gan ffactorau ehangach megis amodau teuluol a phrisiau eiddo. |

| |
|---|
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 6. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 7. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 8. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (DDS) 2007. Mae'n cynnwys y sectorau hynny y mae caniatadau cynllunio wedi'u rhoddi iddynt dros y cyfnod monitro. Am restr lawn o sectorau cyfeirier at y DDS 2007.

**Sector na ddynodwyd mewn perthynas â DC/2016/01243 Nevill Lodge, Y Fenni (0.1 hectar) a DC/2016/00495 Parc Cendl, Cas-gwent SAE1i (0.42 hectar).

♦Ffynhonnell Data: Papur Cefndir Tir Cyflogaeth Sir Fynwy ar gyfer cyfnod Ebrill 2016-Mawrth 2017

♦♦Diwygiwyd i egluro bod y dangosyddion hyn yn monitro dosbarthiadau defnydd B yn unig.

♦♦♦ Ffynhonnell Data: Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2016 (dyddiad rhyddhau 30 Mawrth 2017)

# Menter Wledig

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Annog arallgyfeirio'r economi wledig |
| **Polisi Strategol:** | S10 Menter |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1, 3, 5, 7 & 14 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | RE1-RE6 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer y cynlluniau arallgyfeirio a menter wledig * a gymeradwywyd | Dim targed<br>*(2014-15: 7)*<br>*(2015-16: 10)* | Dim | **6** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Cymeradwywyd cyfanswm o 6 chais mewn perthynas â menter wledig/arallgyfeirio yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 4 o'r ceisiadau fel cynlluniau menter wledig. Tra roedd un o'r 4 cynllun mewn perthynas ag adeilad newydd cafodd ei gyfiawnhau am ei fod yn estyniad i fusnes oedd yn gweithredu eisoes o fewn yr economi wledig yng Nghaer Llan. Roedd dau o'r caniatadau menter wledig eraill mewn perthynas ag addasu blociau stabl oedd yno eisoes ond nad oeddent yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn flaenorol. Roedd y cyntaf mewn perthynas ag addasu rhannol adeilad bloc stabl ar gyfer gwasanaeth therapi cŵn, gwasanaeth arbenigol gyda charfan o gleientiaid penodol. Roedd yr ail gynnig mewn perthynas ag addasu bloc stabl sydd yno eisoes i adeilad swyddfa i gefnogi busnes y perchennog a neilltuo gofod ar gyfer cyfarfodydd achlysurol gyda chleientiaid. Roedd y cynllun olaf mewn perthynas ag estyniad i fenter dwristaidd sydd yno eisoes drwy addasu adeilad fu gynt yn bafiliwn criced i ddefnydd twristaidd cyffredinol. Mae defnydd deuol i'r cynnig hwn, llety twristiaeth a chanolfan sgiliau gwledig.<br><br>Roedd y tri chaniatâd oedd yn weddill mewn perthynas ag arallgyfeirio amaethyddol, y ddau ohonynt yn cefnogi busnesau gwledig sy'n bodoli eisoes. Roedd un mewn perthynas ag addasu adeilad storio allanol i adeilad amlddefnydd a gofod stiwdio, ar y cyd â busnes | | | |

| |
|---|
| ffermio blodau. Bydd yr addasiad yn darparu gofod stiwdio ar gyfer cyrsiau a gweithdai a, phan na fydd yn cael ei ddefnyddio, bydd yn darparu gofod ar gyfer ar gyfer croesawu cleientiaid blodeuwriaeth ac ymwelwyr i'r fferm ynghyd â llety gwyliau. Roedd y cynllun arallgyfeirio gwledig arall a ganiatawyd mewn perthynas ag adeilad newydd ar gyfer swyddfa i gefnogi busnes eiddo arall sy'n bodoli ar y fferm.<br><br>Tra roedd gostyngiad yn nifer y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter wledig a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro (6 chynllun) o gymharu â'r AMB blaenorol (10 cynllun), mae nifer y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter wledig a gymeradwywyd ers mabwysiadu'r CDLl (cyfanswm o 23 o gynlluniau) yn awgrymu bod Polisi Strategol S10 a'r polisïau rheoli datblygiad cefnogol yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r dangosydd hwn mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb fframwaith y polisi hwn mewn perthynas ag arallgyfeirio'r economi wledig. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Nid yw'r Cynlluniau Menter Wledig fel y'u rhestrwyd yma yn cynnwys y rheiny sydd angen cyfiawnhad arbennig fel y diffinnir gan NCT6.

## Economi Ymwelwyr

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Annog twristiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel |
| **Polisi Strategol:** | S11 Economi Ymwelwyr |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1, 3, 5 & 7 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | T1-T3, RE6, SAT1 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd *(mae'n cynnwys estyniadau/addasiadau ac adeiladau newydd)* | Dim targed<br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 10)* | None | **Cymeradwywyd 24 o gynlluniau twristiaeth*** |
| 2. Nifer y cynlluniau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygiad, newid defnydd neu ddymchwel | Lleihau colli cyfleusterau twristiaeth<br>*(2014-15: 5)*<br>*(2015-16: 0)* | Colli unrhyw 1 gyfleuster twristiaeth mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Colli 1 cyfleuster twristiaeth** |

**Dadansoddiad**

1. Cymeradwywyd 24 o geisiadau ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - 14 llety twristiaeth ar osod (pob un ohonynt yn addasiadau) mewn amrywiol aneddiadau**
    - Llety glampio (2 babell gloch yn Llanishen, 10 pod yn Monkswood a 5 cwt bugail – 1 yn Shirenewton a 4 yn Llangwm)
    - Safleoedd pebyll a charafannau (lleiniau pebyll a charafannau yng Nglascoed a safle gwersylla yng Nghastell Brynbuga)
    - Llety ymwelwyr ategol i dafarn (Devauden)
    - Man cyfarfod gyda llety ategol i ymwelwyr (Llanishen)
    - Ystafelloedd ychwanegol mewn lleoliad priodasau sy'n bodoli eisoes (Lydart)

| |
|---|
| Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu oddeutu 90 o ofod gwely newydd a byddant yn rhoi hwb pellach i'r llety ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy.<br><br>Mae nifer y cyfleusterau llety ymwelwyr a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro'n awgrymu bod polisïau perthnasol y Cynllun yn gweithio'n effeithiol wrth ganiatáu i ddatblygiadau o'r fath ddigwydd yn Sir Fynwy. Mewn ymateb i nifer gynyddol o ymholiadau ynghylch ffurfiau newydd o lety ymwelwyr gan gynnwys iwrts, tipîs a phodiau pren h.y. glampio, mae'r Tîm Cynllunio Polisi wedi paratoi CCA drafft mewn perthynas â llety twristiaeth gynaliadwy er mwyn rhoi eglurhad ar ddehongli/weithredu o'r fframwaith polisi presennol mewn perthynas â cheisiadau o'r fath. Ymgynghorir ar y CCA hwn a chaiff ei fabwysiadu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.<br><br>Mae cymhariaeth ag AMBau blaenorol yn dangos bod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn sylweddol uwch na'r rheiny a gymeradwywyd yn ystod cyfnod monitro 2014-15 ynghyd â 2015-16 (10 cais wedi cael eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r CDLl yn Chwefror 2014 sy'n dangos ymhellach bod y fframwaith polisi twristiaeth yn gweithredu'n effeithiol i alluogi datblygiad o'r fath yn y Sir.<br><br>Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau twristiaeth yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â darparu cyfleusterau twristiaeth. |
| 2. Caniatawyd un cais mewn perthynas â cholli cyfleuster twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hwn yn ymwneud â newid defnydd Gwesty'r Alarch, Y Fenni i ddefnydd manwerthu ar y llawr daear gyda defnydd B1 ar y lloriau uwch. O gydbwyso ffeithiau, ystyriwyd y cynllun hwn yn dderbyniol o gofio'i fanteision economaidd i'r ardal leol, gan gynnwys cynnydd cysylltiedig mewn cyfleoedd cyflogaeth. Ymhellach, mae'r defnydd manwerthu arfaethedig yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y CDLl ac o ganlyniad ystyriwyd y newid defnydd yn dderbyniol mewn egwyddor.<br><br>Tra mae'r data a gasglwyd yn dangos colli cyfleuster llety ymwelwyr i ddefnydd amgen dros y cyfnod monitro, fe gyfarfuwyd felly â'r sbardun ar gyfer y dangosydd, mae'r golled i'w chyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl.<br>Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau o'r fath mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn, o ystyried pwysigrwydd twristiaeth i economi'r Sir.<br><br>Mae'n werth nodi, gwrthodwyd caniatâd cynllunio i un cyfleuster twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Roedd y cais i droi stablau i lety gwyliau ar osod mewn perthynas ag adeilad modern a gyfrifid i'r gwrthwyneb i faen prawf d) o Bolisi H4 a maen prawf b) o T2 gan nad oedd wedi'i ddefnyddio i'r diben y'i bwriadwyd am gyfnod sylweddol o amser. Ystyriwyd y cais hefyd i'r gwrthwyneb i Bolisi LC5 mewn perthynas ag effaith andwyol ar y dirwedd. O ganlyniad fe wrthodwyd y cais ar apêl (21.08.17) ar sail y ffaith y byddai'n dwysau'n sylweddol ddefnydd y safle a chynyddu'i effaith gymharol niwtral gyfredol i fod yn niweidiol i gymeriad y dirwedd wledig, i'r gwrthwyneb i bolisïau T2, H4 a LC5. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae'r holl gynlluniau mewn perthynas â chyfleusterau llety ymwelwyr : anheddau gwyliau hunanarlwyo ar osod [addasiadau] (14); safleoedd glampio (4); safleoedd pebyll/carafannau (2); llety ategol I dafarndy (1); man cyfarfod gyda llety ategol (1); ystafelloedd ychwanegol I leoliad priodasau sydd eisoes yno (1) - gyda'I gilydd mae'r rhain yn darparu oddeutu 90 o ofod gwelyau. Hefyd cadw bloc amwynder.

**Rhaglan, Llangeview, Tregare, Dingestow, Llandenny, Bryn-y-Gwenin, Redbrook Uchaf, Llanishen, Goytre, Llantilio Crosenny.

## Adnoddau Effeithlon a Pherygl Llifogydd

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Sicrhau bod datblygiad yn unol ag egwyddorion datblygu economaidd |
| **Polisi Strategol:** | S12 Defnydd Effeithlon o Adnoddau a Pherygl Llifogydd |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1, 8, 9, 10 & 11 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | SD1-SD4 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyfran y datblygiadau ar dir llwyd fel canran o'r holl ddatblygiadau a ganiatawyd *(gan gynnwys newid defnydd tir)* *(eithrir deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol)* | Cynyddu cyfran y datblygiadau ar safleoedd tir llw ŷd<br>*(2014-15: 28% /17.3 hectar)*<br>*(2015-2016: 16.8%/10.51 hectar)* | Dim cynnydd yng nghyfran y datblygiadau sar dir llwyd am 2 flynedd yn olynol | **51.2%**<br>**18.6 hectar** |
| 2. Maint y datblygiad (yn ôl categori NCT15) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 neb gwrdd â holl brofion NCT15 tests | Pob datblygiad i fod yn unol â gofynion NCT15<br>*(2014-15: 1)*<br>*(2015-16: 0)* | Rhoddir caniatâd cynllunio yn groes i ofynion NCT15 | **0** |
| 3. Nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle* | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddol<br>*(2014-15: 2)* | Dim cynnydd blynyddol | **5** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2015-2016: 9**)* | | |
| 4. Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle<br><br>*(2014-2015: Amh.)*<br>*(2015-2016: 4)* | Dim cynnydd blynyddol | **3*** ** |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Caniatawyd cyfanswm o 36.3 hectar o ddatblygiadau dros y cyfnod monitro, 18.6 hectar ohonynt wedi'u lleoli ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn cyfateb i 51.2% o'r holl ddatblygiadau (eithrir deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol) a ganiatawyd ar dir llwyd. Cyfrifai datblygiad preswyl am y rhan fwyaf o'r tir llwyd a ganiatawyd (16.4 hectar / 88%). Roedd hwn yn cynnwys y safleoedd tai a neilltuwyd yn y CDLl. Hen Felin Bapur Sudbrook. Sudbrook a Choed Glas, Y Fenni a gyfrifai am 7.1 hectar a 2.0 hectar o dir llwyd a ganiatawyd yn y drefn honno. Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd ar gyfer defnydd preswyl i safle Coleg Gwent yn The Hill, Y Fenni (3.64 hectar), safle'r Hen Iard Longau, Sudbrook (0.96 hectar) a'r gyn-Gostel Ieuenctid yn Nhŷ Mulberry, Y Fenni (0.7 hectar). Roedd 1.14 hectar arall o dir llwyd a ganiatawyd mewn perthynas â lleiniau tai o fewn ffin/ardaloedd gardd. Rhoddwyd caniatâd hefyd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau eraill ar dir llwyd gan gynnwys datblygiadau ar dir cyflogaeth (0.33 hectar), datblygiad manwerthu (1.39 hectar) a chanolfan y celfyddydau perfformio ar gyfer ysgol annibynnol. (0.2 hectar).<br><br>Mae cyfran y datblygiadau a ganiatawyd ar safleoedd tir llwyd yn sylweddol uwch nag yn y ddau gyfnod AMB blaenorol. Mae'r sbardun am ymchwiliad pellach mewn perthynas â dim cynnydd yng nghyfran y datblygiad ar safleoedd tir llwyd am ddwy flynedd yn olynol. Gan fod cyfran y datblygiad ar dir llwyd wedi cynyddu o 16.8% yn y ddau gyfnod AMB blaenorol ystyrir bod Polisi S12 yn gweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn. Bydd, serch hynny, yn bwysig monitro'r dangosydd hwn yn yr AMB nesaf er mwyn gweld a gyfarfyddir â'r targed o gynyddu cyfran y datblygiad ar dir llwyd dros gyfnod o ddwy flynedd. |
| 2. Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion NCT15 yn naill ai gorlifdir Parth C1 neu C2 dros y cyfnod monitro. Mae Polisi S12 felly'n gweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 3. Cymeradwywyd pum cais dros y cyfnod monitro ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle. Roedd tri o'r cynlluniau mewn perthynas â phŵer solar ar raddfa fechan, dau ohonynt wedi'u gosod ar y ddaear a byddant yn cefnogi anheddau unigol yn Parkhouse a Gwndy. Roedd y caniatâd solar arall ar raddfa fechan mewn perthynas â phaneli ffotofoltaig wedi'u gosod ar y to mewn cynllun anheddau fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yn Rhaglan. Roedd dau gynllun pellach mewn perthynas â biomas, un ohonynt i gyflenwi gwres a dŵr poeth i 6 eiddo gwyliau ar osod a 4 tŷ drwy gyfrwng system wresogi ardal yn Llantilio Crossenny. Bydd y cynllun arall yn Dingestow yn cefnogi unedau dofednod sy'n bodoli eisoes gaiff eu gwresogi ar hyn o bryd gan system |

| |
|---|
| wresogi LPG, bydd y berwedydd biomas yn darparu ffurf gynaliadwy o wresogi ar gyfer y cytiau dofednod.<br><br>Rhoddwyd caniatâd i barc solar ffotofoltaig ychwanegol dros gyfnod yr AMB blaenorol. Ni chynhwyswyd y cynllun hwn yn y ddau gyfnod monitro blaenorol. Gan fod hwn yn gynllun ynni adnewyddol ar raddfa fawr gafodd ei gwblhau yn ddiweddar, fe'i cynhwyswyd yn y cyfnod monitro hwn er mwyn iddo fwydo i mewn i ddangosydd 4. Mae'r fferm solar yn Fferm Oak Grove, Crick mewn perthynas â chynllun solar ffotofoltaig 5.67MW yn cynnwys 22,660 o baneli ffotofoltaig ar safle 15.73. Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn darparu digon o ynni ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i 4,536 o aelwydydd.<br><br>Bu peth gostyngiad yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddol ar-y-safle a ganiatawyd dros y cyfnod monitro cyfredol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chredir bod hyn yn ganlyniad i leihad yng nghynlluniau cymhelliad y Llywodraeth (Tariff Bwydo-Mewn), yn arbennig ar gyfer ynni solar. Serch hynny, gyda'i gilydd fe ganiatawyd cyfanswm o 16 o gynlluniau'n ymgorffori ynni adnewyddol ar-y-safle ers mabwysiadu'r CDLl yn 2014 sy'n awgrymu bod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau cefnogol yn gweithio'n effeithiol mewn perthynas â darparu ynni adnewyddol. Bydd y Cyngor, serch hynny, yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â defnydd effeithlon o adnoddau. |
| 4. Cwblhawyd cyfanswm o dri chynllun yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle dros y cyfnod monitro. Roedd un o'r rhai a gwblhawyd mewn perthynas â chynllun solar domestig ar raddfa fechan a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro yng Ngwndy. Roedd y ddau gynllun arall a gwblhawyd mewn perthynas â pharciau solar ffotofoltaig ar raddfa fawr. Caniatawyd un o'r cynlluniau a gwblhawyd ar apêl dros gyfnod monitro blaenorol 2015-2016 ac roedd mewn perthynas â Fferm Solar 7.9MW ar dir amaethyddol ger Shirenewton. Mae'r parc solar ffotofoltaig y cyfeirir ato yn y sylwadau ar gyfer meini prawf 3 uchod, yn Fferm Oak Grove, Crick hefyd yn weithredol.<br><br>Ers mabwysiadu'r Cynllun gyntaf yn 2014, cwblhawyd cyfanswm o 7 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddol ar-y-safle ac maent yn weithredol. Mae hyn yn dangos ymhellach bod Polisi Strategaeth S12 a'i bolisïau cefnogol yn gweithredu'n effeithiol mewn perthynas â darparu a chwblhau cynlluniau ynni adnewyddol ar-y-safle.<br><br>Bydd y Cyngor, serch hynny, yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â defnydd effeithlon o adnoddau. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Cynhwyswyd dangosydd monitro ychwanegol yn y fframwaith monitro er mwyn dynodi cynlluniau yn 4.
**Rhoddwyd caniatâd cynllunio ychwanegol i barc solar ffotofoltaig (Fferm Oak Grove, Crick, DC/2015/00247) yn ystod cyfnod monitro 2015-16. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd y cynllun hwn yn y cyfnod monitro blaenorol.
***Yn seiliedig ar geisiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar gyfer ynni adnewyddol ar-y-safle ers mabwysiadu'r CDLl.

## Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Amddiffyn mannau agored a safleoedd cadwraeth natur gydnabyddedig a phwysigrwydd tirwedd |
| **Polisi Strategol:** | S13 Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 8 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | LC1-LC6, GI1 & NE1 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyfran y tir Maes Glas a gollwyd i ddatblygiad nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu *(mae'n cynnwys datblygiad adeiledig newydd - tai, cyflogaeth ond mae'n eithrio adeiladau amaethyddol)* | Lleihau colli tir Maes glas na neilltuwyd<br>*(2014-15: 26 hectar)*<br>*(2015-16: 44.6 hectar)* | Colli unrhyw dir Maes glas na neilltuwyd mewn unrhyw 1 flynedd | **16.5 hectar** |
| 2. Cyfran y mannau agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu | Lleihau colli mannau agored/caeau chwarae i ddatblygiad nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu<br>*(2014-15: 1.47 hectar)*<br>*(2015-16: 0.76 hectar)* | Colli unrhyw fannau agored o ganlyniad i ddatblygiad, na neilltuwyd yn y cynllun datblygu mewn unrhyw 1 flynedd | **0** |
| 3. Datblygiadau a ganiatawyd/ gwblhawyd sydd o fewn | Dim wedi'i effeithio'n andwyol | Difrodi neu ddarnio safleoedd a | **0** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ardaloedd cadwraeth natur a adwaenir yn rhyngwladol./genedlaethol* | *(2014-15: Amh)* *(2015-16: 0)* | neilltuwyd /cynefinoedd | |
| 4. Datblygiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt sy'n peri niwed i werth cyffredinol cadwraeth natur safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol | Lleihau'r datblygiadau a fyddai'n peri niwed i werth cyffredinol cadwraeth natur safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol | 1 neu 2 ddatblygiad sy'n arwain at niwed cyffredinol am 2 flynedd yn olynol, neu 3 neu fwy o ddatblygiadau sy'n arwain at niwed mewn unrhyw 1 flynedd | **1** |
| 5. Nifer y datblygiadau newydd sy'n creu ac adfer cynefinoedd | Cynyddu nifer y datblygiadau newydd sy'n creu / adfer cynefinoedd *(2014-15: 1)* *(2015-16: 1)* | Dim | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. 1. Dros y cyfnod monitro rhoddwyd caniatâd i 31 cais ar dir maes glas nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad yn y CDLl, yn gwneud cyfanswm o 16.5 hectar. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r AMBau blaenorol pan oedd cyfran y tir maes glas na neilltuwyd a ganiatawyd yn sylweddol uwch (44.6 hectar yn 2015-16; 26 hectar yn 2014-15). Roedd y ffigur uchel a gofnodwyd yn 2015-16 yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddol ar raddfa ehangach (aráe paneli solar ffotofoltaig) a ganiatawyd ac a gyfiawnhawyd o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol.<br><br>Cyfrifai cyfleusterau llety twristiaeth am y rhan fwyaf o'r tir maes glas na neilltuwyd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, 8.33 hectar (50.5%). Roedd y caniatadau hyn yn cynnwys pedwar safle glampio, yn amrywio o un cwt bugail i ddeg pod glampio (yn gwneud cyfanswm o 7.38 hectar), un safle gwersylla (0.5 hectar), un safle carafannau/gwersylla (0.45 hectar) a chadw bloc amwynder mewn safle gwersylla (0.003 hectar). Tra mae'r caniatadau hyn yn cwmpasu ychydig dros 8 hectar o dir maes glas heb ei neilltuo, fe'u cyfrifid yn dderbyniol mewn egwyddor yn unol â'r fframwaith polisi twristiaeth. Yn sylfaenol, nid yw'r cyfleusterau glampio a llety gwersylla a ganiatawyd wedi'u lleoli'n barhaol ac maent yn ymwneud â defnydd gwrthdroadwy o dir amaethyddol.<br><br>Cyfrifai cynnig cloddio mwynau am 4.5 hectar yn rhagor o dir maes glas na neilltuwyd a ganiatawyd, a ystyriwyd, er yn arwynebedd eithaf sylweddol, i fod yn dderbyniol mewn egwyddor yn unol â'r fframwaith polisi mwynau. O bwys, mae'r caniatâd am gyfnod dros dro (5 mlynedd) a rhoddwyd amod arno i sicrhau y caiff y tir ei adfer ar ddiwedd y cyfnod hwn.<br><br>Roedd gweddill y 3.72 hectar o dir maes glas na neilltuwyd a ganiatawyd dros y cyfnod monitro yn cyfrif am amrywiaeth o ddefnyddiau. Roedd deg caniatâd mewn perthynas â datblygiad preswyl yn cyfrif am 1.75 hectar. Cyfrifai gweithgareddau 'ceffylyddiaeth', gan | | | |

| |
|---|
| gynnwys arenas marchogaeth a stablau, am 9 caniatâd pellach (1.10 hectar). Ystyriwyd y rhain yn ddefnydd priodol o dir mewn ardaloedd gwledig a'u bod yn cydymffurfio â fframwaith polisi'r CDLl. Cynhwysai ceisiadau eraill a ganiatawyd gyflogaeth, ynni adnewyddol a defnyddiau cymunedol (0.82, 0.04 a 0.013 hectar yn y drefn honno) a ystyriwyd eto i gydymffurfio â pholisïau'r CDLl.<br><br>Tra dengys y data monitro golli tir maes glas na neilltuwyd dros y cyfnod monitro o ganlyniad i'r caniatadau y cyfeiriwyd atynt uchod (eto'n llai nag a gofnodwyd mewn AMBau blaenorol), yn dilyn fe gyfarfuwyd â'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r golled i'w chyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl fel y cafwyd tystiolaeth uchod. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r CDLl ac felly nid oes angen unrhyw ymchwilio pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau o'r fath mwn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 2. Ni chaniatawyd ceisiadau ar ardaloedd o fannau agored na neilltuwyd yn y CDLl dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn awgrymu bod y dangosydd targed a'r canlyniad monitro i amddiffyn a lleihau colli tir mannau agored na neilltuwyd wedi'u cyflawni yn 2016-17. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r ddau AMB blaenorol lle collwyd cyfanswm o 2.23 hectar (1.47 hectar yn 2014-15; 0.76 hectar yn 2015-16) o fannau agored na neilltuwyd i ddatblygiad, eto roedd hwn yn cael ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl.<br><br>Bydd y Cyngor yn dal i fonitro cyfran y mannau agored cyhoeddus a gollwyd i ddatblygiad mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 3. Fel gyda'r ddau AMB blaenorol, ni chaniatawyd neu ni chwblhawyd datblygiadau o fewn ardaloedd pwysig i gadwraeth natur yn rhyngwladol nac yn genedlaethol yn ystod y cyfnod monitro, sy'n awgrymu bod y dangosydd targed a'r canlyniad monitro i amddiffyn safleoedd dynodedig o'r fath wedi cael eu cyflawni.<br><br>Mae hyn yn dangos bod y fframwaith polisi mewn perthynas â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithiol wrth amddiffyn safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol / cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau a ganiateir ac a gwblheir o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 4. Rhoddwyd caniatâd i un cais yn ystod y cyfnod monitri a allai beri niwed i SINC. Mae hyn yn cyferbynu â'r AMBau blaenorol pan na chofnodwyd unrhyw ganiatadau o'r fath. Mae'r caniatâd mewn perthynas â'r safle tai a neilltuwyd yn safle'r hen Felin Bapur gynt, Sudbrook (SAH7). Gallai'r datblygiad effeithio ar werth cadwraeth natur y SINC gan y gallai newidiadau i hydroleg y safle arwain at golli rhai o'r cynefinoedd sy'n bodoli yno, yn enwedig y pwll effemeral. Bydd datblygu'r safle hefyd yn arwain at golli 0.19 hectar o gynefin o'r fath. Mae'r cais, fodd bynnag, yn cynnwys hectsr o gynefin prysgwydd. Mae'r cynnig, fodd bynnag, yn cynnwys Cynllun Rheoli Seilwaith Gwyrdd a fydd yn sicrhau rheolaeth y safle yn yr hir dymor ar gyfer bioamrywiaeth ac a ddylai arwain at gynnydd net ar y safle ehangach. Mae'n rhaid cydnabod hefyd mai safle tai a neilltuwyd ar dir maes glas ydyw, lle cefnogwyd datblygiad gan y CDLl. |

| |
|---|
| Tra cofnodwyd un cais mae'n nodedig y bydd datblygu'r safle'n darparu manteision ac yn arwain at fudd net i fioamrywiaeth. Mae hyn yn dangos bod y fframwaith polisi mewn perthynas â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithiol wrth amddiffyn gwerth natur safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro ceisiadau a ganiateir ac a gwblheir o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 5. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau i greu ac adfer cynefinoedd yn benodol yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyferbynu â'r AMBau blaenorol pan ganiatawyd dau gynllun o'r fath, y ddau mewn perthynas â chreu pyllau dŵr i fywyd gwyllt.<br>Tra na roddwyd caniatâd i greu ac adfer cynefinoedd, mae'n debygol y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro'n gymorth i adfer cynefinoedd drwy well rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd. Er nad oes unrhyw sbardun ar gyfer ymchwilio pellach mewn perthynas â'r dangosydd hwn, bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â Thirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygiwyd y dangosydd yn unol â dangosydd yr AoG er mwyn gwneud casglu data'n hawdd. Diwygiwyd y dangosydd yn unol â dangosydd yr AoG er mwyn gwneud casglu data'n hawdd.

## Gwastraff

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Cwrdd â chyfraniad y Sir i gyfleusterau gwastraff lleol |
| **Polisi Strategol:** | S14 Gwastraff |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 12 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | W1-W6, SAW1 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Maint y capasiti rheoli gwastraff a ganiateir wedi'i fynegi fel canran o'r cyfanswm capasiti sy'n ofynnol fel y dynodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol | Y nod yw darparu rhwng 2.2 a 5.6 hectar ar gyfer cyfleusterau newydd i reoli gwastraff o fewn-adeilad wedi'i leoli ar safleoedd cyflogaeth priodol B2 dros gyfnod y cynllun<br><br>*(2014-15: caniatawyd 1.49 hectar; 32.5 hectar safleoedd posib rheoli gwastraff)*<br>*(2015-16: 0.24 hectar a ganiatawyd; 26.86 hectar safleoedd posib rheoli gwastraff)* | Cyfran y tir cyflogaeth B2 yn syrthio'n is na 5.6 hectar | **Capasiti gwastraff a ganiatawyd 0 hectar**<br><br>**Safleoedd rheoli gwastraff posib a ddynodwyd 26.26 hectar** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Nid oedd caniatadau ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. Fe fu ryw gymaint o ostyngiad yn swm y tir sydd ar gael ar gyfer safleoedd posib rheoli gwastraff (h.y. safleoedd cyflogaeth B2 a safleoedd sydd eisoes yn gwaredu neu'n rheoli gwastraff) o'r 26.8 hectar a ddynodwyd yn AMB y CDLl i 26.26 hectar (o ganlyniad i gyfradd dderbyn rhan fechan o dir cyflogaeth B2 ar Barc Busnes Westgate, Llan-ffwyst). Erys, felly, hen ddigono dir ar gael ar gyfer safleoedd posib rheoli gwastraff mewn perthynas â'r mwyafswm sy'n ofynnol, sef 5.6 hectar. | | | |

| Argymhelliad |
| --- |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

## Mwynau

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Diogelu ardaloedd o adnoddau agregedig |
| **Polisi Strategol:** | S15 Mwynau |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 12 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | M1-M3 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Maint yr adnoddau agregau crai a enillwyd o'r tir fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol* | Banc 10 mlynedd ar y lleiaf i gael ei gynnal<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)* | Nid yw'r banc tir 10 mlynedd yn cael ei gynnal | **0** |
| 2. Nifer y datblygiadau nad ydynt yn ymwneud â mwynau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi M2** | Lleihau nifer y datblygiadau sefydlog nad ydynt yn ymwneud â mwynau ar safleoedd a ddiogelir<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)* | Os caiff unrhyw ddatblygiadau o'r fath eu caniatáu | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Ni ddigwyddodd unrhyw gloddio mwynau'n seiliedig ar y tir yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro. Ni fu, felly, unrhyw ostyngiad yn y banc tir, sy'n dibynnu ar y cronfeydd sydd ar gael yn Chwarel Ifton, Rogiet. Ni chafodd y chwarel hon ei gweithio am beth amser ond mae ganddi fantais caniatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes O gofio pwysigrwydd cynnal banc tir 10 mlynedd bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>Tra na ddigwyddodd unrhyw gloddio mwynau yn seiliedig ar y tir dros y cyfnod monitro, | | | |

| |
|---|
| rhoddwyd caniatâd cynllunio i gais ar gyfer cloddio 1500m$^3$ o gerrig at ddibenion adeiladu yng Nghoedwig Cledd-Y-Tan, Kilgwrrwg. Rhagwelir y caiff oddeutu 4500 o dunelli o gerrig eu cloddio a'u defnyddio ar gyfer cropio, codi walydd sych, lintel a quoin. Ystyriwyd y cais cynllunio'n dderbyniol mewn egwyddor yn unol â fframwaith y polisi mwynau. Rhoddwyd y caniatâd am gyfnod dros dro o 5 mlynedd. |
| 2. Ni roddwyd caniatâd ar gyfer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau ar safleoedd a ddiogelir nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Mae hyn yn dangos bod Polisi M2 yn cael ei weithredu'n effeithiol ac nid oes angen mwy o ymchwilio ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb fframwaith y polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion ychwanegol Llawlyfr CDLl

**Diwygiwyd y dangosydd i gynnwys cyfeiriad at Bolisi M2 er eglurder

## Trafnidiaeth

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Cynyddu ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau bod pob datblygiad yn cwrdd ag egwyddorion cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy |
| **Polisi Strategol:** | S16 Trafnidiaeth |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 1-6, 9 & 13 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | MV1-MV10 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn dros y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer y gwelliannau i drafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106 | Dim targed<br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 3)* | Dim | **2 gytundeb Adran 106 yn cyflenwi gwelliannau trafnidiaeth** |
| 2. Datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Lleol * (CTLl) manylion ar y cynlluniau ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen cyflenwi'r CTLl | Cynigion y CTLl yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r CTLl | Nid yw'r manylion ar gynigion y CTLl ym Mholisi MV10 yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r CTLl | **Manylir ar ddatblygiad yn y dadansoddiad isod** |

**Dadansoddiad**

1. Sicrhawyd y gwelliannau trafnidiaeth canlynol drwy gytundebau Adran 106 dros y cyfnod monitro:
   - Tir ym Melin Bapur Sudbrook, Sudbrook (SAH7 Taliad tuag at ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn gwasanaethu Sudbrook) (£200,000).
   - Yr Hen Iard Longau, Sudbrook
     Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd lleol gan gynnwys gwelliannau gostegu traffig cyfyngedig ynghyd â gwelliannau i gyfleusterau cerddwyr ar gyfer llwybrau mwy diogel i amwynderau lleol, llwybrau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n berthnasol i'r ardal leol (£61,500).

| |
|---|
| Fel y dangoswyd uchod, sicrhawyd dau welliant i drafnidiaeth drwy gyfrwng cytundebau Adran 106 yn ystod y cyfnod monitro, y ddau mewn perthynas â datblygiad preswyl yn Sudbrook. Mae un o'r cytundebau Adran 106 mewn perthynas â'r safle a neilltuwyd yn y CDLl ym Melin Bapur flaenorol Sudbrook (SAH7) a'r llall ar hap-safle yn safle'r Hen Iard Longau. Yn unol â fframwaith polisi trafnidiaeth y CDLl, mae'r gwelliannau'n ceisio annog ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau bod y datblygiad yn cwrdd ag egwyddorion cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy.<br><br>Tra nad oes targed penodol mewn perthynas â'r dangosydd hwn, mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn monitro maint y gwelliannau i drafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau Adran 106. Fel y gellid disgwyl, o ystyried bod y cynnydd gyda llawer o'r safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd, sicrhawyd nifer gymharol fechan o welliannau i drafnidiaeth drwy gytundebau Adran 106 mewn perthynas â'r safleoedd hyn yn ystod y tri mis cyntaf o fonitro (cyfanswm o 8). Fodd bynnag, fel y bydd y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl yn datblygu, rhagwelir y caiff nifer fwy o welliannau i drafnidiaeth eu sicrhau naill ai drwy Adran 106 neu brosesau ASC.  Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn AMBau yn y dyfodol. |
| 2. Mae cynnydd y cynlluniau PTLl* y manylir arnynt ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen y CTLl fel a ganlyn:<br><br>**Ffordd Gyswllt B4245/M48:** Dim cynnydd. Mae cynllun gwella corridor yr M4 yn cynnig cyffordd newydd rhwng Magwyr/Gwndy a Rogiet a fyddai'n darparu cyswllt rhwng y B4245 a'r M48 (a'r M4) ond i'r gorllewin o Rogiet. Mae cynnydd ar Ffordd Gyswllt y B4245/M48 yn ddibynnol ar ganlyniad y penderfyniad ar gynllun gwella corridor yr M4**.<br><br>**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd y Fenni:** Cynllun a gynhwysir yn y CTLl newydd fel "Gwelliannau i Fynediad a chyfnewidfa gorsaf reilffordd Y Fenni". Mae Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarth y Brifddinas newydd (ATRhB) ar hyn o bryd yn gweithio ar Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol (SDR) a disgwylir i gyfnewidfa/parcio a theithio'r Fenni gael eu cynnwys yn y strategaeth hon er na chaiff blaenoriaethau'u datblygu tan yn hwyrach na 2017/18. Mae'n debygol hefyd yr edrychir ar y cyfleusterau bysiau yng ngorsaf Y Fenni fel rhan o'r cynigion cyfredol am ffordd bws TrawsCymru newydd yn cysylltu Cas-gwent ac Aberhonddu.<br><br>Disgwylir hefyd i'r mynediad cerdded a beicio i'r orsaf gael ystyried fel rhan o ymarfer Map Rhwydwaith Integredig Y Fenni o'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).<br><br>**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd a Gorsaf Fysiau Cas-gwent:** Cynllun a gynhwysir yn y CTLl newydd fel ""Gwelliannau i Fynediad a chyfnewidfa gorsaf reilffordd Cas-gwent". Disgwylir i gyfnewidfa/parcio a theithio Cas-gwent gael eu cynnwys yn y Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol sydd ar fin dod yn y cyfamser (gweler uchod), er na chaiff blaenoriaethau'u datblygu tan yn hwyrach na 2017/18. Mae'n debygol hefyd yr edrychir ar y cyfleusterau bysiau yng ngorsaf Cas-gwent fel rhan o'r cynigion cyfredol am ffordd bws TrawsCymru newydd yn cysylltu Cas-gwent ac Aberhonddu Nid oes gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth Network Rail ynghylch y sefyllfa'r bont droed hygyrch neu am ddod nôl â'r rhan o'r orsaf na chaiff ei defnyddio i'w defnyddio fel swyddfa docynnau / pwynt gwybodaeth i dwristiaid a thoiled. |

Disgwylir hefyd i'r mynediad cerdded a beicio i'r orsaf gael ystyried fel rhan o ymarfer Map Rhwydwaith Inetgredig Cas-gwent o'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

**Cyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren (CTH)**: Cynllun a gynhwysir yn y CTLl fel "Gwelliannau i fynediad a chyfnewidfa gorsaf reilffordd Cyffordd Twnnel Hafren". Cwblhawyd yng ngwanwyn 2016 bont droed hygyrch, swyddfa docynnau newydd ac estyniad newydd i'r maes parcio gogleddol. Ymchwiliwyd i'r dewisiadau ar gyfer mynediad gwell i gerddwyr a beicwyr ar hyd Heol yr Orsaf a thua Chil-y-coed ynghyd ag estyniad pellach i'r ochr ddeheuol o'r maes parcio ond ar hyn o bryd nid oes cyllid ar gael i fynd rhagddo â'r rhain. Cynhwysir gorsaf CPH hefyd yn y cynlluniau yr edrychwyd arnynt fel rhan o'r SDR dros dro.

Disgwylir hefyd i'r mynediad cerdded a beicio i'r orsaf gael ystyried fel rhan o ymarfer Map Rhwydwaith Inetgredig Cil-y-coed Magwyr o'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

**Parcio a Theithio Trefynwy:** Dim cynnydd.

**Parcio a Theithio**

**Dolenni Cyswllt 2 Trefynwy**: Mae Is-adran Drafnidiaeth Cyngor bod elfennau sylweddol o'r cynllun wedi'u cyflenwi, gyda rhai gwelliannau llai pellach wedi'u cyflenwi yn 2016/17 fel rhan o Raglen Camau Cyflym Ymlaen Teithio Llesol. Mae'r elfennau sy'n weddill i gael eu hadolygu fel rhan o ymarfer Map Rhwydwaith Inetgredig Trefynwy o'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

Bu cynnydd cyfyngedig tuag at gyflenwi cynlluniau'r CTLl* fel y manylir arnynt ym Mholisi MV10 dros y cyfnod monitro, gyda chyflenwi rhai gwelliannau llai yn unig mewn perthynas â chynllun Dolenni Cyswllt 2 Trefynwy. Fel y dangoswyd uchod, disgwylir i nifer o brosiectau, gan gynnwys cyfnewidfa gorsaf reilffordd Y Fenni a chyfnewidfa gorsaf reilffordd a gorsaf bysiau Cas-gwent gael eu cynnwys yn y Strategaeth Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd i ddod, er na chaiff blaenoriaethau ar gyfer hyn eu datblygu tan y cyfnod monitro nesaf (2017/18). Cofnodir cynnydd pellach ar gynlluniau'r CTLl mewn AMBau yn y dyfodol.

Disgwylir ystyried gwelliannau pellach fel rhan o fel rhan o ymarfer Map Rhwydwaith Inetgredig Deddf Teithio Llesol (Cymru), gan gynnwys mynediad i gerddwyr a beicwyr i orsafoedd rheilffordd Y Fenni, Cas-gwent a Chyffordd Twnnel Hafren.
Er na chafodd ei amlinellu'n benodol ym Mholisi MV10, cofnodir unrhyw gynnydd ar y cynlluniau hyn mewn AMBau yn y dyfodol.

Er na chawsant eu dynodi'n benodol ym Mholisi MV10, mae'r CTLl yn dynodi nifer o gynlluniau trafnidiaeth ychwanegol yn Sir Fynwy gaiff eu rhaglenni ar gyfer eu cyflenwi dros gyfnod 2015-2020 ac fe fyddant yn cael eu monitro hefyd drwy'r broses AMB. Un cynllun o'r fath yw rhodfa newydd yr orsaf reilffordd ym Magwyr a Gwndy. Mae Is-adran Drafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy wedi cynghori bod gwaith wedi cychwyn ar Lywodraethu Network Rail ar gyfer y broses Prosiectau Buddsoddi mewn Rheilffyrdd (GRIP) mewn perthynas â'r orsaf arfaethedig gyda GRIP1 (diffiniad Allbwn) a GRIP2 (dichonoldeb wedi'i gwblhau gyda gwaith yn mynd ymlaen ar GRIP3 (Dewis Opsiwn). Mae'r graddfeydd amser cyfredol yn rhagweld y caiff y cynllun ei gyflenwi erbyn 2022/23.

| |
|---|
| Bydd y Cyngor yn dal i fonitro cynnydd y cynlluniau y cyfeiriwyd atynt uchod mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu a ydynt yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r CTLl. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) Sir Fynwy 2015 wedi disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Dwyrain Cymru (CTRh). Mae'r cynlluniau trafnidiaeth a ddynodir yn y CTRh wedi cael eu cario ymlaen i'r CTLl - felly fe ddiwygiwyd geiriad y dangosydd i adlewyrchu hyn.

**Cychwynnodd ymchwiliad cyhoeddus lleol i mewn i gynllun gwella coridor yr M4 ar 28 Chwefror 2017 a disgwylir iddo barhau am oddeutu 5 mis.

## Gwneud-Lle a Dylunio

| | |
|---|---|
| **Nod y Monitro/Canlyniad:** | Diogelu safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig |
| **Polisi Strategol:** | S17 Gwneud Lle a Dylunio |
| **Amcanion y CDLl yn cael eu cefnogi:** | 14 & 15 |
| **Polisïau eraill y CDLl yn cael eu Cefnogi:** | DES1-4, HE1-4 |

**Newidiadau Cyd-destunol**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol mewn perthynas â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad yr AMB Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol | Dim ceisiadau i arwain at golli adeiladau rhestredig | Mae mwy nag 1 adeilad rhestredig yn cael eu colli bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol* | **Cyfeirier at ddadansoddiad (1) isod** |
| 2. Nifer yr ardaloedd cadwraeth gydag arfarniad cyfoes o gymeriad | 100% o'r Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth erbyn 2016** | Ni chyfarfyddir â'r targed | **19 wedi'u cwblhau (100%) Cyfeirier at ddadansoddiad (2) isod** |
| 3. Sampl o ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau â'r posibilrwydd o oblygiadau dylunio/amgylcheddol sylweddol | Yr holl ddatblygiadau i gyfrannu at greu amgylchedd o ansawdd uchel wedi'u dylunio'n dda | Canlyniadau monitro'n negyddol | **Cyfeirier at ddadansoddiad (3) isod** |
| 4. Sampl o ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau â'r | Dim effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol | Mae unrhyw ddatblygiad yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd | **Cyfeirier at ddadansoddiad (4) isod** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| posibilrwydd o effeithio'n sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol/archeolegol, henebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth | | hanesyddol | |
| 5. Achlysuron pan fyddai'r datblygiad a ganiatawyd yn cael effaith andwyol ar adeilad rhestredig, ardal gadwraeth, safle o arwyddocâd archeolegol, neu barc tirwedd hanesyddol neu ar eu lleoliad | Nid yw ceisiadau datblygu'n effeithio'n andwyol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol a'u lleoliad *(2014-15: dim)* *(2015-16: dim)* | Rhoddir 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio lle mae gwrthwynebiad cryf gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu GGAT | **Dim wedi'u cofnodi** |

**Dadansoddiad**

1. Nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol:

| | Dyddiad data sylfaen y CDLl 2011 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Adeiladau Rhestredig** | 2146 | 2153 | 2153 |
| **Henebion Rhestredig** | 169 | 164 | 164 |
| **Parciau Hanesyddol a Gerddi** | 44 | 45 | 45 |
| **Ardaloedd Sensitif yn Archeolegol** | 10 | 10 | 10 |
| **Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol** | 3 | 3 | 3 |

Nid oedd unrhyw newidiadau mewn perthynas ag Adeiladau Rhestredig, Henebion Rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol , Ardaloedd o Sensitifrwydd Archeolegol neu Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro.

Nid oes o ganlyniad unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli'r nifer o adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol dros y cyfnod monitro. Mae Polisi S17 yn gweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn.

2. Ni fabwysiadwyd unrhyw Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro. Mabwysiadwyd, fodd bynnag, gyfanswm o 19 o Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a chyfarfuwyd â'r targed o 100% o Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth drafft erbyn 2016, felly, yn y cyfnod monitro blaenorol.

Datblygir y 12 Arfarniad Ardaloedd Cadwraeth sy'n weddill yn y dyfodol ar yr amod bod adnoddau ar gael.

3. Mynychodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ddwy daith ddylunio dros y cyfnod

| |
|---|
| monitro. Cynhaliwyd y teithiau dylunio ym Medi 2016 a Mawrth 2017, ystyriwyd cyfanswm o 6 chais a gafodd eu cymeradwyo dan y CDLl. Roedd cais pellach mewn perthynas ag adeilad rhestredig ac felly cyfeirir ato mewn perthynas â dangosydd 4 isod.<br><br>Roedd tri o'r ceisiadau mewn perthynas â datblygiad preswyl; dau annedd cyfoes yn Glenfield, Watery Lane, Trefynwy, 15 annedd (9 fforddiadwy a 6 marchnad) yn y safle tai a neilltuwyd yn y Prif Bentref ger Ysgol Trellech (SAH11xv) a 17 o anheddau fforddiadwy yn safle hen Ysgol y West End yng Nghil-y-coed. Ymatebodd mwyafrif yr Aelodau'n gadarnhaol i'r datblygiad preswyl ac ni fynegwyd unrhyw bryderon. Roedd yr Aelodau'n fwy na bodlon â chynllun a dyluniad cynnes yr anheddau fforddiadwy yng Nghil-y-coed.<br><br>Ystyriwyd annedd gyfnewid yn Fferm Glenview, Llanfair Discoed. Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r dyluniad ac ystyrient yr annedd yn enghraifft dda o'r modd y gall dyluniad cyfoes weithio mewn tirwedd wledig drwy ymdrin yn ofalus â graddfa, más a gorffeniadau allanol.<br><br>Roedd y ddau gais olaf mewn perthynas â Pharc Solar Ffotofoltaig yn Fferm Rhewl, Shirenewton a gwesty Premier Inn yn Heol Portal, Trefynwy. Roedd rhai Aelodau'n pryderu am effaith weledol y parc solar yn y byrdymor ond cydnabu pawb y byddai'r effaith wedi'i lleihau'n sylweddol yn yr hirdymor gan fod tirweddu'n aeddfedu. Roedd yr Aelodau'n fodlon iawn â dyluniad cyffredinol y gwesty, gan nodi, er gwaethaf ei raddfa fawr ei fod yn cyfrannu'n dda i'r ardal leol a heb fod yn oramlwg nac allan o gymeriad ac yn hwb economaidd sylweddol i dwristiaeth yr ardal.<br><br>Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r dylunio. |
| 4. Fel rhan o'u taith ddylunio flynyddol ym Medi 2016, ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ag un adeilad rhestredig a dderbyniodd ganiatâd cynllunio/caniatâd adeilad rhestredig dan fframwaith polisi'r CDLl. Roedd y caniatâd mewn perthynas â'r Meal House blaenorol yn Fferm Manor House, Rogiet. Gwnaeth manylder syml yr estyniad ychwanegol argraff ar yr Aelodau sy'n defnyddio deunyddiau modern mewn cyferbyniad ag elfennau traddodiadol adeilad Meal House, a adeiladwyd o gerrig a llechi.<br><br>Bydd y Cyngor yn dal i fonitro'r mater hwn yn ofalus mewn AMBau yn y dyfodol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â datblygiadau a allent o bosib effeithio'n sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol/archeolegol, Henebion Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. |
| 5. Ni roddwyd caniatadau cynllunio dros y cyfnod monitro gyda gwrthwynebiad heb ei gymryd gan Dîm Rheoli Treftadaeth y Cyngor, Cadw neu GGAT. Mae Polisi S17 yn gweithio'n effeithiol yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn dal i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a'r safleoedd hanesyddol i benderfynu effeithioldeb y fframwaith polisi mewn perthynas â'r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| 4. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Geiriad y sbardun wedi'i ddiwygio i egluro bod y sbardun yn cyfeirio at golli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol.

**Geiriad y targed wedi'i ddiwygio er eglurhad, mae'n cyfeirio at y 18 Arfarniad o Ardal Gadwraeth drafft a oedd ar y gweill yn ystod y cyfnod yn arwain at fabwysiadu'r CDLl.

# 6 Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

**Methodoleg**

6.1 Mae Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymestyn asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn Amcanion Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae'r data a goladwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwadau yn y golofn olaf i ddisgrifio'r cynnydd a darparu argymhelliad. Ni chynhwysir yr holl ddangosyddion a restrwyd yn wreiddiol yn fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, darperir gwybodaeth yn unig ar gyfer y dangosyddion hynny lle mae data ar gael. Yn ychwanegol at ddangosyddion a ddiwygiwyd neu a ddilëwyd yn y drafft blaenorol o'r AMB, diwygiwyd ymhellach nifer o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn y cyfnod monitro diwethaf. Mae Tabl Dangosyddion yr AoG a Ddiwygiwyd / Ddilëwyd yn dynodi unrhyw ddangosyddion a gafodd eu diweddaru ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-2016 ac yn amlinellu'r rhesymeg.

6.2 Fel y nodwyd uchod, gallai dangosyddion fod wedi'u diwygio ers y cyfnod monitro diwethaf, italeiddir y testun i ddynodi'r dangosyddion lle gwnaed newid ers yr AMB blaenorol. Mae gorgyffwrdd hefyd ac mae rhai o ddangosyddion monitro'r CDLl a dangosyddion monitro'r AoG yn rhyng-gysylltiedig. Darperir crynodeb byr er y dylid cyfeirio at Ddadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 y CDLl am wybodaeth bellach.

6.3 Mae nifer o ddangosyddion yr AoG lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft y rheiny'n seiliedig ar y Cyfrifiad. Pwrpas y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau'n flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain o angenrheidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen parthed monitro yn y dyfodol. Fe'u cadwyd er mwyn darparu llinell sylfaen, cyflawnwyd gwaith i geisio dod o hyd i ffynonellau amgen o wybodaeth, fodd bynnag nid ymddengys bod rhai ar gael.

6.4 Ni chymerwyd ymlaen system y graddau goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r AoG. Mae nifer o amcanion yr AoG yn uchelgeisiol. Yn ychwanegol, nid y CDLl yn unig fyddai'r unig ffactor y byddai angen ei ystyried er mwyn cyflawni'u nodau. Nid yw monitro'r AoG yn cynnwys targedau fel y cyfryw, yn wahanol i fonitro'r CDLl, byddai'n anodd felly ddehongli'r sylwadau i mewn i system graddau goleuadau traffig. Mae'r symbolau sy'n gysylltiedig â dangosyddion penodol yn dynodi'r cyfeiriad newid a ddymunir. Mae'r symbolau'n cyfeirio at; (+) cynnydd neu fwy; (-) gostyngiad, llai neu ddim a; (dn) dim newid. Gan fod hwn yn cyfeirio at drydydd monitro'r AoG ers mabwysiadu'r CDLl caiff ei gymharu â'r ddau AMB yn unig, Daw tueddiadau sy'n codi'n fwy amlwg yn AMBau y dyfodol. Yn unol â hynny, cyfeirir at y newid cyfeiriad fel un perthnasol yn yr adran sylwadau. Defnyddir hyn i asesu datblygiad y CDLl tuag at gwrdd â'r dangosyddion datblygu cynaliadwyedd a ddynodwyd.

6.5 Yn bennaf mae'r wybodaeth a gynhwysir yn fframwaith monitro'r AoG yn cyfeirio at ystod eang o ddata a gynhyrchwyd yn fewnol, gan amrywiol adrannau'r Cyngor ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Lle cafwyd data o ffynonellau allanol, darperir troed nodyn i sicrhau y gellir adnabod ffynhonnell y data'n hawdd.

**Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion yr AoG | Data | Sylwad |
|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | Caniatáu hygyrchedd teg i'r holl swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen arnynt, mewn modd sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar y defnydd o gar. | **1.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**2.** Cyfran y bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n seiclo.<br>**3. Cyfran y gweithlu sy'n aros yn eu hardal eu hun ar gyfer gwaith, yn ôl ystadegau teithio i'r gwaith (+)**<br>**4. Cyfran y datblygiadau tai a gwblhawyd o fewn neu'n gyfagos i'r prif drefi, Aneddiadau Glan Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd (AGE) a gwledig cyffredinol, fel y dynodwyd ym Mholisi S1.**<br>**5.** *Canran y datblygiadau mawr *newydd o fewn taith gerdded 10 munud o wasanaeth bws mynych caniatadau preswyl, cyflogaeth, manwerthu a* | **1.** 21.9 cilometr**<br>**2.** 16.7%**<br>**3.** 57.9%*****<br>**4.** Prif Drefi :38.2%, Glan Hafren:19.3%, AGE:21.4%, Gwledig Cyffredinol:21%<br>**5.** 87% | **1 - 2.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n seiclo. Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yw 21.9 cilometr. Ni chaiff data'u cyhoeddi tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, o ganlyniad ni ellir derbyn cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Bydd y data'n aros yr un mewn AMBau yn y dyfodol. .<br><br>**3.** Mae ystadegau teithio i'r gwaith y Llywodraeth yn dynodi bod 57.9% o weithlu Sir Fynwy'n aros yn eu hardal ar gyfer gwaith. Mae'r ffigur hwn wedi lleihau ychydig o 0.4% ers yr AMB blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn, gan fod y data'n seiliedig ar sampl arolwg bychan ac felly dylid eu trin yn ofalus.<br><br>**4.** Y Prif Drefi ddarparodd y gyfran fwyaf o dai wedi'u cwblhau dros y cyfnod monitro, yn cyfateb i 38.3% o'r ffigur cyflawn. Darparodd yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd 21.4% a darparodd y Gwledig Cyffredinol, sy'n cynnwys ffigurau o'r Prif Bentrefi, 21%. Cyfrifai Aneddiadau Glan Hafren am 19.3% dros y cyfnod monitro, er bod hyn yn gynnydd o 8.1% yn y cyfnod monitro blaenorol. Mae'r Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5, sy'n cyfeirio at y Strategaeth Ofodol, yn darparu dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn.<br><br>**5.** O'r 15 cynllun cymwys, cyfeiriai 11 at ddefnyddiau preswyl, cyfeiriau 2 at gyflogaeth, 1 at hamdden (Cwrs Rasio Cas-gwent) a chyfeiriai'r cynllun olaf at gartref gofal. Melin Bapur Sudbrook yw'r unig safle cyflawn nad yw wedi'i leoli o fewn pellter cerdded 10 munud i arosfan / wasanaeth bws. Mae'r gwasanaeth bws yn safle Melin Bapur Sudbrook (212 o anheddau) ar hyn o bryd wedi'i leoli o fewn pellter cerdded 10 munud i arosfan bws yn Portskewett, fodd bynnag, byddai rhan o'r safle dros bellter cerdded 10 munud. Ta waeth, mae'r Cytundeb Adran 106 ar gyfer safle Melin Bapur |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *hamdden yn unig)'* | | Sudbrook yn cynnwys cyfraniad o £200,000 i'w ddefnyddio gan y Cyngor tuag at ddarparu gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethu Sudbrook. Yn ychwanegol at hyn, byddai 46 o dai a ganiatawyd yn safle'r Hen Iard Longau, Sudbrook wedi'u lleoli ychydig dros bellter cerdded i arosfan bws gwahanol yn Portskewett, y gellir cael mynediad iddo ar hyd Black Rock. Mae'r 13 cynllun arall, fodd bynnag, wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded 10 munud i wasanaeth bws mynych a rheolaidd. Tra mae cyfran y cynlluniau datblygu mawr o fewn pellter cerdded 10 munud i wasanaeth bws mynych a rheolaidd wedi gostwng o 100% i 87% ers yr AMB diwethaf, dylid nodi mai dim ond 5 cynllun gafodd eu hystyried ar yr amser hwnnw. Gwneir darpariaeth ar ffurf Cytundeb Adran 106 I ddarparu gwasanaeth bws i Sudbrook, byddai'r ffigur felly yn codi i 100% unwaith y gweithredir y cytundeb hwn.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Tai | Darparu amrywiaeth o fathau a deiliadaethau tai sy'n caniatáu i bobl gwrdd â'u hanghenion tai | **1.** Pobl angen tai (-)<br>**2. Tai fforddiadwy a gwblhawyd (+)**<br>**3. Cartrefi'r farchnad gyffredin a gwblhawyd**<br>***4. Dwysedd y tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd (SAH1 - SAH10)***<br>**5. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y dynodwyd ym mholisi S3**<br>**6. Nifer yr anheddau** | **1.** 474 y flwyddyn dros y Cyfnod 5 Mlynedd (dyddiad sylfaenol 2015)<br>**2.** 47<br>**3.** 191<br>**4.** Rhoddwyd caniatâd i 2, dwysedd o 26 &30<br>**5.** Caniatawyd 212 o anheddau, cwblhawyd 21<br>**6.** Cwblhawyd 0<br>**7.** Gweler y tabl yn yr adran sylwadau<br>**8.** 4.0 Blynedd | **1.**Cofnodwyd y data diweddaraf sydd ar gael yn yr AMB diwethaf ac ni chawsant eu diweddaru hyd yn hyn. Cyhoeddwyd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) 2015 -2020 yn Ebrill 2015. Mae'r FDL newydd yn defnyddio methodoleg wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y CDLl. Ni ellir, felly, gymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol. Ni ddylid cymryd y ffigur 474 fel targed ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy gan nad tai a adeiladwyd o'r newydd yw'r unig gyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi rhent preifat a sicrhau cartrefi gwag yn cael eu defnyddio eto. Fel y nodwyd uchod ni chafodd y ffigur ei ddiweddaru ers yr AMB blaenorol, eto i gyd mae'n rhoi amcan o'r angen cyfredol estynedig am dai fforddiadwy o fewn y Sir ac mae'n gosod meincnod y gall y Cyngor weithio tuag ato.<br><br>**2 – 5.** Roedd 47 o gartrefi fforddiadwy wedi'u cwblhau a 191 o anheddau marchnad wedi'u cwblhau dros y cyfnod monitro. O'r 2 safle a neilltuwyd a gafodd ganiatâd (SAH1 to SAH10) roedd 1 o'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ffforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithrio gwledig<br>**7.** Nifer yr anheddau a ddarparwyd yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a amlinellir ym Mholisi S2<br>**8.** Cyflenwad tir ar gyfer tai | | safleoedd (Melin Bapur Sudbrook SAH7) â dwysedd o 30 annedd yr hectar (dyh) sy'n uwch na tharged dwysedd y safle o 29ayh fel yr amlinellwyd yn y CDLl, roedd y llall yn is na tharged dwysedd y safle o 32ayh ar 26ayh (Coed Glas SAH9). Tra mae gostyngiad yn nifer yr anheddau a ganiatawyd (212 o ganiatadau 2016 - 2017) ar safleoedd strategol o'r AMB blaenorol (340 o ganiatadau 2015 - 2016) roedd cynnydd yn y tai a gwblhawyd gan na chafodd un ei gofnodi yn y 2 AMB blaenorol. Mae'r 21 o dai a gwblhawyd yn ymwneud â safle Heol Wonastow yn unig.<br><br>**6.** Ni chwblhawyd unrhyw dai mewn perthynas â chynlluniau eithrio gwledig dros y cyfnod monitro. Mae'r safle adeiladu'ch-cartref-sengl-eich-hun y cyfeiriwyd ato mewn dau AMB blaenorol wedi gwneud cynnydd ond nid yw wedi'i gwblhau hyd yn hyn.<br><br>**7.** Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r 238 o anheddau a gwblhawyd, o gymharu â'r hierarchaeth aneddiadau a amlinellir ym Mholisi S2. Mae'r Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â'r Strategaeth Ofodol yn darparu dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn.<br><br>(see table below)<br><br>**8.** Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CAATT) Sir Fynwy dros gyfnod 2016-2017 yn dangos, yn seiliedig ar y dull preswyl, i'r Sir gael cyflenwad tir 4.0 blynedd ar gyfer tai.<br>Mae'r Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â<br>Pholisi Strategol S2 yn darparu dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. |

| | **2016– 2017** | **Targed** |
|---|---|---|
| **Prif Drefi** | 38.2% | *41%* |
| **Glan Hafren** | 19.3% | *33%* |
| **Gwledig Eilaidd** | 21.4% | *10%* |
| **Gwledig Cyffredinol** | 21% | *16%* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Iechyd, diogelwch & sicrwydd | Gwella iechyd a lles drwy annog dulliau byw mwy iachus, ac amddiffyn pobl rhag perygl a allai effeithio ar eu hiechyd a /neu'u diogelwch | **1.** Faint o fannau agored a grëwyd o ganlyniad i ganiatadau cynllunio | **1.** 2 hectar | **1.**Cymeradwywyd cyfanswm o 2 hectar o fannau agored o ganlyniad i ganiatadau cynllunio dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn dangos bod caniatadau cynllunio a ganiatawyd drwy'r broses gynllunio yn hyrwyddo'n llwyddiannus ddarpariaeth mannau agored newydd.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Cymuned | Cefnogi a hyrwyddo cymeriad neilltuol cymunedau lleol a chydlyniad cymunedol | **1. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt (+)**<br>**2. Nifer y cyfleusterau cymunedol a hamdden a gollwyd i ddefnyddiau eraill**<br>**3. Maint y mannau agored cyhoeddus / meysydd chwarae a gollwyd i ddatblygiad na neilltuir yn y cynllun datblygu** | **1.** 4<br>**2.** 6<br>**3.** 0 hectar | **1.** Dros y cyfnod monitro rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 4 cyfleuster naill ai fel cyfleuster cymunedol neu hamdden. O'r rhain roedd 1 ar gyfer defnydd hamdden a 2 ar gyfer defnydd cymunedol. Roedd gostyngiad bychan yn y nifer o gyfleusterau cymunedol/hamdden a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro (4 cyfleuster) o gymharu â'r AMB blaenorol ac fe ddeil i gael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**2.** Collwyd 6 chyfleuster cymunedol dros y cyfnod monitro. Roedd pump o'r ceisiadau mewn perthynas â datblygu preswyl. Tra mae'r data a gasglwyd yn dangos bod nifer o gyfleusterau cymunedol wedi cael eu colli i ddefnyddiau amgen dros y cyfnod monitro, cyfiawnheir eu colli o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**3.** Ni roddwyd caniatadau ar feysydd chwarae nac unrhyw fannau agored eraill ar gyfer datblygiad na neilltuir yn y CDLl. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â Thirwedd, Isadeiledd Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Bioamrywiaeth | Gwarchod, gwerthfawrogi, rheoli a gwella ecosystemau sy'n gweithredu'n iachus, cynefinoedd ac amrywiaeth rhywogaethau naturiol, rhoi gwerth ar fuddiannau cadwraeth natur lle bynnag y deuir ar eu traws | **1. Datblygiadau a ganiatawyd sy'n peri niwed i werth cyffredinol Cadwraeth Natur safleoedd a neilltuwyd yn lleol (-)**<br>**2. Nifer y datblygiadau newydd sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd**<br>**3.** Hectarau o goetir hynafol yn cael eu colli i ddatblygiad (-)<br>**4. Datblygiadau a ganiatawyd o fewn ardaloedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol/yn genedlaethol.** | **1.** 1 cais<br>**2.** 0<br>**3.** Oddeutu 0.025 hectar o goetir hynafol a allai fod yn beryglus o agos at eu colli i ddatblygiad<br>**4.** 0 | **1.** Caniatawyd un cais i SINC. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â Thirwedd, Isadeiledd Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i wybodaeth fod ar gael i fonitro'r dangosydd hwn ac oherwydd nad oes unrhyw ddata er cymharu wedyn, deil i gael ei fonitro yn AMBau'r dyfodol.<br><br>**2.**Ni chaniatawyd datblygiadau'n benodol i wneud darpariaeth ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**3.**Gallai cyfran fechan o goetir hynafol gael ei cholli o ganlyniad i ddatblygiadau a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro. Roedd hyn mewn perthynas â chwympo oddeutu 15-20 o goed llarwydd i wneud lle i echdynnu mwynau ar y safle[1]. Darparodd yr ymgeisydd, fodd bynnag, Gynllun Asesu a Rheoli Coetir mewn cefnogaeth i'r cais sy'n brawf bod y coetir yn gweddu i adferiad graddol hirdymor, yn bennaf i goed llydanddail. Rhoddir amodau ar y cais a chaiff y coetir ei adfer yn llwyr unwaith bydd y gwaith wedi'i orffen ymhen pum mlynedd. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn peri niwed annerbyniol i'r coetir hynafol.<br><br>**4.**Ni chaniatawyd ac ni chwblhawyd unrhyw ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth natur pwysig yn rhyngwladol/yn genedlaethol yn ystod y cyfnod monitro. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 mewn perthynas â Thirwedd, Isadeiledd Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Tirwedd | Cynnal a gwella ansawdd a | **1.** Nifer y coed, a ddiogelir gan | **1.**Cafodd oddeutu 20 coeden a | **1.**Cafodd oddeutu 20 coeden a ddiogelir gan Orchymyn Diogelu Coed eu colli i ddatblygiad dros y cyfnod monitro. Mae'r rhain i gyd |

[1] Yn cyfeirio at DC/2015/01541 yng Nghoedwig Cledd-y-Tan, Kilgwrrwg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chymeriad y dirwedd, gan gynnwys ei chyfraniad i osodiad a chymeriad yr aneddiadau | Orchmynion Diogelu Coed, a gollwyd i ddatblygiad (-) | ddiogelir gan Orchymyn Diogelu Coed eu colli. | mewn perthynas â choed yn ardal safle Coed Glas a gaiff ei ddynodi ym Mholisi SAH9 ar gyfer datblygu preswyl. Tra mae'r ffigur yn ymddangos yn fawr cyfiawnheir colli'r coed er mwyn dwyn ymlaen ddyraniad y CDLl. Mae'r coed a gollwyd yn bennaf yn cynnwys grwpiau llinellog o ansawdd isel. Mae'r cynllun yn cynnwys gwneud yn iawn am golli'r coed drwy blannu coed ychwanegol i ategu'r coed a gedwir ar y safle.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Yr Amgylchedd Adeiledig | Cynnal a gwella'r amgylchedd adeiledig am ei gymeriad gweledol ynghyd â'i nodweddion unigryw a chreu gwell amgylchedd byw. | **1. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.**<br>**2. Cwblhawyd nifer o ddatblygiadau newydd sy'n corffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-y-safle. (h.y. caniatadau'n dilyn mabwysiadu'r CDLl a gafodd eu cwblhau dros gyfnod monitro 2016-2017).**<br>**3. Sampl o geisiadau cynllunio a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau â photensial ar gyfer goblygiadau dylunio/ amgylcheddol arwyddocaol.** | **1.** 5<br>**2.** 3<br>**3.** Amherthnasol | **1.** Cymeradwywyd pum cais dros y cyfnod monitro ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-y-safle. Roedd tri o'r cynlluniau mewn perthynas â datblygiadau solar ar raddfa fechan. Roedd y ddau gynllun arall mewn perthynas â biomas. Mae hyn y cymharu â chyfanswm o wyth cynllun yn yr AMB blaenorol. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 ar Ddefnyddio Adnoddau'n Effeithlon a Pherygl Llifogydd.<br><br>**2.**Cwblhawyd cyfanswm o 3 chynllun ynni adnewyddadwy dros y cyfnod monitro ac meant nawr yn gweithredu. Roedd y tri chynllun a gwblhawyd mewn perthynas ag ynni solar, un ar raddfa fechan a dau gynllun mawr. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 ar Ddefnyddio Adnoddau'n Effeithlon a Pherygl Llifogydd.<br><br>**3.** Mynychodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ddwy daith ddylunio dros y cyfnod monitro. Cynhaliwyd y teithiau dylunio ym Medi 2016 a Mawrth 2017, ystyriwyd cyfanswm o 6 chais a gymeradwywyd yn y CDLl. Roedd cais pellach mewn perthynas â dangosydd 2 yn erbyn y pennawd treftadaeth hanesyddol. Ymatebodd yr Aelodau'n gadarnhaol yn bennaf i'r datblygiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon o bwys. Cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 ar Wneud Lle a Dylunio am wybodaeth bellach.<br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Treftadaeth Hanesyddol | Deall, gwerthfawrogi, diogelu ac adfer, lle bo angen, y dreftadaeth hanesyddol ddiwylliannol yr ardal, gan gynnwys nodweddion yr amgylchedd adeiledig a lled-naturiol. | **1. Nifer o adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol (-)**<br>**2. Sampl o geisiadau cynllunio a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau â photensial i gael effaith sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol / archeolegol, henebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth effeithir yn andwyol gan ddatblygiad.**<br>**3. Nifer o ardaloedd cadwraeth gydag arfarniad cymeriad diweddar.** | **1.** Adeiladau Rhestredig: 2153, Henebion Rhestredig: 164, Parciau a Gerddi Hanesyddol: 45, Ardaloedd Archeolegol Sensitif: 10 a Thirweddau o Bwysigrwydd Hanesyddol: 3<br>**2.** Amherthnasol<br>**3.** 19 o arfarniadau cymeriad diweddar o Ardaloedd Cadwraeth. | **1.**Ni ddirestrwyd unrhyw adeiladau rhestredig gan Cadw dros y cyfnod monitro. Ymhellach nid oedd unrhyw newidiadau mewn perthynas â Henebion Rhestredig, yn ychwanegol at hyn, o listed buildings were delisted by Cadw over the monitoring period. Further to this there were no changes in relation to Scheduled Ancient Monuments, Histor Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro.<br><br>Fel rhan o'u taith ddylunio ym Medi 2016, ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ag un adeilad rhestredig a gafodd ganiatâd cynllunio/caniatâd adeilad rhestredig dan y CDLl. Gwnaeth manyldeb syml yr estyniad a ychwanegwyd, sy'n defnyddio deunyddiau modern mewn cyferbyniad ag elfennau traddodiadol adeilad y Tŷ Prydau, argraff ar yr Aelodau. Cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 ar Wneud Lle a Dylunio am wybodaeth bellach.<br><br>**2.** Cynhyrchwyd cyfanswm o 19 o Arfarniadau Ardal Cadwraeth ac fe'u mabwysiadwyd fel CCA. Cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi Gwneud lle a Dylunio yn Adran 5 am fanylion pellach.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Aer | Lleihau pob ffurf o lygredd aer er budd ansawdd aer lleol a phurdeb yr atmosffer i ddiogelu rhag newid hinsawdd. | **1.** Nifer o leoliadau lle mae ansawdd aer yn well na'r lefelau gwrthrychol y flwyddyn (-)<br>**2.** Canran y bobl mewn cyflogaeth sy'n defnyddio'u car/carafán fel eu prif ffordd o gymudo i ac o'r gwaith naill ai | **1.** 1 lleoliad yng Nghas-gwent<br>**2.** 81.4%**<br>**3.** 16.7%** | **1.**Rhagorwyd ar lefel flynyddol wrthrychol nitrogen deuocsid mewn un lleoliad yn unig yn 2016. Roedd mewn perthynas â Hardwick Hill yng Nghas-gwent, yr un lleoliad â'r flwyddyn flaenorol. Am yr ail flwyddyn yn olynol, nid oedd gormodiant ym Mrynbuga. Nid oedd ychwaith ormodiant yn Llan-ffwyst neu Drefynwy. Lleolir tiwbiau monitro yng Nghas-gwent, Llan-ffwyst, Trefynwy a Brynbuga gan mai'r rhain yw'r ardaloedd a ddynodwyd fel rhai â phroblemau ansawdd aer. Mae lleoliad lle mae lefelau gwrthrychol ansawdd aer yn aros heb newid dros y cyfnod monitro, mae'r tîm iechyd amgylcheddol yn parhau i fonitro hyn yn ofalus ac maent yn ymchwilio i nifer o ffyrdd i leihau'r lefel hon. Tra na fu unrhyw |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | drwy yrru neu fel teithiwr (-)<br>**3.** Canran y bobl mewn cyflogaeth sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n seiclo (+) | | welliant mae'n galonogol nad oes unrhyw leoliadau ychwanegol sy'n uwch na lefelau gwrthrychol ansawdd aer, bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>**2 - 3.**Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n seiclo. Cymerwyd modd o ystadegau cymudo hefyd o Gyfrifiad 2011 yn dynodi 81.4% o'r bobl mewn cyflogaeth fel rhai'n defnyddio'u car/carafán fel eu prif ffordd o gymudo i ac o'r gwaith. Ni chaiff data'u cyhoeddi tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, fel canlyniad ni ellir derbyn cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Bydd y data hyn felly, yn aros yr un fath mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ansawdd dŵr | Cynnal a gwella ansawdd dŵr daear, dŵr wyneb a dyfroedd arfordirol. | **1.** % yr afonydd sy'n cyrraedd statws ansawdd dŵr 'da' (+)<br>**2.** Cyfran y safleoedd a neilltuwyd a phob datblygiad arall o dros 10 annedd /1 hectar sy'n corffori SUDCau (+) | **1.** 32%***<br>**2.** 8 of20 | **1.**Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) yn cyfuno statws ecolegol a chemegol yn ei chofnodi. Bydd yn ofynnol i'r corff dŵr wyneb gyrraedd statws da yn y ddwy elfen er mwyn cyrraedd 'statws da' yn gyffredinol. O'r afonydd a aseswyd ar draws Sir Fynwy, cyfrifwyd i 32% dderbyn statws 'da' yn 2015. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cynhyrchu dosbarthiad blynyddol ac mae'r ffigurau, felly, yn aros yr un fath â'r cyfnod monitro blaenorol.<br><br>**2.**O'r ugain cais perthnasol a ganiatawyd, roedd un ar ddeg mewn perthynas â chynlluniau preswyl, dau â safleoedd cyflogaeth saith o'r cynlluniau preswyl yn corffori SUDCau sy'n amrywio o osod wyneb hydraidd ar-y-safle a ffosydd cerrig i system gynhwysbwll ar gyfer draenio dŵr wyneb. Dim ond un o'r cynigion cyflogaeth a gorfforai SUDCau ac ni chorfforwyd hwy i'r defnyddiau eraill er i amod gael ei osod yn ei le ar gyfer cynllun rheoli dŵr ar gyfer un o'r cynlluniau hynny. Tra nad oedd SUDCau wedi'u corffori'n llawn i mewn i bob datblygiad mawr dros y cyfnod monitro, ymddengys y gellir cyfiawnhau diffyg SUDCau gan y cydnabyddir SUDCau o fewn manylion y cais ac adroddiadau'r swyddogion. Mae nifer y datblygiadau mawr a ganiatawyd wedi cynyddu'n sylweddol ers y cyfnod monitro diwethaf lle mai dim ond 5 cynllun o'r fath a ganiatawyd. Mae cyfran y cynlluniau a gorfforai SUDCau, fodd bynnag, wedi cynyddu ers y cyfnod monitro diwethaf, felly fe gaiff y dangosydd hwn ei fonitro'n glos yn yr AMB nesaf.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Cyflenwad dŵr | Cynnal maintioli'r dŵr sydd ar gael gan gynnwys maintioli'r cyflenwad dŵr yfed, a lefelau dŵr daear ac afonydd | **1.** Cyfran y cyrff dŵr daear sy'n chwilio am statws ansawdd 'dda' (+) | **1.**100%*** | **1.**Mae Sir Fynwy'n gorwedd o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Goch Dyfnaint Brynbuga (HDG), HDG Eilaidd Dyfnaint Gwy a Charreg Galch Garbonifferaidd ddeheuol Wysg a Gwy. Roedd gan bob un o'r tri chorff dŵr daear statws da ar gyfer maint dros gyfnod monitro 2015. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cynhyrchu dosbarthiad blynyddol ac mae'r ffigurau, felly, yn aros yr un fath â'r cyfnod monitro blaenorol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Perygl llifogydd | Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio ac yn cael eu lleoli er mwyn osgoi perygl llifogydd, a sicrhau nad yw perygl llifogydd yn cael ei gynyddu mewn mannu eraill | **1. Nifer y caniatadau ar gyfer datblygiadau mewn Parthau Llifogydd C1 a C2 heb fod yn cwrdd â holl brofion NCT 15 (-)**<br>**2.** Cyfran y safleoedd a neilltuwyd a phob datblygiad arall o dros 10 annedd /1 hectar sy'n corffori SUDCau (+)<br>**3.** Adegau lle profodd afonydd lif haf isel (-) | **1.** 0<br>**2.** 8 of 20<br>**3.** 0*** | **Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Mwynau a gwastraff | Sicrhau y rheolir deunyddiau a mwynau primaidd mewn ffordd gynaliadwy, drwy ddiogelu ardaloedd mwynol, annog ailddefnyddio ac ailgylchu ac osgoi gwaredu adnoddau'n derfynol | **1. Nifer y datblygiadau parhaol heb ymwneud â mwynau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelir nad ydynt yn cydymffurfio â Pholisi M2 (-)**<br>**2.** Cyfran gwastraff aelwydydd Sir Fynwy sy'n cael ei ailgylchu a'i wrteithio (+)<br>**3. Swm capasiti'r rheoli gwastraff a ganiateir wedi'i fynegi fel canran o'r cyfanswm capasiti** | **1.** 0<br>**2.** 64.1%****<br>**3.** 0 hectar wedi'i ganiatáu<br>**4.** 0 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sy'n ofynnol fel y dynodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol<br>**4.** Maint yr agregau crai a enillwyd o'r tir fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol . | | |
| Tir/pridd | Defnyddio tir yn effeithlon drwy flaenoriaethu datblygiadau ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, lle bo hynny'n bosibl, a defnyddio'r tir presennol yn effeithlon drwy fynd i'r afael â halogi ac amddiffyn pridd amaethyddol ansawdd uwch | **1.** *Canran y datblygiadau a ganiatawyd ar dir maes glas fel canran o'r holl ddatblygiadau, ac eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol (nc neu -)*<br>**2.** Maintioli'r tir maes glas a gollwyd i ddatblygiad nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu<br>**3.** Dwyseddau blynyddol cyfartalog datblygiadau tai newydd (+)<br>**4.** Hectarau o dir amaethyddol ar Radd 3a a gwell a gollwyd i ddatblygiadau mawr* | **1.** 48.8%<br>**2.** 16.5 hectar<br>**3.** 23.5dphectar<br>**4.** 0 | **1.**Caniatawyd cyfanswm o 36.3 hectar o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, 17.7 hectar ohono ar dir maes glas. Roedd hyn yn cyfateb i 48.8% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol) a gani9atawyd ar dir maes glas. Roedd nifer o'r ceisiadau a ganiatawyd mewn perthynas â newid defnydd tir i gynnal llety twristiaeth cynaliadwy sy'n ffurfiau anbarhaol o ddatblygiad. Bu gostyngiad sylweddol yn y swm o dir maes glas a ganiatawyd ar gyfer datblygiad ers y cyfnod monitro diwethaf yn unol â'r cyfeiriad newid a ddymunir.<br><br>**2.** Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 31 o ganiatadau ar dir maes glas na neilltuwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLl, yn gwneud cyfanswm o 16.5 hectar. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r ddau AMB blaenorol, pan oedd swm y tir maes glas na neilltuwyd yn sylweddol uwch (44.6 hectar yn 2015; 26 hectar yn 2014). Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o'r Polisi Tirwedd, Isadeiledd Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol yn Adran 5.<br><br>**3.** Roedd dwysedd blynyddol cyfartalog yr holl ddatblygiadau tai newydd yn cyfateb i 23.5 annedd yr hectar. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ddau AMB diwethaf a gyfatebai i gyfanswm o 22 (2015-2016) a 21 (2014-2015) annedd yr hectar, sy'n dangos cynnydd o'r ddau gyfnod monitro blaenorol ac felly cynnydd cadarnhaol. Ymhellach, tra mae'r ffigur yn is na tharged y CDLl o 30 annedd yr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (ac eithrio dyraniadau'r CDLl a datblygiad amaethyddol)' | | hectar, dim ond 7 cais ar gyfer safleoedd o dros 10 a dderbyniodd ganiatâd dros y cyfnod monitro. Roedd mwyafrif y caniatadau'n ymwneud â lleiniau mewnlenwi mewn gerddi, gan leihau dwysedd datblygiadau'n gyffredinol.<br><br>**4.** Ni chollwyd unrhyw dir amaethyddol ar Radd 3a a gwell i ddatblygiadau mawr dros y cyfnod monitro. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu Dosbarthiad Tir Amaethyddol rhagfynegol newydd ar gyfer Cymru. Bydd hwn yn darparu dosbarthiad tir amaethyddol mwy cywir ac fe'i defnyddir mewn AMBau yn y dyfodol yn erbyn y dangosydd hwn.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Ynni | Sicrhau gwelliannau effeithiolrwydd ynni yn yr holl adeiladau newydd ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy. | **1. Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n corffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-y-safle. (h.y. caniatadau'n dilyn mabwysiadu'r CDLl a gafodd eu cwblhau dros gyfnod monitro 2016-2017)** | **1.** 5 | **1.**Dros y cyfnod monitro cymeradwywyd pum cais ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-y-safle. Roedd tri o'r cynlluniau'n ymwneud â datblygiadau solar ar raddfa fechan. Roedd y ddau gynllun arall yn ymwneud â biomas. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o wyth cynllun yn yr AMB blaenorol. Am fanylion pellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Effeithlon o Adnoddau a Pherygl Llifogydd.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |
| Cyflogaeth | Darparu amrywiaeth o swyddi o fewn Sir Fynwy sy'n helpu i gwrdd ag angen y gweithlu preswyl. | **1. Cyflenwi tir cyflogaeth net/datblygu a chymryd i fyny dir cyflogaeth (+)**<br>**2. Maintioli'r tir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau heb ymwneud â chyflogaeth**<br>**3. Cyfran y gweithlu** | **1.** Cyflenwi 40.76 hectar, Cymryd i fyny 3.21 hectar<br>**2.** 0.65 hectar<br>**3.** 57.9%*****<br>**4.** 21.9 cilometr**<br>**5.** Y Fenni: 8.7%, Cil-y-coed: 10.1%, Cas-gwent: 7.1%, | **1.**Dynododd y Papur Cefndir i Dir Cyflogaeth 40.76 hectar o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir, mae'r cyflenwad yn cyfeirio at Safleoedd Diwydiannol a Busnes SAE1 dynodedig yn unig. Tra mae digon o dir ar gael, roedd nifer y rhai a gymerodd i fyny dir cyflogaeth wedi'i gyfyngu i 3.21 hectar dros y cyfnod monitro blaenorol (0.38 hectar 2014-2015 a 1.131 hectar 2015 -2016 yn y drefn honno) ac mae o ganlyniad yn gynnydd cadarnhaol iawn. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>**2.**Cymeradwywyd dau gais yn ymwneud â cholli tir cyflogaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **preswyl sy'n gweithio yn Sir Fynwy (+)**<br>**4.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**5. Canran yr unedau gwag o fewn ASC pob tref a chanolfan leol** | Trefynwy: 4.9%, Magwyr: 0%, Rhaglan: 0%, Brynbuga: 13.1% | dosbarth B yn ystod y cyfnod monitro, yn gwneud cyfanswm o 0.65 hectar. Roedd y cynnig cyntaf mewn perthynas â chyfleuster gofal (Dosbarth Defnydd 2), 0.6 hectar, yn y safle busnes a diwydiannol dynodedig ym Mharc Busnes Westgate, Llan-ffwyst (SAE1d) (a neilltuwyd ar gyfer defnyddiau B1 a B2). Rhoddwyd caniatâd cynllunio hefyd i'r cais arall yn Heol Bulwark, Cas-gwent (SAE2i) ar gyfer newid defnydd o garej drwsio fasnachol (Use Class B2) to a gym (Dosbarth Defnydd D2). Cydnabyddir bod y ddau ddefnydd hwn yn cynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth. Caiff colli tir cyflogaeth ar gyfer y ddau safle ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi'r CDLl. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>**3.**Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi bod 57.9% o weithlu Sir Fynwy'n aros yn eu hardal eu hun am waith. Tra mae'r ffigur hwn ychydig yn is na ffigur y llynedd ac yn is na chyfartaledd Cymru mae'n uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn AMB 2014. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn am fod y data wedi'u seilio ar arolwg sampl bychan a dylid, felly, eu trin yn ofalus.<br><br>**4.**Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yw 21.9 cilometr. Ni chaiff y data eu cyhoeddi tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, o ganlyniad ni ellir derbyn cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Bydd y data hyn y aros yr un fath tan yr amser hwnnw Bydd y data hyn, felly, yn aros yr un fath mewn AMBau yn y dyfodol.<br><br>**5.** Mae'r cyfraddau gwacter a gofnodwyd yn yr Ardaloedd Siopa Canolog (ASC) ar gyfer holl ganolfannau trefi a phentrefi'r Sir yn us na chyfradd gwacter Cymru (15.2% Rhagfyr 2016, Cwmni Data Lleol). Dim ond un dref (Brynbuga) a gofnododd gyfradd uwch na chyfradd gwacter y DU (12.2% Rhagfyr 2016, Cwmni Data Lleol). Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o'r Polisi Manwerthu yn Adran 5. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>Parhau i fonitro amcan yr AoG.</td></tr>
<tr><td>Creu cyfoeth</td><td>Codi ffyniant ac ansawdd bywyd drwy ddatblygu economi leol fwy hunan - gynhaliol yn annog twf brodorol.</td><td>1. Ystod o Safleoedd Defnydd Cymysg dynodedig/ SAE1/SAE2 ar gael, dosbarthiad a maintioli<br>2. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl anheddiad<br>3. Rhoddwyd caniatadau cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl sector<br>4. Cyfran y gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)<br>5. Nifer y bobl yn mewn-gymudo i Sir Fynwy<br>6. Nifer y bobl yn all-gymudo o Sir Fynwy<br>7. Gwariant twristiaid (+)<br>8. Nifer yr arallgyfeiriadau / cynllluniau menter a gymeradwywyd<br>9. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd</td><td>1. Gweler y tabl yn yr adran sylwadau<br>2. Prif Drefi: 0.52 hectar<br>Glan Hafren: 0.17 hectar,<br>AGE:0.01 hectar,<br>Gwledig Cyffredinol:1.14 hectar<br>3. Gweler y tabl yn yr adran sylwadau<br>4. 57.9%*****<br>5. 20,400*****<br>6. 18,700*****<br>7. £190.05Miliwn ******<br>8. 6<br>9. 24<br>10. 1</td><td>1. Mae'r tabl isod yn dynodi ystod y safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir yn ôl lleoliad ynghyd â maint y safleoedd sydd ar gael. Tra mae cyfran fawr o dir wedi'i lleoli ym Magwyr mae dosbarthiad ar draws y Prif Drefi a rhai o'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd. Nid yw safle Parc Beaufort (SAE1i) bellach wedi'i gynnwys p fewn y tabl hwn gan fod y safle 0.42 hectar ar hyn o bryd yn cael ei adeiladu ar gyfer pum uned B2/B8.
<table>
<tr><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw/Lleoliad y Safle</th><th>Dosbarth Defnydd y Safle</th><th>Y tir gweddill sydd ar gael (hectar)</th></tr>
<tr><td>SAE1a</td><td>Un Cymru, Magwyr (gorllewin)</td><td>B1</td><td>4.0</td></tr>
<tr><td>SAE1b</td><td>Quay Point, Magwyr</td><td>B1/B2/B8</td><td>13.76</td></tr>
<tr><td>SAE1c</td><td>Europark Gwent, Magwyr</td><td>B8</td><td>13.3</td></tr>
<tr><td>SAE1d</td><td>Westgate, Llan-ffwyst</td><td>B1/B2</td><td>1.9</td></tr>
<tr><td>SAE1e</td><td>Heol Ross, Y Fenni</td><td>B1/B2</td><td>1.5</td></tr>
<tr><td>SAE1f</td><td>Fferm Newhouse, Cas-gwent</td><td>B2/B8</td><td>4.0</td></tr>
<tr><td>SAE1g</td><td>De Woodside, Brynbuga</td><td>B1</td><td>1.3</td></tr>
<tr><td>SAE1h</td><td>Pill Row, Cil-y-coed</td><td>B1/B8</td><td>1.0</td></tr>
<tr><td>SAE2l</td><td>Heol Wonastow, Trefynwy</td><td>B1/B2/B8</td><td>0.55</td></tr>
<tr><td>SAE2w</td><td>Un Cymru, Magwyr</td><td>B1/B2/B8</td><td>0.57</td></tr>
<tr><td>SAH2</td><td>Heol Crick, Portskewett</td><td>B1</td><td>1.0</td></tr>
<tr><td>SAH3</td><td>Fairfield Mabey, Cas-gwent</td><td>B1</td><td>2.8</td></tr>
<tr><td>SAH4</td><td>Heol Wonastow, Trefynwy</td><td>B1</td><td>2.78</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **10. Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygu, newid defnydd neu ddymchwel** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| SAH5 | Fferm Rockfield, Gwndy | B1 | 2.0 |

**2.** Roedd yr ardaloedd gwledig yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r caniatadau mewn perthynas â chyflogaeth dros y cyfnod monitro yn cyfateb i 1.14 hectar, roedd 0.81 hectar ohono, fodd bynnag, wedi'i leoli gerllaw'r Safle Cyflogaeth Gwarchodedig ym Mharc Technolegol Mamheilad. Roedd y Prif Drefi'n dilyn gyda 0.9 hectar. Roedd ardal Glan Hafren ac Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn cyfrif am nifer llai o ganiatadau, yn cyfrif am 0.17 hectar a 0.01 hectar yn y drefn honno, dros y cyfnod monitro. Am wybodaeth bellach cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi Economi a Menter yn Adran 5.

**3.** Mae'r tabl isod yn dynodi'r sectorau hynny'n unig lle digwyddodd caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cyflogaeth dros y cyfnod monitro. Roedd y gyfran fwyaf o arwynebedd llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarth defnydd B a ganiatawyd mewn perthynas â Thrafnidiaeth a Storio, gwybodaeth a chyfathrebu. Am y rhestr lawn o sectorau a gwybodaeth ychwanegol cyfeirier at y Dadansoddiad o Bolisi Economi a Menter yn Adran 5.

| **Sector** | **Maint (hectar)** |
|---|---|
| Gweithgynhyrchu | 0.07 hectar |
| Masnach cyfanwerthu a manwerthu; trwsio cerbydau modur a beiciau modur | 0.42 hectar |
| Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a thechnoleg | 0.82 hectar |
| Gweithgareddau ystâd real; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnolegol; Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cefnogi | 0.41 hectar |
| Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 0.02 hectar |

**4.**Mae ystadegau teithio i'r gwaith y Llywodraeth yn dynodi bod

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 57.9% o weithlu Sir Fynwy'n aros yn eu hardal eu hun ar gyfer gwaith. Tra mae hwn ychydig yn llai na ffigur y flwyddyn ddiwethaf ac yn is na chyfartaledd Cymru, mae'n uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn AMB 2014. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn, gan fod y data'n seiliedig ar sampl arolwg bychan ac felly dylid eu trin yn ofalus.<br><br>**5 - 6.**Dynododd Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2016 gyfanswm o 20,400yn cymudo i mewn i Sir Fynwy a 18,700 yn cymudo allan o Sir Fynwy. Mae lefel y mewn-gymudo wedi cynyddu ers y cyfnod monitro diwethaf (2015 - 2016 17,800) fodd bynnag mae lefel yr all-gymudo wedi aros yn gyson, gan arwain at fewnlif net o gymudwyr. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn, gan fod y data'n seiliedig ar sampl arolwg bychan ac felly dylid eu trin yn ofalus. Mae'r Dadansoddiad o'r Polisi Economi a Menter yn Adran 5 yn darparu dadansoddiad pellach o'r wybodaeth hon.<br><br>Mae dyhead i ostwng y lefelau mewn-gymudo ynghyd â'r all-gymudo a gofnodwyd yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Tra mae lefel yr all-gymudo wedi aros yn gyson (18,700) ers y cyfnod monitro diwethaf, mae lefel y mewn-gymudo wedi cynyddu (o 17,800 i 20,400), gan arwain at fewnlif net o gymudwyr. Mae hyn yn cyferbynnu â'r data a gofnodwyd yn y ddau AMB blaenorol lle'r oedd all-lif net o gymudwyr yn amlwg (400 yn 2014 a 900 yn 2015). Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y ffigurau hyn, gan fod y data'n seiliedig ar sampl arolwg bychan ac felly dylid eu trin yn ofalus.<br><br>**7.** Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2017) y gwariant twristiaeth blynyddol fel £190.05 Miliwn dros gyfnod 2016. Cymharodd hyn â £186.65 Miliwn dros gyfnod 2015, yn cyfateb I i gynnydd o 1.8%. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **8.**Cymeradwywyd cyfanswm o 6 chais mewn perthynas ag arallgyfeirio/â menter yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 4 o'r ceisiadau fel menter wledig a 2 fel arallgyfeirio gwledig. Gellir gweld manylion llawn y rhain yn y Dadansoddiad o Bolisi Menter Wledig yn Adran 5.<br><br>**9 – 10.** Cymeradwywyd cyfanswm o 24 o gynlluniau twristiaeth dros y cyfnod monitro yn amrywio o lety gwyliau unigol (pob addasiad) i lety glampio gan gynnwys cabanau bugeiliaid. Cymeradwywyd un cais cynllunio yn ymwneud â cholli cyfleuster twristiaeth dros y cyfnod monitro. Roedd hwn mewn perthynas â Thafarn y Swan yn Y Fenni. Ystyriwyd y newid defnydd, fodd bynnag, yn dderbyniol o gofio'i fudd economaidd i'r ardal leol, gan gynnwys cynnydd cysylltiedig mewn cyfleoedd cyflogaeth. Mae'r Dadansoddiad o'r Polisi Economi Ymwelwyr yn Adran 5 yn darparu manylion llawn o'r math o gyfleusterau twristiaeth a enillwyd dros y cyfnod monitro.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr AoG.** |

*Datblygiad mawr - datblygiad yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol: datblygiadau o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar neu fwy ar gyfer ceisiadau amlinellol a llawn; datblygu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr i'w greu 1000m$^2$ neu fwy; datblygiadau ar y safle gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; ennill neu weithio mwynau, neu ddefnydd o'r tir ar gyfer gweithio dyddodion mwynau; neu, datblygiadau gwastraff.
** yn deillio o Gyfrifiad 2011
*** Cyfoeth Cymreig Llywodraeth Cymru
*****Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (2016)
******Adroddiad STEAM Sir Fynwy (2016)

**Dangosyddion yr AoG a Ddiwygiwyd/Ddilëwyd – Cafodd y dangosyddion hyn eu diweddaru ers Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-2016**

| Pennawd | Dangosydd Gwreiddiol yr AoG | Rheswm dros ddiwygio |
|---|---|---|
| Hygyrchedd | *Canran y datblygiadau mawr* newydd o fewn taith gerdded 10 munud o wasanaeth bws mynych a rheolaidd*(+)*(ac eithrio caniatadau mwynau, gwastraff ac ynni adnewyddol)* | Diwygiwyd paramedrau'r dangosydd hwn i amlinellu'r mathau penodol o ddatblygiadau mawr a gynhwyswyd yn hytrach na'r rheiny a gaiff eu heithrio. |
| Tai | **Dwysedd tai a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd** | Ychwanegwyd mwy o fanyldeb i'r dangosydd i ddarparu eglurder. Mae hyn yn unol â dangosydd y CDLl. |
| Tir/pridd | **Cyfran y datblygiadau a ganiatawyd ar dir maes glas fel canran o'r holl ddatblygiadau eithrir deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol (nc neu -)** | Diwygiwyd yn unol â dangosydd y CDLl, diwygiwyd y newid defnydd i addasiadau er mwyn sicrhau bod newid defnydd tir yn cael ei ystyried. |
| Ynni | Nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n corffori cynhyrchu ynni adnewyddol ar-y-safle (eithrir deiliaid tai, newid defnydd ac adeiladau amaethyddol) | Diweddarwyd yn unol â dangosydd yr AoG a gynhwysir dan bennawd Amgylchedd Adeiledig. |
| Creu Cyfoeth | Ystod o Safleoedd Defnydd Cymysg Dynodedig SAE1/SAE2 ar gael, dosbarthiad a maint (+) | Dilëwyd y symbol ar ddiwedd y dangosydd hwn. Yr unig amser y byddai cynnydd mewn Cyflenwad Tir Cyflogaeth wedi'i greu byddai drwy ddyraniadau ychwanegol o ganlyniad i adolygu'r CDLl/CDLl newydd. |

## 7 Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Dyma'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLl Sir Fynwy. Er mai am dair blynedd yn unig y bu'r CDLl yn weithredol, amlygwyd tueddiadau drwy'r broses fonitro yn nodi pa bolisïau sy'n perfformio fel y'u bwriadwyd a'r polisïau nad ydynt. Yn adlewyrchu dadansoddiad monitro'r flwyddyn ddiwethaf gwireddir targedau ac erys strategaeth y CDLl yn gadarn. Fodd bynnag, mae'r AMB hefyd yn dangos bod rhai elfennau o'r Cynllun sy'n gwneud cynnydd mwy araf nag y bwriadwyd ac yn parhau yn fater o bryder.

7.2 Mae Adran 5 yn darparu asesiad manwl o'r modd mae polisïau strategol y Cynllun, a'r polisïau ategol cefnogol, yn perfformio yn erbyn y targedau monitro allweddol dynodedig a'r canlyniadau ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLl yn cael eu cyflenwi. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i fynegi barn gytbwys ar gynnydd y Cynllun wrth gyflenwi'r targedau/canlyniadau monitro a'r polisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg gweledol o effeithioldeb polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn seiliedig ar y graddau goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad:

| | |
|---|---|
| Targedau / canlyniadau monitro* yn cael eu cyflawni | **52** |
| Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon dros weithredu'r polisi | **22** |
| Targedau / canlyniadau monitro * heb gael eu cyflawni a phryderon yn dilyn dros weithredu'r polisi | **8** |
| Ni ellir dod i gasgliad o ganlyniad i brinder y data sydd ar gael | **2** |

*Ar gyfer y dangosyddion heb unrhyw darged/sbardun caiff y canlyniadau monitro'u hasesu a'u graddio'n unol â hynny

### Canfyddiadau Allweddol

7.3 Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses fonitro'n dangos bod mwyafrif y dangosyddion targed a'r canlyniadau monitro'n cael eu cyflawni (gradd goleuadau gwyrdd), yn dangos bod polisïau perthnasol y Cynllun yn perfformio fel y'u bwriadwyd. Mae'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys y canlynol:

**Strategaeth a Thai**

- Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud tuag at weithredu'r strategaeth ofodol.

- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 484 o unedau preswyl, w 93 (19.2%) ohonynt yn gartrefi fforddiadwy.

- Derbyniodd pedwar safle tai a neilltuwyd yn y CDLl ganiatâd cynllunio:
    - Yr Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7) 212 o anheddau gan gynnwys 20 uned fforddiadwy;
    - Coed Glas, Y Fenni (SAH9) 51 o anheddau gan gynnwys 18 uned fforddiadwy;
    - Safle Prif Bentref ym Mhenallt (SAH11xii) 10 annedd yn cynnwys 6 fforddiadwy a 4 annedd marchnad gyffredinol;
    - Safle Prif Bentref yn Shirenewton (SAH11xiv(b)) 5 annedd yn cynnwys 3 fforddiadwy a 2 annedd marchnad gyffredinol.

  Gwnaed cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â thri safle tai strategol arall.

- Mae'r targedau polisi tai fforddiadwy a amlinellir ym Mholisi S4 yn cael eu gwireddu'n gyffredinol mewn perthynas â chaniatadau cynllunio a roddwyd yn y prif drefi a'r prif bentrefi.

**Economi a Menter**

- Mae cyfanswm o 40.76 hectar o dir cyflogaeth ar gael gan y Sir, sy'n dangos y cynhelir digon o dir cyflogaeth i gwrdd â'r raddfa alw a ddynodwyd. Cymerwyd i fyny 3.21 hectar o dir cyflogaeth a briodolir i ddatblygiadau ar safleoedd busnes a chyflogaeth dynodedig (SAE1) (Quaypoint Magwyr a Pharc Busnes Westgate Llan-ffwyst) a safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) (Heol yr Undeb Y Fenni a Bragdy Magwyr).

- Gwnaed cynnydd arwyddocaol mewn perthynas â chaniatadau cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatadau'n cêl eu rhoddi i ystod o ddefnyddiau cyflogaeth defnydd dosbarth B ar safleoedd busnes a diwydiannol dynodedig (SAE1), safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) a safleoedd na neilltuwyd (yn gwneud cyfanswm o 2.26 hectar). Cymeradwywyd yn ogystal nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter wledig (6).

- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 24 o gyfleusterau twristiaeth, pob un ohonynt yn gysylltiedig â llety i dwristiaid yn amrywio o osod llety i ymwelwyr i lety glampio. Mae'r CCA newydd ar Lety Cynaliadwy i Dwristiaid wedi helpu i egluro'n cefnogaeth gyffredinol i'r sector pwysig hwn o'n heconomi.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Mae'r cyfraddau gwacter yn ein hardaloedd siopa canolog ym mhob un o drefi a chanolfannau lleol y Sir yn dal yn is na chyfradd Cymru. Mae pob un ar wahân i un (Brynbuga) o ardaloedd siopa canolog y Sir yn dal yn is na chyfradd y DU.

- Mae cyfran defnyddiau manwerthu A1 o fewn Prif Ffryntiadau Siopa'r dref yn gyffredinol yn unol â'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Prif Ffryntiadau Siopa.

- Rhoddwyd caniatadau cynllunio i gyfanswm o 4 cyfleuster cymunedol a hamdden.

**Amgylchedd**

- Roedd 51.2% (18.6 hectar) o'r datblygiadau a ganiatawyd[1] ar dir llwyd. Mae hyn yn arwyddocaol yn nhermau Sir Fynwy o ystyried y cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddatblygiadau tir llwyd yn y Sir.

- Ni chaniatawyd cynigion ar ardaloedd o ofod agored na neilltuwyd ar gyfer datblygu yn y CDLl.

- Mae digon o dir yn dal ar gael ar gyfer safleoedd posib i reoli gwastraff ac ni fu lleihad yn y banc tir mwynau.

- Ni chollwyd adeiladau rhestredig na safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd datblygiad a allai gael effaith andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Caniatawyd cyfanswm o 5 cynllun yn corffori cynhyrchu ynni ar-y-safle a chwblhawyd 3 chynllun o'r fath, gan gynnwys dau barc haul ffotofoltaig ar raddfa fawr (Shirenewton a Crick).

- Ni chaniatawyd datblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1/C2 nad oeddent wedi cwrdd â phrofion Nodyn Cyngor Technegol 15.

7.4 Mae hyn yn dangos bod llawer o'r fframwaith polisi'n gweithredu'n effeithiol gan ganiatáu i ddatblygiad priodol ddigwydd a bod cynnydd da wedi cael ei gyflawni wrth weithredu'r CDLl.

7.5 Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod amrywiol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni ond heb bryderon cyfatebol dros weithredu polisi, fel yr amlinellir yn Adran 5 (gradd goleuadau traffig oren). Mae ymchwiliad pellach wedi penderfynu bod rhesymau y gellir eu cyfiawnhau dros y perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn gynrychioladol o unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r polisi neu'r strategaeth y tro hwn. Mae'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â'r rhain fel a ganlyn:

**Tai**

- Mae nifer y tai a gwblhawyd yng Nglan Hafren yn parhau'n is na tharged dynodedig y CDLl, eto mae'r tai a gwblhawyd yn sylweddol uwch na'r rheiny a gofnodwyd yn ystod yr AMB blaenorol. Yn gyferbyniol, roedd y caniatadau yng Nglan Hafren yn sylweddol uwch na'r targed dynodedig a'r safle tai strategol a neilltuwyd yn y Felin Bapur yn Sudbrook yn derbyn caniatâd sydd i gyfrif.

- Tra bu peth cynnydd gyda'r dyraniadau Brif Bentref (cyfanswm o 18 caniatâd i anheddau fforddiadwy a 9 annedd fforddiadwy wedi'u cwblhau ers

[1] Mae'n eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol.

mabwysiadu’r Cynllun), ni chyflawnwyd y targed i’r safleoedd hyn rhyngddynt gyflenwi 20 annedd fforddiadwy’r flwyddyn. Fodd bynnag, mae yna ddatblygiad (gan gynnwys cyfarfodydd cyn-ymgeisio) a nifer o’r safleoedd Prif Bentref yn gwneud cynnydd a gaiff ei adrodd yn yr AMB nesaf.

**Economi a Menter**

- Cymeradwywyd 2 gais yn ymwneud â cholli tir cyflogaeth defnydd dosbarth B, yn gwneud cyfanswm o 0.65 hectar. Fodd bynnag, cafodd y golled ei chyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi’r CDLl.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Roedd 67% o’r arwynebedd llawr newydd a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi’r Sir. Fodd bynnag, ystyriwyd y cynigion yn briodol o gofio amgylchiadau’r ceisiadau a gellid eu cyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi’r Cynllun.
- Tra mae’r cyfraddau gwacter o fewn ardaloedd siopa canolog y Sir yn dal yn is na chyfradd Cymru, mae graddfeydd gwacter canol trefi Y Fenni a Brynbuga wedi codi am ddwy flynedd yn olynol. Fodd bynnag mae’r codiadau’n ymylol ac nid ydynt yn codi unrhyw bryderon dybryd gyda bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau.
- Collwyd 6 cyfleuster cymunedol i ddefnyddiau amgen. Fodd bynnag, gellir cyfiawnhau’r golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi’r CDLl.

**Amgylchedd**

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 16.5 hectar o dir maes glas heb ei neilltuo. Mae hyn, fodd bynnag, yn sylweddol is na’r hyn a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (44.6 hectar). Roedd cyfleusterau llety twristiaid yn cyfrif am lawer (50.5%) o’r tir maes glas heb ei neilltuo, pob un ohonynt wedi’i gyfiawnhau ar sail polisi ac yn ymwneud â defnydd gwrthdroadwy o dir amaethyddol.

7.6 Eto, er gwaethaf yr uchod, mae’r wybodaeth a gasglwyd drwy’r broses fonitro wedi adnabod nifer o dargedau dangosyddion polisi allweddol / canlyniadau monitro mewn perthynas â darpariaeth tai nad ydynt yn gwneud cynnydd fel y’u bwriadwyd (gradd goleuadau traffig coch). Mae ymchwiliad pellach wedi penderfynu bod pryderon gyda gweithredu’r agweddau hyn o’r fframwaith polisi. Mae’r rhain fel a ganlyn:

**Strategaeth a Thai**

- Cofnodwyd cyfanswm o 238 o anheddau newydd wedi’u cwblhau (y farchnad gyffredinol a fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â’r 439 o anheddau newydd wedi’u cwblhau yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 667 o anheddau wedi’u cwblhau ers mabwysiadu’r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na’r targed a ddynodwyd yn y

CDLl o 488 o anheddau wedi'u cwblhau y flwyddyn (diffyg o 797 o anheddau wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun).

- Cofnodwyd cyfanswm o 47 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae hyn, ynghyd â'r 80 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau yn ystod y ddau gyfnod monitro diwethaf, yn cyfateb i gyfanswm o 127 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae hyn yn sylweddol is na'r targed a ddynodwyd yn y CDLl o 96 o dai fforddiadwy wedi'u cwblhau y flwyddyn (diffyg o 161 o anheddau fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun). Mae hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnydd wrth adeiladu, ond hefyd â phroblemau hyfywedd.

- Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CAATT) Sir Fynwy ar gyfer cyfnod 2016-17 yn dangos bod gan y Sir gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai (yn seiliedig ar y fethodoleg weddilliol a bennwyd gan NCT1). Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r cyflenwad tir syrthio'n is na'r targed 5 mlynedd.

- Cynnydd cyfyngedig a fu gyda chyflenwi safleoedd tai strategol a neilltuwyd. Ac eithrio'r Hen Felin Bapur yn Sudbrook a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro cyfredol a safle Heol Wonastow lle mae'r adeiladu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae'r safleoedd strategol sy'n weddill eto i dderbyn caniatâd cynllunio, er bod rhai wedi'u cymeradwyo ond yn disgwyl cwblhau'r cytundebau cyfreithiol. Darperir gwybodaeth ar y cynnydd wrth gyflenwi safleoedd strategol y CDLl yn yr adran dadansoddi polisi ar gyfer Polisi S3.

7.7 Gan ystyried canfyddiadau'r AMB blaenorol, erys yn amlwg nad yw polisïau allweddol darparu tai'r Sir yn cael eu cyflawni cyn gynted ag y rhagwelwyd ac mae diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai yn dal yn fater o bryder. Ffactor sylfaenol arall sy'n cyfrannu at y diffyg hwn yw'r cynnydd arafach na'r disgwyl ar safleoedd adeiladu tai strategol a neilltuwyd. Tra mae digon o dir ar gyfer tai wedi'i neilltuo yn y CDLl i gwrdd â'r gofynion preswyl dynodedig dros gyfnod y Cynllun, nid yw safleoedd yn gwneud cynnydd fel y disgwylid am nifer o resymau, nifer ohonynt yn annibynnol o'r system gynllunio megid yr economi ehangach a'r farchnad dai. Mae hyfywedd safleoedd yn ffactor bwysig sy'n effeithio cyflenwi safleoedd ac mae asesiadau hyfywedd yn arafu penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r oedi ar gyflenwi safleoedd yn effeithio ar gyfanswm y tai marchnad gyffredinol a fforddiadwy sy'n cael eu cyflenwi drwy'r system gynllunio. Yn ogystal, ystyrir y gofyniad NCT1 i Awdurdodau Cynllunio Lleol seilio'u cyfrif cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai ar y dull gweddilliol yn ffactor cyfrannol yn niffyg cyfredol tir ar gyfer tai yn y Sir.

7.8 Parthed cyflenwi tai, roedd y 7 safle strategol a neilltuwyd yn y CDLl i fod i gyflenwi oddeutu 2,020 o unedau allan o gyfanswm yr angen am 4,500 o unedau, gyda'r gweddill yn cael eu darparu drwy gyfrwng y safleoedd trefol dynodedig (SAH8 Heol

Tudor, Wyesham a SAH9 Coed Glas, Y Fenni), safleoedd aneddiadau gwledig eilaidd SAH10, safleoedd prif bentref SAH11, a safleoedd hapchwarae eraill. Darperir cynnydd ar gyflenwi safleoedd tai strategol y CDLl yn adran y dadansoddiad o bolisi ar gyfer Polisi S3 sy'n dangos diffyg yng nghyfnod y Cynllun o 640 o anheddau o'r safleoedd strategol.

7.9 Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai er mwyn galluogi cwrdd â gofynion tai cyffredinol y Cynllun. Mae tystiolaeth y monitro'n dangos nad yw sefyllfa'r cyflenwad tir ar gyfer tai'n debygol o wella yn y byrdymor a'i bod yn hynod annhebygol y bydd Sir Fynwy'n ail-ennill cyflenwad 5 mlynedd dan y Cynllun cyfredol. Felly, mae angen am ddyraniadau safleoedd ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai. Mae hyn yn parhau'r duedd a ddynodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf ac yn y Gydastudiaeth o Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CATT) a arweiniodd at yr argymhelliad i gychwyn adolygiad cynnar o'r Cynllun o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hyrwyddo'r broses o ddynodi a neilltuo tir ychwanegol hyfyw sy'n bosib ei gyflenwi ar gyfer tai.

7.10 Mae'r datblygiad araf parhaus o safleoedd tai strategol dynodedig (heblaw Heol Wonastow a Melin Bapur Sudbrook) â goblygiadau amlwg ar gyfer cyflenwad tir ar gyfer tai ac mae hefyd yn fater o bryder, er bod cynnydd yn cael ei wneud wrth ddwyn ymlaen nifer o'r safleoedd hyn ac nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r dyraniadau'n bosib eu cyflenwi (fel y manylir yn Adran 5). Mae, felly, yn annhebygol y bydd angen adolygu priodoldeb mwyafrif y CDLl presennol, fodd bynnag, caiff hyn ei ystyried yn fanylach fel rhan o adolygiad/arolwg y Cynllun. Er gwaethaf hyn, mae'r raddfa gyflenwi arafach nag arfer yn awgrymu bod angen dyraniadau safleoedd ychwanegol sy'n hyfyw ac yn hawdd eu cyflenwi ac sy'n cyfrannu'n ddilys at y cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai.

7.11 O ystyried y pwysigrwydd ynghlwm wrth fater tir ar gyfer tai, cynhelir yr argymhelliad yn AMB y flwyddyn ddiwethaf i gychwyn adolygiad cynnar o'r Cynllun. Byddai adolygu/arolygu'r Cynllun hefyd yn gymorth i geisio osgoi 'cynllunio drwy apêl' a datblygiad ad hoc yn dod ymlaen y tu allan i system ddatblygu'r cynllun. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y bydd mabwysiadu agwedd bragmataidd tuag at benderfynu ceisiadau amrywiad ar gyfer safleoedd datblygiad preswyl yn gymorth yn y cyd-destun hwn (fel y cydnabyddir yn NCT1, paragraff 6.2).

7.12 O ystyried hyn, erys y sefyllfa bod adolygiad o'r CDLl yn angenrheidiol oherwydd y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Nid ystyrir bod unrhyw agweddau eraill o'r Cynllun angen eu hadolygu ar hyn o bryd.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

7.13 Gwnaed cynnydd gyda pharatoi a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol i helpu i hwyluso dehongli a gweithredu polisi'r CDLl fel yr amlinellir yn Adran 3. Bydd paratoi

a mabwysiadu'r CCA yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf. Lle bydd yn hanfodol, canolbwyntir adnoddau ar arolygu/adolygu'r Cynllun.

**Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)**

7.14 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y CDLl a'r AoG sy'n helpu i ddangos fel mae monitro'r CDLl a'r AoG yn rhyng-gysylltiedig.

7.15 Mae rhai o'r casgliadau mwyaf nodedig sy'n benodol i'r AoG yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Mae 87% o'r prif ddatblygiadau newydd[2] wedi'u lleoli o fewn taith gerdded 10 munud o wasanaeth bws mynych a rheolaidd.
- Cafodd 2 hectar o fannau agored eu creu o ganlyniad i ganiatadau cynllunio.
- Collwyd i ddatblygiad oddeutu 20 o goed yn cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed Coetir o ganlyniad i'r caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl yn y safle a neilltuwyd yng Nghoed Glas, Y Fenni (SAH9).
- Roedd un lleoliad lle'r oedd lefelau gwrthrychol blynyddol uwch o nitrogen deuocsid (Hardwick Hill, Cas-gwent).
- Roedd 8 o'r 20 cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl a safleoedd o dros 10 annedd /1 hectar yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)[3] yn y cynllun.
- Fe ailgylchwyd neu fe wrteithiwyd 64.1% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy.
- 0 enghraifft lle mae afonydd ar draws y Sir wedi profi llif haf isel.
- 0 hectar o dir amaethyddol ar Radd 3a neu well wedi'i golli i ddatblygiad mawr.
- Cynnydd o 1.8% yng ngwariant twristiaeth (£190.05 miliwn).

7.16 Mae monitro'r AoG yn darparu datganiad sefyllfa byrdymor ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. O dipyn i beth, caiff ei gymharu â'r ddau AMB blaenorol yn unig, daw tueddiadau datblygol yn fwy amlwg mewn AMBau yn y dyfodol.

---

[2] Diffinnir datblygiad mawr fel un sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r datblygiadau canlynol o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar; datblygiad ag adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr i'w greu yn 1000m2 neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy; ennill neu weithio mwynau, neu ddefnydd o'r tir ar gyfer gweithio dyddodion mwynau; neu, ddatblygiad gwastraff.

[3]SDCau yw'r datrysiadau draenio sy'n darparu dewis amgen na sianelu dŵr wyneb drwy rwydweithiau o bibellau a charthffosydd i gyrsiau dŵr gerllaw. Drwy efelychu systemau draenio naturiol nod SDCau yw lleihau'r llif dŵr wyneb, gwella ansawdd y dŵr a gwella gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SDCau yn cyflawni hyn drwy ostwng graddfa'r llif, cynyddu cynhwyster storio dŵr a lleihau cludiant llygredd i'r amgylchedd dŵr *(Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

**Argymhellion**

7.17 Mae AMB 2016-17 yn cynnal y tueddiadau a ddynodwyd yn AMB y flwyddyn ddiwethaf, mae hynny tra mae cynnydd da’n cael ei wneud wrth weithredu nifer o bolisïau’r Cynllun ac at ei gilydd mae’r strategaeth yn aros yn gadarn, ni chyfarfyddir â nifer o dargedau polisi allweddol y ddarpariaeth dai sy’n dangos nad yw’r polisïau hyn yn gweithredu fel y bwriadwyd. Mae’r diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai yn parhau’n fater o bryder sydd angen mynd i’r afael ag ef os yw gofynion tai’r Cynllun i gael eu cyflawni. Felly, ystyrir adolygiad cynnar o’r CDLl yn angenrheidiol oherwydd y diffyg cyflenwad tir ar gyfer tai. Gan nad oes pryderon gyda pholisïau eraill y Cynllun ar yr adeg hon mae’r AMB hefyd yn dod i’r casgliad nad ystyrir yn angenrheidiol adolygu agweddau eraill y Cynllun ar yr adeg hon.

7.19 Felly, mae’r AMB yn argymell y canlynol:

1. Parhau ag adolygiad cynnar o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy o ganlyniad i’r angen i fynd i’r afael â’r diffyg yn y cyflenwad tir ar gyfer tai a hwyluso dynodi/neilltuo tir ychwanegol ar gyfer tai. Bydd hyn yn golygu cynhyrchu Adroddiad Adolygu a fydd yn amlinellu ac yn egluro rhychwant yr adolygiad Cynllun sy’n ofynnol.

2. Cyflwyno’r trydydd AMB i Lywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2017 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi’r AMB ar wefan y Cyngor.

3. Parhau i fonitro’r Cynllun drwy baratoadau’r AMBau.

7.20 Mae’r trydydd AMB hwn yn cynrychioli rhan gyntaf Adroddiad Adolygu’r CDLl. Yn amodol ar gwblhau’r trafodaethau rheolaidd ynghylch y cynllunio rhanbarthol strategol, mae’r swyddogion yn cynnig cyflwyno’r Adroddiad Adolygiad Drafft i’r Aelodau yn hwyrach yn y flwyddyn galendr hon.